



edexcel 

Unedau

BTEC Cenedlaethol

Edexcel BTEC Lefel 3 Natonals Dyfarniad mewn lechyd a
Gofal Cymdeithasol

I'w haddysgu gyntaf Medi 2010

A PEARSON COMPANY



Translated by: Fiona Gannon

Proofread by: Heini Gruffudd

Cynnwys

Uned 1:	Datblygu Cyfathrebu Effeithiol ym maes lechyd a Gofal Cymdeithasol	1
Uned 2:	Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau ym maes lechyd a Gofal Cymdeithasol	7
Uned 3:	Iechyd, Diogelwch a Diogeledd ym maes lechyd a Gofal Cymdeithasol	13
Uned 4:	Datblygiad ar hyd Cyfnodau Bywyd	19
Uned 5:	Hanfodion Anatomeg a Ffisioleg ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol	25
Uned 6:	Datblygiad Personol a Phroffesiynol ym maes lechyd a Gofal Cymdeithasol	31
Uned 7:	Persbectifau Cymdeithasegol ym maes lechyd a Gofal Cymdeithasol	39
Uned 8:	Persbectifau Seicolegol ym maes lechyd a Gofal Cymdeithasol	43
Uned 9:	Gwerthoedd a Chynllunio ym maes Gofal Cymdeithasol	47
Uned 10:	Gofalu am Blant a Phobl Ifanc	53
Uned 11:	Diogelu Oedolion a Hybu Annibyniaeth	59
Uned 12:	Iechyd Cyhoeddus	65
Uned 13:	Ffisioleg Cydbwysedd Hylifau	71
Uned 14:	Anhwylderau Ffisiolegol	77
Uned 15:	Biocemeg ar gyfer lechyd	83
Uned 16:	Gwyddoniaeth ar gyfer lechyd	89
Uned 17:	Gweithio yn y Sector Gofal Cymdeithasol	95
Uned 18:	Gweithio yn y Sector Iechyd	101
Uned 19:	Persbectifau Cymdeithasol Cymwysedig ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol	107
Uned 20:	Hybu Addysg Iechyd	113

Uned 21:	Maetheg ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol	119
Uned 22:	Methodoleg Ymchwil ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol	127
Uned 23:	Therapiau Cyflenwol ym maes lechyd a Gofal Cymdeithasol	133
Uned 24:	Cyflwyniad i Sgiliau Cwnsela ar gyfer Lleoliadau lechyd a Gofal Cymdeithasol	139
Uned 25:	Ymdopi gyda Newid mewn Cyd-d estun lechyd a Gofal Cymdeithasol	145
Uned 26:	Gofalu am Unigolion sydd ag Anghenion Ychwanegol	149
Uned 27:	Delio gydag Ymddygiad Heriol	155
Uned 28:	Gofalu am Bobl Hŷn	161
Uned 29:	Persbectifau Seicolegol Cymwysedig ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol	167
Uned 30:	Seicoleg lechyd	173
Uned 31:	Ffisioleg Cydsymud	179
Uned 32:	Symudedd ac Ymarfer Corff ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol	185
Uned 33:	Gwyddor Gorfforol ar gyfer lechyd	191
Uned 34:	Etifeddiad Dynol ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol	197
Uned 35:	Cyflwyniad i Ficrobioleg argyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol	203
Uned 36:	Clefydau Trosglwyddadwy	209
Uned 37:	Amddiffyniad yn erbyn Clefydau	215
Uned 38:	lechyd Amgylcheddol	221
Uned 39:	Atal a Rheoli Heintiau	227
Uned 40:	Gofal Dementia	233
Uned 41:	Gweithio gyda Meddyginiaeth ym maes lechyd a Gofal Cymdeithasol	239
Uned 42:	Gwaith Cefnogi ym maes Gofal Cymdeithasol	245

Uned 43: Technoleg mewn Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol	251
Uned 44: Profiad Galwedigaethol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol	257
Uned 45: Dysgu Annibynnol ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol	263
Uned 46: Llythrennedd Academaidd yn y Sectorau Iechyd a Gofal Cymdeithasol	269
Uned 47: Polisi Cymdeithasol ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol	275
Uned 48: Archwilio Datblygiad Personol a Phroffesiynol ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol	281

Uned 1: Datblygu Cyfathrebu Effeithiol ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cod yr Uned:

FfCCH Lefel 3: BTEC Cenedlaethol

Gwerth credydau: 10

Oriau dysgu dan arweiniad: 60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi dysgwyr i ddeall cyfathrebu effeithiol, y rhwystrau a all fodoli, a ffyrdd o'u goresgyn. Bydd yr uned yn rhoi cyfle i ddysgwyr gaffael y sgiliau rhyngbersonol angenrheidiol i gychwyn ar yrfa yn y sectorau iechyd neu ofal cymdeithasol.

Cyflwyniad i'r uned

Mae hon yn uned graidd yn y rhaglen, gan gydnabod y ffaith bod cyfathrebu effeithiol yn ganolog i bob gwaith yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae ar weithwyr proffesiynol yn y sectorau hyn angen sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol da i gyflawni eu rolau yn effeithiol, i weithio ar y cyd â chydweithwyr ac i adeiladu perthnasoedd cefnogol gyda phobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Mae'n bwysig felly bod pawb sydd yn cychwyn ar yrfa yn y sectorau iechyd neu ofal cymdeithasol yn caffael gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau cysylltiedig â chyfathrebu, fel eu bod yn gallu datblygu sgiliau rhyngbersonol effeithiol.

Yn y lle cyntaf, bydd dysgwyr yn archwilio ystyr cyfathrebu effeithiol a sgiliau rhyngbersonol a sut gall hynny effeithio ar y canlyniadau i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau. Bydd dysgwyr yn ystyried y ffactorau sy'n dylanwadu ar gyfathrebu a rhyngweithio, gan ddadansoddi theorïau a all helpu i egluro pam y gall fod anawsterau, methiant posib i gyfathrebu, a ffyrdd o oresgyn hynny. Edrychir hefyd ar fanteision cyfathrebu effeithiol i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau.

Bydd yr uned yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr fyfyrio ar eu perfformiad eu hunain, a pherfformiad pobl eraill, gan gyfnerthu eu dysgu trwy arddangos eu sgiliau wrth rhyngweithio ar lefel un i un ac mewn grŵp, mewn cyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol.

Bydd yr wybodaeth a'r sgiliau a geir yn sgil yr uned hon yn cynnal cyflawniad ym mhob uned yng Nghymwysterau Cenedlaethol Lefel 3 BTEC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae cysylltiadau cryf gydag *Uned 6: Datblygiad Personol a Phroffesiynol ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol*, gan fod cyfnod o brofiad gwaith yn darparu cyfleoedd i ddatblygu ac asesu sgiliau cyfathrebu.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Ddeall cyfathrebu a rhyngweithio rhyngbersonol effeithiol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol
- 2 Deall y ffactorau sy'n dylanwadu ar gyfathrebu a rhyngweithio rhyngbersonol mewn amgylcheddau iechyd a gofal cymdeithasol
- 3 Deall ffyrdd o oresgyn rhwystrau mewn amgylchedd iechyd a gofal cymdeithasol
- 4 Gallu cyfathrebu a rhyngweithio'n effeithiol mewn amgylchedd iechyd a gofal cymdeithasol.

Cynnwys yr uned

1 Deall cyfathrebu a rhyngweithio rhyngpersonol effeithiol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

Cyd-destunau: un i un; grwpiau, e.e. ffurfiol, anffurfiol, ymhlith cydweithwyr, rhwng gweithwyr proffesiynol a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau, cyfathrebu â gweithwyr proffesiynol, gwaith aml-asiantaeth, gwaith nifer o weithwyr proffesiynol

Cyfathrebu: ffurfiau, e.e. negeseuon testun, ysgrifenedig, llafar, iaith arwyddion, symbolau, cerddoriaeth a drama, gwrthrychau y cyfeirir atynt, celf a chrefft, technoleg

Rhyngweithio rhyngpersonol: mathau, e.e. llafar, iaith, (iaith gyntaf, tafodiaith, iaith sathredig, jargon), di-eiriau (safiad, mynegiant yr wyneb, cyffyrddiad, distawrwydd, agosrwydd, gwranddo adlewyrchol)

Anghenion a dewisiadau iaith a chyfathrebu: dull dewisedig yr unigolyn o gyfathrebu, e.e. iaith, Iaith Arwyddion Prydain, Makaton, Braille, defnyddio arwyddion, symbolau, darluniau ac ysgrifennu; gwrthrychau y cyfeirir atynt, sillafu bysedd, pasbortau cyfathrebu, cymhorthion dynol a thechnolegol i gyfathrebu, amrywiadau rhwng diwylliannau

2 Deall y ffactorau sy'n dylanwadu ar gyfathrebu a rhyngweithio rhyngpersonol mewn amgylcheddau iechyd a gofal cymdeithasol

Theorïau ynghylch cyfathrebu: Camau'r cylch cyfathrebu yn ôl Argyle (syniadau'n digwydd, codio'r neges, anfon y neges, derbyn y neges, dadgodio'r neges, deall y neges); Cyfnodau rhyngweithio grŵp yn ôl Tuckman (ffurfio, tasgu, creu norm, perfformio)

Amgylchedd: ffactorau, e.e. lleoliad, sŵn, seddau, goleuo, lle, amser

Rhwysterau: ffactorau, e.e. y math o gyfathrebu (anodd, cymhleth, sensitif), anghenion/dewisiadau iaith, nam synhwyrdd, anabledd, personoliaeth, hunan-barch, pryder, iselder, ymosodedd, bod yn ostyngedig, rhagdybiaethau, systemau gwerth a chred, jargon, amrywiadau diwylliannol, defnyddio a chamddefnyddio pŵer, effeithiau alcohol/cyffuriau

3 **Deall ffyrdd o oresgyn rhwystrau mewn amgylchedd iechyd a gofal cymdeithasol**

Cyfathrebu a rhyngweithio rhyngbersonol: strategaethau posib, e.e. hyfforddiant staff, asesu angen, defnyddio dull a ffafir, hyrwyddo hawliau, cyfrinachedd, dirymu ymosodedd, pendantrwydd, cyfathrebu geiriol/di-eiriau priodol, meithrin perthnasoedd, amgylchedd priodol, agwedd, hyder

Cymhorthion cyfathrebu: dynol (eiriolwyr, dehonglwyr, cyfieithwyr, arwyddwyr, mentoriaid, cyfeilwyr), cymhorthion technolegol (cymhorthion clywed, ffonau testun, minicom, meddalwedd a actifadir gan y llais, systemau relái, systemau dolen (*loop*))

4 **Gallu cyfathrebu a rhyngweithio'n effeithiol mewn amgylchedd iechyd a gofal cymdeithasol**

Cyd-destunau: ffurfiol; un i un; grŵp; gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau; gyda gweithwyr proffesiynol/chydweithwyr

Sgiliau Cyfathrebu: geiriol a di-eiriau, e.e. gwranddo ac ymateb, goslef, cyflymdra, iaith, amgylchedd priodol, agosrwydd, egluro neu ailadrodd, cwestiynu, ymateb i sefyllfaoedd anodd, dirymu dicter

Effeithiolrwydd: sefyllfaoedd grŵp ac un i un, e.e. ymwybyddiaeth o anghenion a dewisiadau, sgiliau rhyngbersonol, agweddau, goresgyn rhwystrau, addasu rhyngweithio, pendantrwydd

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 egluro rôl cyfathrebu a rhyngweithio rhyngbersonol effeithiol mewn cyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol [YA3]	T1 asesu rôl cyfathrebu a rhyngweithio rhyngbersonol effeithiol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan gyfeirio at theorïau ynghylch cyfathrebu	
LI2 trafod theorïau ynghylch cyfathrebu [YA4; MC3]		Rh1 gwerthuso strategaethau a ddefnyddir mewn amgylcheddau iechyd a gofal cymdeithasol i oresgyn rhwystrau i gyfathrebu a rhyngweithio rhyngbersonol effeithiol
LI3 egluro'r ffactorau a all ddylanwadu ar gyfathrebu a rhyngweithio rhyngbersonol mewn amgylcheddau iechyd a gofal cymdeithasol [YA2; YA5; YA6; MC1]	T2 adolygu strategaethau a ddefnyddir mewn amgylcheddau iechyd a gofal cymdeithasol i oresgyn rhwystrau i gyfathrebu a rhyngweithio rhyngbersonol effeithiol	
LI4 egluro'r strategaethau a ddefnyddir mewn amgylcheddau iechyd a gofal cymdeithasol i oresgyn rhwystrau i gyfathrebu a rhyngweithio rhyngbersonol effeithiol [YA1; YA6; MC1]		

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI5 cyfranogi mewn rhyngweithio ar lefel un i un mewn cyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol [MC5; DM6; HR3]	T3 asesu eu sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol yng nghyswllt pob rhyngweithio.	
LI6 cyfranogi mewn rhyngweithio grŵp mewn cyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol. [MC5; DM6; HR3].		Rh2 gwerthuso'r ffactorau a ddylanwadodd ar effeithiolrwydd pob rhyngweithio.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwyr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol MC - meddylwyr creadigol	DM - dysgwyr myfyriol GT - gweithwyr tîm	HR - hunanreolwyr CE - cyfranogwyr effeithiol
----------------	--	---	--

Uned 2: Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cod yr Uned:

FfCCH Lefel 3:

BTEC Cenedlaethol

Gwerth credydau:

10

Oriau dysgu dan arweiniad:

60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth dysgwyr o gysyniadau sy'n ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd dysgwyr yn gallu caffael gwybodaeth am arfer ggwahaniaethol a dulliau o'i wrthweithio. Byddant hefyd yn datblygu dealltwriaeth o fentrau cenedlaethol sy'n hybu arfer gwrth-wahaniaethol mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol.

Cyflwyniad i'r uned

Mae dealltwriaeth o'r amrywiaeth aruthrol o unigolion a geir yng nghymdeithas gyfoes Prydain, a sut mae arfer iechyd a gofal cymdeithasol da yn cydnabod ac yn darparu ar gyfer yr amrywiaeth hwn yn ganolog i arfer iechyd a gofal cymdeithasol effeithiol. Mae hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau unigolion yn hanfodol i sicrhau darpariaeth effeithiol o ran gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r uned hon yn edrych ar sut mae cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau yn ganolog i weithrediad effeithiol gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n edrych ar arfer ggwahaniaethol a'i effeithiau posib ar gleifion/defnyddwyr gwasanaeth, hyrwyddo arfer gwrth-wahaniaethol drwy ddeddfwriaethau a chodau ymarfer, er enghraifft, cymhwyso hyn i'r gweithle iechyd neu ofal cymdeithasol, a mentrau cenedlaethol sy'n hyrwyddo arfer gwrth-wahaniaethol.

Bydd yr wybodaeth a'r sgiliau a geir yn yr uned hon yn darparu sylfaen ar gyfer llawer o'r unedau eraill yn y cymhwyster. Yn arbennig, mae'n hanfodol i baratoi dysgwyr ar gyfer eu profiad gwaith. Mae hefyd yn baratoad defnyddiol ar gyfer gwaith yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol ac ar gyfer dysgwyr sy'n bwriadu mynd ymlaen i wneud gradd mewn gwaith cymdeithasol, nyrsio, neu ddisgyblaethau cysylltiedig eraill, er enghraifft.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Ddeall cysyniadau cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau yng nghyswllt iechyd a gofal cymdeithasol
- 2 Gwybod am arferion ggwahaniaethol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol
- 3 Deall sut mae mentrau cenedlaethol yn hyrwyddo arfer gwrth-wahaniaethol
- 4 Gwybod sut mae arfer gwrth-wahaniaethol yn cael ei hyrwyddo mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol.

Cynnwys yr uned

1 Deall cysyniadau cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau yng nghyswllt iechyd a gofal cymdeithasol

Manteision amrywiaeth: cymdeithasol/diwylliannol, e.e. y celfyddydau, diet, addysg, iaith, cyfoeth diwylliannol, goddefgarwch, cydlynid cymdeithasol; economaidd, ee cyflogaeth, arbenigedd

Terminoleg: defnydd cywir o, e.e. cydraddoldeb, cyfiawnder, amrywiaeth, hawliau, cyfle, gwahaniaeth, gwahaniaethu amlwg, gwahaniaethu cudd, stereoteipio, labelu, rhagfarn, anfantais, credoau, gwerthoedd, bod yn agored i niwed, camdriniaeth, grymuso, annibyniaeth, rhyng-ddibyniaeth, hiliaeth, rhywiaeth, homoffobia

Lleoliadau: lleoliadau iechyd a/neu ofal cymdeithasol, e.e. gofal preswyl, gofal dydd, gofal nyrsio, gofal cartref

Hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau'r unigolyn yn weithredol mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol: egwyddorion sylfaen gwerthoedd gofal; canolbwyntio ar y claf/defnyddiwr gwasanaeth wrth ddarparu'r gwasanaeth e.e. darparu cefnogaeth weithredol, hyrwyddo hawliau, dewisiadau a lles unigolion, arfer gwrth-wahaniaethol, grymuso cleifion/defnyddwyr gwasanaeth; delio gyda thensiynau a gwrthddywediadau; datblygu a hyfforddi staff; goblygiadau ymarferol cyfrinachedd, e.e. cofnodi, adrodd, storio a rhannu gwybodaeth

Hawliau unigolion: yr hawl i gael eu parchu, eu trin yn gyfartal heb wahaniaethu yn eu herbyn, eu trin fel unigolion, eu trin mewn modd urddasol, gan ganiatáu preifatrwydd iddynt, eu diogelu rhag perygl a niwed, caniatáu iddynt gyrchu gwybodaeth amdanynt eu hunain, medru cyfathrebu yn y dull cyfathrebu a'r iaith a ddewisir ganddynt, derbyn gofal mewn modd sy'n diwallu eu hanghenion, yn ystyried eu dewisiadau ac yn eu hamddiffyn

2 Gwybod am arferion gwahaniaethol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

Sail y gwahaniaethu: ffactorau, e.e. diwylliant, anableddau, oedran, dosbarth cymdeithasol, rhyw, rhywioldeb, statws iechyd, statws teuluol, gallu gwybyddol

Arfer gwahaniaethol: mathau, e.e. troseddu yn erbyn hawliau, camddefnyddio pŵer yn gudd neu'n amlwg, rhagfarn, stereoteipio, labelu, bwlio, cam-drin

Effeithiau: ymleiddio, dirymuso, diffyg hunan-barch a hunaniaeth, cyfleoedd cyfyngedig, ymddygiad negyddol megis ymosodedd neu droseddu

Colli hawliau: goresgyn hawliau'r unigolyn, e.e. drwy ddefnyddio pŵer a grym; pwerau statudol

3 Deall sut mae mentrau cenedlaethol yn hyrwyddo arfer gwrth-wahaniaethol

Confensiynau, deddfwriaeth a rheoliadau: adrannau perthnasol o, e.e. Confensiwn Ewrop ar Hawliau Dynol a Rhyddid Sylfaenol 1950, Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975, Deddf Iechyd Meddwl 1983, Gorchymyn Iechyd Meddwl (Gogledd Iwerddon) 1986, Y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn 1989, Deddf Plant 1989, Deddf Cysylltiadau Hil (Diwygiwyd) 2000, Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005, Deddf Hawliau Dynol 1998, Deddf Diogelu Data 1998, Rheoliadau Cartrefi Gofal Preswyl a Nyrsio 1984 (diwygiwyd 2002), Deddf Safonau Gofal 2000, Deddf Plant 2004, Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005, Deddf Galluedd Meddyliol 2005, Deddf Gwahaniaethu ar sail Oedran 2006

Codau ymarfer a siarteri: codau ymddygiad a sefydlwyd gan gyrff proffesiynol; codau ymarfer a rheolau ymddygiad y Cyngor Gofal Cymdeithasol Cyffredinol/Cyngor Gofal Cymru/Cyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol a chyflogwyr; siarteri, e.e. hawl i dderbyn gwasanaethau

Polisiâu a gweithdrefnau trefniadol: mynd ati i hyrwyddo, e.e. hawliau unigol, eiriolaeth, arferion gwaith, datblygu a hyfforddi staff, materion ansawdd, gweithdrefnau cwynion, gweithredu cadarnhaol, atal aflonyddu, cyfrinachedd, hawliau dynol

4 Gwybod sut mae arfer gwrth-wahaniaethol yn cael ei hyrwyddo mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol

Mynd ati i hyrwyddo arfer gwrth-wahaniaethol: egwyddorion moesegol; canolbwyntio ar y claf/defnyddiwr gwasanaeth wrth ddarparu gwasanaeth e.e. darparu cefnogaeth weithredol sy'n cydweddu â chredoau, diwylliant a dewisiadau'r unigolyn, cefnogi unigolion i fynegi eu hanghenion a'u dewisiadau, grymuso unigolion, hyrwyddo hawliau, dewisiadau a lles unigolion; cydbwyso hawliau unigolion â hawliau pobl eraill; delio gyda gwrthdaro; adnabod a herio gwahaniaethu

Credoau a systemau gwerthoedd personol: dylanwadau ar, e.e. diwylliant, credoau, digwyddiadau yn y gorffennol, cymdeithasu, dylanwadau amgylcheddol, iechyd a lles; datblygu mwy o hunanymwybyddiaeth a goddefgarwch yn wyneb gwahaniaethau; ymrwymo i'r gwerthoedd gofal sylfaenol; defnydd gofalus o iaith; gweithio o fewn canllawiau cyfreithiol, moesegol a pholisi

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 egluro cysyniadau cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau yng nghyswllt iechyd a gofal cymdeithasol [YA3; YA4; MC2; MC4]		
LI2 disgrifio arfer gwahaniaethol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol [MC4]	T1 asesu effeithiau tri arfer gwahaniaethol gwahanol mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol ar y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth	
LI3 disgrifio effeithiau posib arfer gwahaniaethol ar y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol [YA3; MC2; MC4; HR3; DM6]		
LI4 egluro sut mae mentrau cenedlaethol yn hyrwyddo arfer gwrth-wahaniaethol [YA3; MC2]	T2 asesu dylanwad menter bolisi genedlaethol ddiweddar sy'n hyrwyddo arfer gwrth-wahaniaethol	Rh1 gwerthuso llwyddiant menter ddiweddar i hyrwyddo arfer gwrth-wahaniaethol

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI5 disgrifio sut mae arfer gwrth-wahaniaethol yn cael ei hyrwyddo mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. [YA3; MC2; HR3; DM6]	T3 trafod yr anawsterau a all godi wrth roi arfer gwrth-wahaniaethol ar waith mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol.	Rh2 cyfiawnhau ffyrdd o oresgyn anawsterau a all godi wrth roi arferion gwrth-wahaniaethol ar waith mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnodu, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwyr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 3: Iechyd, Diogelwch a Diogeledd ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cod yr Uned:	A/600/8952
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yn galluogi dysgwyr i gaffael dealltwriaeth o iechyd, diogelwch a diogeledd unigolion mewn cyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol. Byddant yn archwilio deddfwriaeth, polisiau a gweithdrefnau ac yn dod i ddeall diben dadansoddi risgiau. Bydd dysgwyr hefyd yn dod i ddeall sut mae delio gyda digwyddiadau ac argyfyngau mewn amgylchedd iechyd a gofal cymdeithasol.

Cyflwyniad i'r uned

Mae iechyd, diogelwch a diogeledd yn flaenoriaeth ym mhob arfer iechyd a gofal cymdeithasol (IGC) ac mae'r uned hon yn rhoi i'r dysgwyr ddealltwriaeth o'r prif egwyddorion sy'n sail ar gyfer gwaith yn y sector. Ar ôl cwblhau'r uned, bydd dysgwyr yn deall sut mae cyfyngu gymaint â phosib ar y risgiau i bob unigolyn mewn lleoliadau IGC, boed y rheiny'n ddefnyddwyr gwasanaeth, yn ffrindiau neu deulu iddynt, neu'n weithwyr yn y lleoliad. Mae'r uned yn galw am ddealltwriaeth glir o'r iaith a ddefnyddir yng nghyd-destun iechyd, diogelwch a diogeledd. Mae gweithleoedd IGC yn amgylcheddau cymhleth, a gellir darparu gwasanaethau mewn lleoliadau iechyd, preswyl a gofal dydd, yn ogystal â nifer cynyddol yng nghartrefi defnyddwyr y gwasanaeth eu hunain. Ar ddiwedd yr uned, dylai dysgwyr fedru rhagweld peryglon posib a gwybod sut mae ymateb yn briodol i gyfyngu cymaint â phosib ar risgiau, yng nghyd-destun gofynion polisi lleol a chyfreithiol perthnasol.

Bydd y dysgwyr yn ymchwilio i'r peryglon posib i unigolion mewn lleoliadau IGC. Byddai arsylwi anffurfiol, yn enwedig yn ystod lleoliadau gwaith, er mwyn gweld sut mae gweithwyr gofal yn rhoi arfer diogel ar waith gyda gwahanol grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaeth mewn gwahanol amgylcheddol, yn ymchwil gefndir ddefnyddiol. Gallai dysgwyr rannu eu profiadau o wahanol leoliadau mewn

trafodaethau dosbarth. Gallai deunydd achosion, fideo a/neu siaradwyr gwadd fod o gymorth, yn enwedig lle bo mynediad i leoliadau yn gyfyngedig. Mae'r agwedd ymarferol ar yr uned yn gofyn bod dysgwyr yn cynnal asesiad risg trwy ymchwilio i'r peryglon ar gyfer grŵp dethol o ddefnyddwyr gwasanaeth wrth iddynt ddefnyddio lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol penodol yn y gymuned leol.

Bydd y dysgwyr yn ymchwilio i sut mae gofynion statudol a lleol yn darparu fframwaith er mwyn i leoliadau ddatblygu polisïau a gweithdrefnau yn ymwneud â diogelu a iechyd a diogelwch. Hefyd edrychir ar ddealltwriaeth o'r tensiynau posib a all godi yng nghyswllt cydbwyso ystyriaethau iechyd, diogelwch a diogelwch â hawliau'r unigolyn, er enghraifft, i annibyniaeth neu ddewis.

Bydd y dysgwyr yn archwilio natur y digwyddiadau a'r argyfyngau a all godi ym maes IGC, a'r ymatebion posib iddynt. Gallai hynny arwain at ystyriaeth â mwy o ffocws o'r risgiau sy'n codi yn sgil digwyddiad penodol o astudiaeth achos, o'r cyfryngau neu o brofiad gwirioneddol, a dadansoddiad o'r ffactorau a achosodd y digwyddiad neu'r argyfwng, ynghyd ag argymhellion ynghylch sut gallesid cyfyngu gymaint â phosib ar y risg.

Mae'r uned yn darparu gwybodaeth a dealltwriaeth graidd sy'n hanfodol ar gyfer y rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau IGC. Bydd yn darparu trosolwg defnyddiol ar gyfer datblygu archwiliad manylach o agweddau penodol ar iechyd, diogelwch a diogeledd, fel sy'n berthnasol i unedau arbenigol unigol o fewn y rhaglen. Gall rhai agweddau ar yr uned baratoi dysgwyr cyn iddynt gychwyn ar leoliad profiad gwaith. Gellid ychwanegu at yr uned â chymwysterau cydnabyddedig mewn cymorth cyntaf, symud a thrafod, iechyd a diogelwch a hylendid bwyd.

Canlyniadau dysgu

Wedi cwblhau'r uned hon dylai dysgwyr fedru:

- 1 Deall peryglon posib ym maes iechyd a gofal cymdeithasol
- 2 Gwybod sut mae deddfwriaeth, polisïau a gweithdrefnau yn hybu iechyd, diogelwch a diogeledd mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol
- 3 Gallu rhoi asesiad risg ar waith
- 4 Deall blaenoriaethau ac ymatebion wrth ddelio gyda digwyddiadau ac argyfyngau.

Cynnwys yr uned

1 Deall peryglon posib ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

Peryglon: yn ymwneud â'r amgylchedd ffisegol, cyfarpar, heintiau, sylweddau, amodau gwaith, arferion gwaith, systemau diogeled

Niwed a chamdriniaeth: posibilrwydd y ceir, e.e. camdriniaeth, anaf, haint wedi'i gaffael, trallod seicolegol, cynllunio gofal amhriodol, dod i gysylltiad â pherygl, straen, colled/difrod yn achos, e.e. eiddo, safle

Lleoliad: mathau, e.e. gofal preswyl, ysbyty, gofal dydd, cyn ysgol, ysgol fabanod, gwarchodwr plant, clinig, meddygfa, unrhyw leoliad lle mae unigolion yn derbyn gwasanaethau gofal (gan gynnwys eu cartrefi eu hunain neu'r gymuned); amgylchedd cyhoeddus, e.e. ardal adwerthu, pwll nofio, parc cyhoeddus, maes chwaraeon, traeth, cludiant

Unigolion: y rhai sy'n derbyn gofal; gweithwyr mewn lleoliad: staff gofal (o fewn y lleoliad, yn ymweld â'r lleoliad), staff cymorth (e.e. arlwywyr, glanhawyr, gweinyddol), ymwelwyr (e.e. perthnasau, ffrindiau, gwirfoddolwyr)

Defnyddwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol: fel sy'n berthnasol i'r lleoliad, e.e. cleifion, pobl hŷn, pobl ag anableddau dysgu, pobl ifanc, plant ifanc, babanod, y rhai ag anabledd corfforol neu nam synhwyrdd, pobl â phroblemau iechyd meddwl

2 Gwybod sut mae deddfwriaeth, polisïau a gweithdrefnau yn hybu iechyd, diogelwch a diogeled mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol

Deddfwriaeth a chanllawiau: adrannau perthnasol ar gyfer y famwlad, e.e. Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, Deddf Diogelwch Bwyd, Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd Cyffredinol), Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chario, Rheoliadau Adrodd am Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR), Deddf Diogelu Data, Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, Rheoliadau Cartrefi Gofal, Rheoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Peryglu Iechyd (COSHH), Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, Isafswm Safonau Gofal (amrywiol ychwanegion)

Diogelu: oedolion, plant a phobl ifanc hawdd eu niweidio; datgeliadau manwl, yr Awdurdod Diogelu Annibynnol, Amddiffyn Oedolion Hawdd eu Niweidio (POVA) Dylanwadau: staff, e.e. cymarebau staff-defnyddiwr gwasanaeth, hyfforddiant; safleoedd, e.e. lleoliad, cyfleusterau, mynediad; arferion (polisïau a gweithdrefnau cysylltiedig)

Polisïau a gweithdrefnau: ar gyfer, e.e. diogelu, iechyd a diogelwch, adrodd am ddamweiniau, gwaredu gwastraff y corff, storio a dosbarthu moddion, gwacáu yn achos tân, gweithio yn ynysig, diogeled safleoedd, eiddo ac unigolion, glanhau, diogelwch bwyd

Rolau: cyflogwyr, gweithwyr, staff gofal, defnyddwyr gwasanaethau, yr awdurdod lleol, Ymddiriedolaeth y Gwasanaeth Iechyd Gwladol; unigolion eraill, e.e. ymwelwyr, perthnasau, gwirfoddolwyr

Cyfrifoldebau: yn ôl y gofynion cyfreithiol a sefydliadol; ar gyfer, e.e. dilyn gweithdrefnau diogelwch a diogeleddd sefydliadol, llunio asesiadau risg, cyfyngu gymaint â phosib ar risgiau, delio gyda digwyddiadau ac argyfyngau, gweithio gydag eraill i sicrhau iechyd, diogelwch a diogeleddd, adrodd am ddigwyddiadau ac argyfyngau a chadw cofnod ohonynt, deall terfynau eich cyfrifoldebau eich hun, cadw eich hun yn ddiogel

3 Gallu rhoi asesiad risg ar waith

Asesu risg: canfod y peryglon, difrifoldeb posib y niwed a allai ddeillio o bob perygl, tebygolrwydd y bydd pob perygl yn achosi niwed, mesurau rheoli hanfodol, e.e. HACCP yn achos diogelwch bwyd

Cyfrifo graddfa'r risg: lefel y tebygolrwydd y bydd rhywbeth yn digwydd, ar raddfa o 1 i 5 (nid yw 1 yn debygol iawn; risg isel, 3 yw risg cymedrol, ystyr 5 yw posib iawn neu hyd yn oed ei fod yn debygol)

Rheoli'r risg: penderfynu beth mae angen ei wneud i leihau neu ddileu'r risg

Monitro sut mae'r risg yn cael ei reoli: cymryd rhagofalon i leihau'r risg; cyfarwyddiadau clir gan y swyddog iechyd a diogelwch

Ailarfarnu'r risg: lleihau'r risg; gwerthusiadau rheolaidd gan y swyddog iechyd a diogelwch

4 Deall blaenoriaethau ac ymatebion wrth ddelio gyda digwyddiadau ac argyfyngau

Digwyddiadau ac argyfyngau: mathau, e.e. digwyddiadau lle cafwyd camdriniaeth (amheuan bod hynny wedi digwydd), damweiniau, dod i gysylltiad â haint/cemegion, gollyngiadau, ymyrwyr, profiadau ymosodol a pheryglus, tân, trychineb fawr (e.e. llifogydd, colli'r cyflenwad dŵr, argyfwng dinesig), digwyddiadau eraill critigol

Ymatebion: cynnal parch ac urddas; cyfyngu gymaint â phosib ar y risg, cyrchu cymorth ar gyfer y digwyddiad neu'r argyfwng, gweithio mewn partneriaeth (e.e. gyda'r gwasanaethau brys); eraill, e.e. delio gydag achosion lle'r amheuir bod camdriniaeth, delio gyda datgelu camdriniaeth, rôl cymorth cyntaf, y weithdrefn wacáu, adrodd am ddamweiniau, adolygiad dilynol o ddigwyddiadau critigol ac argyfyngau, cyrchu cymorth ar gyfer eu hymatebion emosiynol eu hunain yn dilyn argyfwng

Blaenoriaethau: wrth ddelio gyda digwyddiadau ac argyfyngau, e.e. sicrhau diogelwch pobl, eiddo, yr amgylchedd, adolygu polisiâu a gweithdrefnau yn dilyn digwyddiadau critigol, rhoi gwelliannau ar waith ar gyfer y dyfodol

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 esbonio peryglon posib a'r niwed a all ddeillio o bob un ohonynt mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol [YA2; YA3; YA4; MC3; HR3; CE4]		
LI2 amlinellu sut mae deddfwriaeth, polisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â iechyd, diogelwch a diogeledd yn dylanwadu ar leoliadau iechyd a gofal cymdeithasol [YA2; YA3; YA4; HR3]	T1 disgrifio sut mae deddfwriaeth, polisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch yn hyrwyddo diogelwch unigolion mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol	
LI3 cynnal asesiad risg mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol [YA1; YA2; YA3; MC3; HR3; CE3]	T2 asesu'r peryglon a nodwyd yn y lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol	Rh1 cyflwyno argymhellion yng nghyswllt y peryglon a nodwyd er mwyn cyfyngu gymaint â phosib ar y risgiau i'r grŵp o ddefnyddwyr gwasanaeth

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI4 esbonio blaenoriaethau ac ymatebion posib wrth ddelio gyda dau ddigwyddiad neu argyfwng penodol mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol. [YA1; YA3; YA4; CE3; CE6]	T3 trafod pryderon iechyd, diogelwch neu ddiogeledd sy'n deillio o ddigwyddiad penodol neu argyfwng mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol.	Rh2 cyfiawnhau ymatebion i ddigwyddiad penodol neu argyfwng mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnodu, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwyr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 4: Datblygiad ar hyd Cyfnodau Bywyd

Cod yr Uned:	J/600/8954
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi dysgwyr i gaffael gwybodaeth a dealltwriaeth o wahanol gyfnodau cyfnod oes dynol. Bydd y dysgwyr yn gallu datblygu dealltwriaeth o'r newidiadau corfforol a seicolegol a ddaw wrth heneiddio, a gallu cymhwyso theorïau ynghylch heneiddio i'r ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol.

Cyflwyniad i'r uned

Mae gwybodaeth am dwf a datblygiad dynol ar hyd cyfnodau bywyd yn hanfodol i ddysgwyr sydd yn ystyried gyrfa ym maes iechyd neu ofal cymdeithasol; mae'n rhoi iddynt yr wybodaeth waelodol y mae ei hangen ar gyfer addysg uwch neu gyflogaeth. Bydd dysgwyr yn ymchwilio i effeithiau ffactorau genetig, biolegol a chymdeithasol ar dwf a datblygiad dynol. Byddant yn edrych ar y broses o heneiddio, effeithiau ffactorau genetig a biolegol ar hyd oes disgwylidig a'r gwahaniaethau rhwng y ddwy ryw. Rhoddir sylw hefyd i'r rhyngweithio rhwng ffactorau seicolegol a chorfforol y broses o heneiddio, ac effeithiau hynny ar hyder a hunan-barch, ynghyd â phrif theorïau heneiddio. Bydd yr uned yn annog y dysgwyr i edrych ar y ddatl natur-magwraeth a gymhwysir i unigolion, ac i ystyried manteision hinsoddau galluogol a rhai sy'n hybu tyfiant ar gyfnod bywyd dynol. Byddant yn ystyried unigolion yng nghyd-destun eu bywydau beunyddiol a'r amgylchiadau sydd o'u cwrpas.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gwybod am gyfnodau twf a datblygiad ar hyd cyfnod bywyd dynol
- 2 Deall effeithiau posib ffactorau bywyd a digwyddiadau ar ddatblygiad yr unigolyn
- 3 Deall newidiadau corfforol a seicolegol heneiddio

Cynnwys yr uned

1 Gwybod am gyfnodau twf a datblygiad ar hyd cyfnod bywyd dynol

Cyfnodau bywyd: cenhedlu; beichiogrwydd; genedigaeth a babandod — 0–3 oed; plentyndod - 4-9 oed; llencyndod — 10–18 oed; oedolaeth — 19–65 oed; oedolaeth hŷn; 65+; cyfnodau olaf bywyd

Diffiniadau: twf; datblygiad; normau datblygiad; cerrig milltir datblygiad; cwrs bywyd; aeddfedrwydd; hyd oes disgwyledig

Datblygiad: datblygiad cyfannol; corfforol, deallusol, iaith, emosiynol a chymdeithasol ym mhob cyfnod o fywyd; achosion ac effeithiau posib datblygiad wedi ei oedi a'i atal

2 Deall effeithiau posib ffactorau bywyd a digwyddiadau ar ddatblygiad yr unigolyn

Dadl natur-magwraeth: prif egwyddorion; rhaglennu biolegol; effeithiau profiadau yn erbyn nodweddion a etifeddwyd; theori aeddfedrwydd

Ffactorau bywyd: genetig, e.e. rhagduddiad i gyflyrau penodol, ffibrosis cystig, clefyd coeliag, asthma, clefyd esgyrn brau, clefyd gwynegol; biolegol, e.e. syndrom alcohol y ffetws, heintiau mamol, effeithiau deiet yn ystod beichiogrwydd; amgylcheddol, e.e. dod i gysylltiad â llygredd, tai llaith/wedi gorlenwi, mynediad i gyfleusterau adloniadol, mynediad i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, bwlio, camweithrediad teuluoedd, effeithiau diwylliant, crefydd a chredoau, effeithiau gwahaniaethu; sosio-economaidd, e.e. incwm, gwariant, addysg, gwerthoedd ac agweddau, grwpiau cyfoedion, statws cyflogaeth; ffordd o fyw, e.e. maeth a dewisiadau deiet, cymeriant alcohol, defnydd a chamddefnydd o sylweddau

Prif ddigwyddiadau bywyd: gwahaniaethau yn effaith digwyddiadau rhagweladwy ac anrhagweladwy; e.e. geni brawd neu chwaer, gadael cartref, gadael gofal, gadael y carchar, anaf difrifol, salwch, cychwyn yn yr ysgol/mewn meithrinfa, dechrau a newid cyflogaeth, colli swydd, profedigaeth, priodas, dod yn rhiant, ysgariad; y berthynas rhwng ffactorau

3 Deall newidiadau corfforol a seicolegol heneiddio

Newidiadau corfforol: hormonau; diwedd y mislif; y system gardiofasgwlaidd, e.e. atherosclerosis, clefyd coronaidd y galon; y system resbiradol, e.e. emffysema, clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint; y system nerfol, e.e. clefyd motor echddygol (neuron), dirywiad organau'r synhwyrâu'r dirywiad y meinwe nerfol, newidiadau gwybyddol; cyhyr-ysgerbydol, e.e. arthritis rhiwmatoid, osteoarthritis, effeithiau clefyd dirywiol, gwanhau yn y cyhyrau oherwydd diffyg amsugno maetholynnau; croen, e.e. colli hydwythedd, effeithiau dod i gysylltiad â phelydrau uwch fioled, effeithiau smygu; effeithiau afiechydon sydd yn fwy cyffredin wrth heneiddio

Newidiadau seicolegol: effeithiau ar hyder; effeithiau ar hunan-barch; effeithiau rhagfarn oed; effeithiau, e.e. newid rôl, colli partner, ymddeol, mwy o amser hamdden, pryderon ariannol, diwylliant, crefydd, credoau; theoriâu heneiddio, e.e. datgysylltu cymdeithasol, theori gweithgaredd; cymhwyso i'r ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol gyfredol.

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol pob un o gyfnodau bywyd unigolyn [YA2; YA4; MC1; MC2]	T1 trafod y ddadl natur-magwraeth yng nghyswllt datblygiad unigolyn	Rh1 gwerthuso sut gall natur a magwraeth effeithio ar ddatblygiad corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol dau gam yn natblygiad unigolyn
LI2 esbonio effeithiau posib pum ffactor bywyd gwahanol ar ddatblygiad unigolyn [YA3; MC4]		
LI3 egluro dylanwad dau ddigwyddiad rhagweladwy mewn bywyd a dau anrhagweladwy ar ddatblygiad unigolyn		
LI4 esbonio dwy theori ynghylch heneiddio	T2 trafod dwy theori bwysig ynghylch heneiddio yng nghyswllt datblygiad yr unigolyn	Rh2 gwerthuso dylanwad dwy o'r prif theoriau ynghylch heneiddio ar y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol.
LI5 esbonio'r newidiadau corfforol a seicolegol a all fod yn gysylltiedig â heneiddio. [YA1; YA2; YA4; MC2]	T3 trafod effeithiau'r newidiadau corfforol a gysylltir â heneiddio ar hunan-barch a hunanhyder.	

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwyr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 5: Hanfodion Anatomeg a Ffisioleg ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cod yr Uned:	R/600/8956
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi dysgwyr i ddeall agweddau ar anatomeg a ffisioleg systemau'r corff dynol. Bydd dysgwyr yn gallu caffael trosolwg o drefniant y corff dynol cyn edrych ar sut mae systemau'r corff yn cydweithio i ddarparu egni ar gyfer y corff. Bydd dysgwyr yn cael y cyfle i ymchwilio i sut mae mecanweithiau homeostatig yn gweithredu yn y corff.

Cyflwyniad i'r uned

Mae'r uned yn cyflwyno gwybodaeth graidd am strwythur celloedd a'u swyddogaeth, a threfn y corff yn gyffredinol, gan adeiladu ar hyn i ddatblygu gwybodaeth fanylach am anatomeg a ffisioleg mân y systemau sy'n ymwneud â metaboledd egni.

Bydd y dysgwyr yn archwilio'r mecanweithiau homeostatig sy'n ymwneud â rheoleiddio'r systemau hyn er mwyn cynnal iechyd. Bydd y dysgwyr yn cael cyfle i ymgymryd â gweithgareddau ymarferol a fydd yn gofyn eu bod yn cymryd mesuriadau o'r system gardiofasgwlaidd, y system resbiradol, a thymheredd y corff, gan ddefnyddio technegau anymwthiol i ymchwilio i ymatebion normal i amrywiadau cyffredin yn swyddogaethau'r corff.

Mae'r uned hon yn darparu dealltwriaeth greiddiol o ffisioleg ddynol sy'n darparu sylfaen ar gyfer astudio'r unedau ffisioleg arbenigol sy'n rhan o'r rhaglen hon. Mae'r uned hefyd yn darparu trosolwg o swyddogaethau'r corff sy'n werthfawr i unrhyw un sy'n gweithio mewn maes cysylltiedig â iechyd a gofal cymdeithasol.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Ddeall trefniadaeth y corff dynol
- 2 Deall gweithrediad systemau'r corff sy'n gysylltiedig â metaboledd egni
- 3 Deall sut mae systemau homeostatig yn gweithredu wrth gynnal amgylchedd mewnol
- 4 Medru dehongli data a gasglwyd o fonitro amrywiadau cyffredin yng ngweithrediad systemau corff iach.

Cynnwys yr uned

1 Ddeall trefniadaeth y corff dynol

Trefniadaeth: celloedd; meinweoedd; organau; systemau

Celloedd: pilen y gell, y niwclews, cytoplasm; organynnau — mitochondria, reticwlwm endoplasmaidd (llyfn, garw), aparatws Golgi, lysosom

Meinweoedd:

- ◇ *epithelaidd:* syml (ciwboid, colofnaidd, cennog, ciliedig), cyfansawdd (syml, wedi ceratineiddio)
- ◇ *cysylltiol:* gwaed, cartilag, asgwrn, areolaidd, blonegog
- ◇ *cyhyrol:* rhesog, anrhesog, cardiaidd
- ◇ *nerfol:* niwronau, niwroglia
- ◇ enghreifftiau o ble gellid dod o hyd i bob math o feinwe

Organau'r corff: lleoliad y galon, yr ysgyfaint, yr ymennydd, y stumog, yr afu, y pancreas, y dwodenwm, yr ilewm, y colon, yr arennau, y bledren, yr ofariau/y ceilliau, yr wterws; strwythur a swyddogaethau'r croen

Systemau: strwythur cyffredinol cardiofasgwlaidd, resbiradol, treuliol, arenol, nerfol, endocrin, atgynhyrchol, lymffatig, cyhyr-ysgerbydol, imiwnedd

Prif swyddogaethau systemau: swyddogaethau cyffredinol pob system, ee treulio deunydd bwyd, cynnal y cyflenwad ocsigen, cludo a chyflenwi deunyddiau i gelloedd, derbyn gwybodaeth o'r amgylchedd, cydsymud, dileu cynnyrch gwastraff, atgenhedlu; trosolwg o'r rhyngweithio ymhlith gwahanol strwythurau pob system

2 Deall gweithrediad systemau'r corff sy'n gysylltiedig â metaboledd egni

Egni: ffurfiau, e.e. cemegol, gwres, sain, trydanol, golau

Deddfau egni: arbed egni; trawsnewid egni

Metaboledd egni: rôl egni yn y corff; anaboledd a chataboledd; gweithgareddau sy'n ymwneud â chyflenwi egni i gelloedd y corff - rolau'r systemau cardiofasgwlaidd, resbiradol a threuliol

Y system gardiofasgwlaidd: y galon - strwythur, y cylch cardiaidd, cyfradd curiad y galon, cyfaint y trawiad, pwysedd y gwaed, pibellau gwaed - rhydweliâu, rhydweliynnau, capilarïau, gwythienigau, gwythiennau; cylchrediad pwlmonaidd a systemig; strwythur a swyddogaethau'r gwaed

Y system resbiradol: rôl llwybrau anadlu'r trwyn; strwythur a swyddogaethau'r tracea, bronci, ysgyfaint - y goeden fronciol, yr alfeoli; rôl meinwe epithelaidd ciliedig; cyhyrau resbiradol - cyhyrau rhyngasennol, y diaffram; awyriad, cyfnewid nwyol, trylediad

Y system dreulio: trosolwg o'r llwybr ymborth - esoffagws, stumog, dwodenwm, ilewm, colon; afu, pancreas, chwarennau poer; rôl y system dreulio wrth ddatod ac amsugno deunyddiau bwyd, amlyncu, peristalsis, treulio, amsugno, carthu Swyddogaeth ensymau wrth dreulio bwyd: amylasau, proteasau, lipasau; safleoedd secretiad; eu swyddogaeth wrth dreulio

Prif gynnyrch treuliad: peptidau ac asidau amino, siwgrau, glyserol ac asidau brasterog; swyddogaethau yn y corff; storio braster a charbohydradau gormodol; deamineiddio protein gormodol a thynged y cynnyrch terfynol; swyddogaeth yr afu; swyddogaeth yr arennau

Amsugno bwyd: i'r gwaed; i'r lactealau; swyddogaeth filysau a microfilysau

3 Deall sut mae systemau homeostatig yn gweithredu wrth gynnal amgylchedd mewnol

Homeostasis: diffiniad o homeostasis, amgylchedd mewnol, cysyniad adborth negyddol: fel mecanwaith rheoleiddio

Systemau homeostatig ar gyfer rheoleiddio:

- ◇ *cyfradd curiad y galon:* rolau derbynyddion mewnol, system nerfol awtonomaidd - cyflenwad nerfol sympathetig a pharasympathetig, canolbwynt cardiaidd, nod sinoatriaidd; effeithiau tymheredd uwch yn y corff ac adrenalin ar gyfradd curiad y galon
- ◇ *cyflymder anadlu:* rolau derbynyddion mewnol, system nerfol awtonomaidd - cyflenwad nerfol sympathetig a pharasympathetig, canolbwynt resbiradol, y diaffram a'r cyhyrau rhyngasennol
- ◇ *tymheredd y corff:* y corff yn cynhyrchu gwres, e.e. trwy brosesau metabolaidd; y corff yn colli gwres - pelydriad, dargludiad, darfudiad, anweddiad; rolau'r hypothalamws, system nerfol awtonomaidd - sympathetig a pharasympathetig, y croen - rôl rhydweliynnau a chwarennau chwys; effeithiau crynu; goblygiadau cymarebau arwyneb a chyfaint, e.e. wrth ofalu am fabanod; twymyn
- ◇ *lefelau glwcos y gwaed:* rolau'r pancreas, yr afu, inswlin, glwcagon

4 Medru dehongli data a gasglwyd o fonitro amrywiadau cyffredin yng ngweithrediad systemau corff iach

Mesuriadau: pwls, cyflymder anadlu, tymheredd; gwerthoedd ac amrediad normal; arfer diogel wrth gymryd mesuriadau, sylweddoli pa ffactorau all effeithio ar ddibynadwydd mesuriadau

Amrywiadau normal: fel y'u mesurwyd wrth orffwys ac wedyn bob yn dipyn yn ystod y cyfnod adfer wedi prawf ymarfer corff safonol, e.e. prawf stepio Harvard

Cyflwyno a dehongli data: graffiau a siartiau; esboniadau yn cefnogi'r data a goladwyd

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 amlinellu swyddogaethau prif gydrannau celloedd [DM6; HR2; HR5; CE4]		
LI2 amlinellu strwythur prif feinweoedd y corff [YA2; GT1; HR2; HR5]		
LI3 amlinellu strwythur cyffredinol holl brif systemau'r corff [MC1; DM6; HR2; HR5]		
LI4 esbonio ffisioleg dwy system benodol yn y corff yng nghyswllt metaboledd egni yn y corff [MC4; DM6; HR2; HR5]	LI1 trafod rôl egni yn y corff	Rh1 dadansoddi'r berthynas rhwng dwy o systemau'r corff wrth gyflawni swyddogaeth benodol/swyddogaethau penodol
LI5 esbonio cysyniad homeostasis [MC4; HR2; HR5]	T2 trafod yr ymatebion homeostatig tebygol i newidiadau yn yr amgylchedd mewnol yn ystod ymarfer corff	Rh2 gwerthuso pwysigrwydd homeostasis wrth gynnal gweithrediad iach y corff.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI6 dilyn canllawiau i ddehongli data a gasglwyd ar gyfer cyfradd curiad y galon, cyflymder anadlu a thymheredd cyn ac ar ôl cyfnod safonol o ymarfer corff. [MC4; GT2; HR2; HR5]	T3 cyflwyno data a gasglwyd cyn ac ar ôl cyfnod safonol o ymarfer corff, gan gyfeirio at ddilysrwydd.	

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwyr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 6: Datblygiad Personol a Phroffesiynol ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cod yr Uned:	D/600/8958
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	20
Oriau dysgu dan arweiniad:	120

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi dysgwyr i ddeall y broses ddysgu a rhoi iddynt y sgiliau y mae eu hangen arnynt i gynllunio ar gyfer eu datblygiad proffesiynol, ei fonitro a myfyrio arno. Wedyn bydd y dysgwyr yn gallu ymchwilio i'r ddarpariaeth iechyd neu ofal cymdeithasol a dod i'w deall. Rhaid i'r dysgwyr gwblhau 100 awr o brofiad gwaith fel un o ofynion yr uned hon.

Cyflwyniad i'r uned

Ar y cychwyn bydd y dysgwyr yn archwilio ffactorau sy'n effeithio ar ddysgu, cyn cynllunio a monitro'u datblygiad proffesiynol eu hunain a myfyrio arno. Byddant hefyd yn dod i ddeall elfennau allweddol y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, yn cynnwys agweddau ar gyflwyno gwasanaethau a hanfodion methodoleg ymchwil. Bydd y dysgwyr yn ystyried eu datblygiad personol a phroffesiynol yn gyfannol, gan greu cysylltiad rhwng gwahanol unedau yn eu rhaglenni yn ogystal â'u profiadau personol.

Mae'r uned hon yn edrych ar y gwahanol ddulliau o ddysgu, a sut gellir defnyddio dysgu o brofiadau unigol i wella ansawdd gwybodaeth, sgiliau ac arfer. Bydd y dysgwyr yn edrych ar gysyniadau dysgu ac yn cysylltu'r rhain â'u hoff ddulliau dysgu eu hunain a ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar eu dysgu.

Ar y cychwyn bydd y dysgwyr yn ystyried eu gwybodaeth, eu sgiliau, eu harfer, eu gwerthoedd a'u credoau eu hunain yng nghyswllt gwaith ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Wedyn byddant yn llunio cynllun personol ar gyfer eu datblygu eu hunain dros gyfnod y rhaglen, mewn modd sy'n briodol ar gyfer eu galluoedd personol, eu nodau a'u dyheadau gyrfa. Bydd dysgwyr yn adolygu eu cynnydd yn

erbyn y cynlluniau hyn ar adegau gydol y rhaglen, gan eu haddasu yn ôl y galw wrth i amgylchiadau newid. Byddant yn datblygu'r gallu i dynnu ar ystod o ffynonellau gwybodaeth er mwyn asesu eu datblygiad personol a phroffesiynol, gan gynnwys eu profiad galwedigaethol a phrofiadau perthnasol eraill megis astudiaethau ffurfiol, cyflogaeth a/neu weithgareddau gwirfoddol. Mae'r uned hefyd yn cyflwyno darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i'r dysgwyr, yn ogystal â methodoleg ymchwil, a bydd y ddwy elfen hon yn cael eu hestyn mewn unedau eraill yn y rhaglen.

Mae isafswm o 100 awr o brofiad gwaith, ar ben yr oriau dysgu dan arweiniad, yn ofynnol i gwblhau'r uned hon yn llwyddiannus. Argymhellir bod hyn yn cael ei rannu rhwng o leiaf dri lleoliad gwahanol.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Ddeall y broses ddysgu
- 2 Gallu cynllunio ar gyfer eu datblygiad proffesiynol eu hunain a'i fonitro
- 3 Gallu myfyrio ar eu datblygiad eu hunain dros amser
- 4 Deall y ddarpariaeth o wasanaethau yn y sectorau iechyd neu ofal cymdeithasol.

Cynnwys yr uned

1 Deall y broses ddysgu

Theorïau dysgu: damcaniaethwyr, e.e. Honey a Mumford, Kolb

Sgiliau ar gyfer dysgu: sgiliau astudio; llythrennedd, rhifedd, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu; sgiliau ymchwil, ee arsylwi, cwestiynu, defnyddio'r rhyngwrwyd; defnyddio adborth; myfyrio

Dylanwadau: ar ddysgu, e.e. dysgu a phrofiad blaenorol, angen dysgu penodol, dysgu ffurfiol yn erbyn dysgu anffurfiol, amser, dull o ddysgu, amgylchedd dysgu, mynediad i adnoddau, agwedd a hunanddisgyblaeth, dyheadau a symbyliad, blaenoriaethau, iechedd, cyfrifoldebau, perthnasoedd, eraill yn ôl y galw

Cefnogaeth ar gyfer dysgu: gan e.e. tiwtoriaid, cyfoedion, goruchwylwyr, mentoriaid; cyfarfodydd; mwy o hunan-ymwybyddiaeth; sut a ble mae cael hyd i wybodaeth a chefnogaeth am arfer gorau a gwybodaeth

Cyfleoedd dysgu: ffurfiol, anffurfiol; gwybodaeth a geir yn sgil, e.e. gweithgareddau yn y dosbarth, profiadau ar leoliad, astudiaethau annibynnol, profiadau bywyd, cyflogaeth, gweithgareddau gwirfoddol

2 Gallu myfyrio ar eu datblygiad proffesiynol eu hunain dros amser

Adolygu ar ddechrau'r rhaglen: gwybodaeth a sgiliau presennol, ymarfer, gwerthoedd, credoau, dyheadau gyrfa; hunan-ymwybyddiaeth

Gwybodaeth: adolygu, cynllunio a monitro, e.e. dysgu perthnasol ffurfiol ac anffurfiol hyd yma, materion cyfoes cyfredol, dealltwriaeth o theorïau, egwyddorion a chysyniadau, dealltwriaeth o yrfaedd posib; casglwyd o amrywiaeth o gyfleoedd dysgu

Sgiliau: cyfathrebu: iaith (geiriol, di-eiriau); gweithio gydag eraill, e.e. defnyddwyr gwasanaeth, gweithwyr proffesiynol, cyfoedion; technegol e.e. TG, defnyddio cyfarpar, sgiliau creadigol/crefft; ymchwil, e.e. cynradd, eilaidd, trafod data; personol, e.e. sgiliau trefniadol, cyflwyniad personol

Ymarfer: adolygu, cynllunio a monitro, e.e. parch at sylfaen gwerthoedd gofal, rhyngweithio proffesiynol gydag eraill, gweithio ar y cyd ag eraill, gwaith tîm, dylanwad gwerthoedd a chredoau personol, ymwybyddiaeth o'r angen i ddatblygu sylfaen gwerthoedd personol i gefnogi a hyrwyddo arfer da, ymwybyddiaeth o effaith deddfwriaeth, codau ymarfer a pholisïau ar eu harfer eu hunain, eu cyfrifoldeb a'r cyfyngiadau sydd arnynt

Gwerthoedd a chredoau: personol a phroffesiynol, e.e. gwerthoedd a chredoau, sylfaen o werthoedd gofal

Dyheadau gyrfa: dewisiadau gyrfa, y dewis a ffafir

Cynllun gweithredu ar gyfer datblygiad personol: targedau/nodau, tymor byr (hyd at chwe mis), tymor hir (o leiaf 18 mis), penodol, mesuradwy, posib eu gweithredu, perthnasol, amserol

Ystyried nodau personol: o ran gwybodaeth, sgiliau, ymarfer, gwerthoedd, credoau a dyheadau gyrfa

3 Gallu myfyrio ar eu datblygiad eu hunain dros amser

Monitro a gwerthuso'r cynllun o ran datblygiad personol: isafswm o dri nod, cynnydd yn erbyn y targedau a bennwyd

Newidiadau: mewn ymateb i anghenion datblygu parhaus, nodau a myfyrio

Cyd-destunau: lleoliadau profiad gwaith, ymweliadau, amgylchedd astudio, digwyddiadau bywyd; arall, e.e. cyflogaeth

Portffolio datblygiad proffesiynol: llyfr log arfer proffesiynol, wedi'i strwythuro'n briodol ar gyfer asesu'r uned a natur y dystiolaeth, cofnodion wedi'u mynegeo a'u dilysu i ddangos cynnydd personol wrth ddatblygu gwybodaeth, sgiliau, ymarfer a dyheadau gyrfa dros amser, amrywiaeth o gyd-destunau ar gyfer dysgu a datblygu

Tystiolaeth berthnasol: ffurfiol, e.e. asesiadau, arsylwadau, tystiolaeth arsylwi uniongyrchol gan dystion, adroddiadau lleoliadau, adborth gan diwtoriaid a goruchwylwyr, cofnodion sesiynau tiwtorial/gyrfaoedd, tystysgrifau, datganiadau personol, ffurflenni cais neu CVs; anffurfiol, e.e. dyddiadur, adolygiadau cyfoedion, cofnodion adfyfyriol, cofnodion digwyddiadau

Cefnogaeth ar gyfer datblygu: gan diwtoriaid, cyfoedion, goruchwylwyr, mentoriaid; cyfarfodydd; mwy o hunan-ymwybyddiaeth; sut a ble mae cael hyd i wybodaeth a chefnogaeth am arfer gorau a gwybodaeth

Myfyrio ar ddatblygiad personol: cysylltu theori ac ymarfer; cysylltu ymarfer a theori; cyflawni nodau personol o ran gwybodaeth, sgiliau, ymarfer, gwerthoedd, credoau a dyheadau gyrfa; dylanwad gwerthoedd a chredoau personol; effaith eraill ar ddatblygiad esblygol yr hunan

4 Deall y ddarpariaeth o wasanaethau yn y sectorau iechyd neu ofal cymdeithasol

Darparu gwasanaethau: fframwaith cenedlaethol perthnasol i'r famwlad; cynradd, eilaidd, trydyddol; rheoleiddwyr

Iechyd neu ofal cymdeithasol lleol: y gwasanaethau a ddarperir, e.e. y math o ddarpariaeth, cyllido, mynediad, rhwystrau mynediad posib, polisiau a gweithdrefnau'r sefydliad; lle'r gwasanaeth yn y fframwaith cenedlaethol

Gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol: gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol, e.e. staff nyrsio, gweithwyr cymdeithasol, galwedigaethau cysylltiedig â meddygaeth; gweithwyr cefnogi proffesiynol technegol, e.e. staff labordai meddygol ac anfeddygol; gweithwyr cefnogi proffesiynol eraill, ee rheolwyr, gweinyddwyr; rôl cyrff proffesiynol; llwybrau gyrfa, hyfforddiant a chymwysterau, datblygu'r gweithlu; codau ymddygiad, rolau a chyfrifoldebau; timau amlddisgyblaeth

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 egluro beth yw'r prif ddylanwadau ar brosesau dysgu personol unigolion [YA3; YA4]	T1 asesu effaith y prif ddylanwadau ar eu prosesau dysgu personol eu hunain	Rh1 gwerthuso sut gall dysgu a datblygiad personol fod o fudd i eraill
LI2 asesu eu gwybodaeth, eu sgiliau, eu hymarfer, eu gwerthoedd, eu credoau a'u dyheadau gyrfa personol ar ddechrau'r rhaglen [DM1; DM2; DM4; CE1]		
LI3 cynhyrchu cynllun gweithredu ar gyfer hunanddatblygiad a chyflawni nodau personol [MC1; DM2]		
LI4 cynhyrchu tystiolaeth o'u cynnydd eu hunain yn erbyn y cynllun gweithredu dros gyfnod y rhaglen [DM3; DM4; HR1; HR2; HR6]	T2 asesu sut mae'r cynllun gweithredu wedi eu helpu i gynnal eu datblygiad eu hunain dros gyfnod y rhaglen	Rh2 gwerthuso'u datblygiad eu hunain dros gyfnod y rhaglen.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI5 myfyrio ar eu datblygiad personol a phroffesiynol eu hunain [DM5; HR6]	T3 defnyddio tair enghraifft i archwilio'r cysylltiadau rhwng theori ac ymarfer.	
LI6 disgrifio un darparwr gwasanaeth iechyd neu ofal cymdeithasol lleol a nodi ei le yn y ddarpariaeth genedlaethol [YA2]		
LI7 disgrifio rolau, cyfrifoldebau a llwybrau gyrfa tri gweithiwr iechyd neu ofal cymdeithasol. [YA2; MC1]		

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnodu, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwyr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 7: Persbectifau Cymdeithasegol ym maes iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cod yr Uned:	M/601/2402
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	5
Oriau dysgu dan arweiniad:	30

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi dysgwyr i ddod i ddeall y gwahanol ddulliau cymdeithasegol y gellir eu defnyddio wrth astudio, a sut y gellir defnyddio'r dulliau hynny i astudio iechyd a gofal cymdeithasol.

Cyflwyniad i'r uned

Mae cymdeithaseg yn golygu astudio cymdeithas, ac mae'n ddull o ymchwilio a chynnisg esboniadau. Yn yr uned hon bydd dysgwyr yn dod i ddeall cymdeithaseg fel disgyblaeth a'r gwahanol bersbectifau cymdeithasegol. Wedyn byddant yn ystyried sut mae'r gwahanol ddulliau cymdeithasegol yn cael eu cymhwyso er mwyn deall nifer o gysyniadau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd hyn yn cynnwys archwilio dimensiwn cymdeithasol iechyd a salwch.

Mae cymdeithasegwyr yn dadlau bod dwy agwedd ar iechyd a salwch. Mae'r gyntaf yn fiolegol, ac yn amlwg mae modd ystyried afiechyd fel cyflyrau penodol o anghysur, poen ac annormaledd. Fodd bynnag, mae'r ail agwedd yn ymwneud â'r dull o ystyried y cysyniadau o iechyd a salwch eu hunain, ac mae cymdeithasegwyr yn ystyried dimensiynau diwylliannol y cysyniadau hyn.

Bydd dysgwyr hefyd yn archwilio anghydraddoldebau iechyd ymhlith gwahanol grwpiau o bobl yn y gymdeithas, a'r ystod o esboniadau a gynigiwyd gan gymdeithasegwyr ar gyfer yr anghydraddoldebau hyn.

Bydd yr uned yn annog y dysgwyr i ystyried, a bydd yn werthfawr i ddysgwyr sy'n bwriadu cael gwaith yn gofalu am bobl. Bydd hefyd yn ddefnyddiol i ddysgwyr sy'n bwriadu mynd ymlaen i astudio ar lefel uwch.

Mae'r dull cymdeithasegol yn rhan o sawl uned arall yn y rhaglen, ac mae'n cael ei estyn yn *Uned 19: Persbectifau Cymdeithasegol Cymwysedig ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol*.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Ddeall persbectifau cymdeithasegol
- 2 Deall dulliau cymdeithasol o ymdrin â iechyd a gofal cymdeithasol

Cynnwys yr uned

1 Deall persbectifau cymdeithasegol

Terminoleg: strwythurau cymdeithasol, e.e. y teulu, y system addysg, gwasanaethau gofal iechyd; amrywiaeth cymdeithasol, e.e. dosbarth cymdeithasol, rhyw, diwylliant, ethnigrwydd, oedran, ardal; cymdeithasoli, e.e. normau, gwerthoedd, credoau, rolau, statws

Prif bersbectifau cymdeithasegol: ffwythiannaeth, Marcisiaeth, ffeministiaeth, rhyngweithrediaeth, cyfunoliaeth, ôl-foderniaeth, y 'Dde Newydd'

2 Deall dulliau cymdeithasol o ymdrin â iechyd a gofal cymdeithasol

Cymhwyso persbectifau cymdeithasegol i iechyd a gofal cymdeithasol: deall gwahanol gysyniadau ynghylch iechyd a salwch; deall patrymau a thueddiadau iechyd a salwch ymhlith gwahanol grwpiau cymdeithasol

Deall gwahanol gysyniadau ynghylch iechyd a salwch: cysyniadau ynghylch iechyd (negyddol, cadarnhaol, cyfannol, diffiniad Sefydliad Iechyd y Byd (WHO)); modelau o iechyd (biofeddygol, sosio-feddygol); afiechyd (salwch, anabledd, clefyd); rôl salwch; y mynydd iâ clinigol

Deall patrymau a thueddiadau iechyd a salwch ymhlith gwahanol grwpiau cymdeithasol: mesur iechyd, e.e. cyfraddau morbidrwydd, cyfraddau marwolaethau, digwyddiadau iechyd, a chosion o afiechyd, mynychder clefydau, gwyliadwriaeth iechyd; anawsterau wrth fesur iechyd; patrymau a thueddiadau yn ôl, e.e. dosbarth cymdeithasol, rhyw, ethnigrwydd, oedran, ardal; ymddygiad risg; esboniadau cymdeithasegol (artefact, dewisiadau naturiol/cymdeithasol, diwylliannol/ymddygiadol, materol/strwythurol)

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 esbonio'r prif bersbectifau cymdeithasegol [YA3; YA4; MC2; MC4; HR3]	T1 asesu'r modelau biofeddygol a sosio-feddygol o iechyd	
LI2 esbonio gwahanol ddulliau cymdeithasol o ymdrin â iechyd ac afiechyd [MC4]		
LI3 egluro patrymau a thueddiadau iechyd a salwch ymhlith gwahanol grwpiau cymdeithasol. [YA3; YA4; MC4; HR3]	T3d efnyddio gwahanol bersbectifau cymdeithasegol i drafod patrymau a thueddiadau iechyd a salwch mewn dau grŵp cymdeithasol gwahanol.	Rh1 gwerthuso gwahanol esboniadau cymdeithasegol am batrymau a thueddiadau iechyd a salwch mewn dau grŵp cymdeithasol gwahanol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwyr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 8: Persbectifau Seicolegol ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cod yr Uned: A/601/2404

FfCCH Lefel 3: BTEC Cenedlaethol

Gwerth credydau: 5

Oriau dysgu dan arweiniad: 30

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi dysgwyr i ddod i ddeall y gwahanol ddulliau seicolegol y gellir eu defnyddio wrth astudio, ac yn arbennig sut y gellir eu defnyddio i astudio iechyd a gofal cymdeithasol.

Cyflwyniad i'r uned

Mae'r uned hon yn amlygu'r gwahanol bersbectifau seicolegol ac yn annog dysgwyr i gymhwyso'r dulliau hyn i astudiaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Edrychir hefyd ar werth astudiaethau seicolegol wrth feithrin dealltwriaeth o iechyd a gofal cymdeithasol.

Ar y cychwyn bydd dysgwyr yn ystyried ystyr y term 'theoriau' yng nghyd-destun seicoleg, a byddant yn dechrau gwerthfawrogi amrywiaeth theorïau seicolegol wrth iddynt symud ymlaen trwy'r uned. Bydd y dysgwyr yn archwilio'r prif bersbectifau seicolegol ac yna yn eu cymhwyso i'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn dod i ddeall gwerth posib seicoleg yn y sectorau hyn.

Wedi cwblhau'r uned hon bydd dysgwyr wedi ystyried y dull seicolegol o astudio iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r uned yn annog myfyrio, a bydd yn werthfawr i ddysgwyr sy'n bwriadu gweithio mewn swydd lle byddant yn gofalu am bobl.

Bydd hefyd yn ddefnyddiol i ddysgwyr sy'n bwriadu mynd ymlaen i astudio ar lefel uwch. Mae'r dull seicolegol yn rhan o sawl uned arall yn y rhaglen ac mae'n cael ei estyn ymhellach yn arbennig yn *Uned 29: Persbectifau Seicolegol Cymwysedig ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol*, ac *Uned 30: Seicoleg Iechyd*.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Ddeall persbectifau seicolegol
- 2 Deall dulliau seicolegol o ymdrin â iechyd a gofal cymdeithasol

Cynnwys yr uned

1 Deall persbectifau seicolegol

Prif bersbectifau seicolegol: ymddygiadol (rôl atgyfnerthu, cyflyru, Pavlov, Skinner); dysgu cymdeithasol (effeithiau unigolion eraill, grwpiau, diwylliant a chymdeithas ar ymddygiad unigolion, proffwydoliaeth sy'n ei chyflawni ei hun, theori rôl, Bandura); seicoddeinamig (pwysigrwydd y meddwl anymwybodol, pwysigrwydd profiadau cynnar, Freud, Erikson); dyneiddiol (hierarchaeth Maslow o anghenion, hunansylweddoli, hunan-gysyniad, hunan-barch, Rogers); gwybyddol/prosesu gwybodaeth (Piaget, Kelly); biolegol (theori aeddfedol, pwysigrwydd dylanwadau genetig ar ymddygiad, dylanwad systemau nerfol ac endocrin ar ymddygiad, Gesell)

2 Deall dulliau seicolegol o ymdrin â iechyd a gofal cymdeithasol

Cymhwyso persbectifau seicolegol i arfer ym maes iechyd a gofal cymdeithasol: ymddygiadol, e.e. deall ymddygiad heriol, newid/dylanwadu ar ymddygiad; dysgu cymdeithasol, e.e. hyrwyddo ymddygiad ac arfer gwrth-wahaniaethol, defnyddio modelau rôl cadarnhaol mewn ymgyrchoedd addysg iechyd; seicoddeinamig, e.e. deall ymddygiad heriol, deall a rheoli pryder; dyneiddiol, e.e. empathi, dealltwriaeth, parchu unigolion eraill, gwrando gweithredol, dull anfeirniadol; gwybyddol, e.e. cefnogi unigolion ag anawsterau dysgu, cefnogi unigolion â phroblemau emosiynol/iselder/anhwylder straen ôl-drawmatig; biolegol, e.e. deall normau datblygiadol, deall rhagduddiad genetig i rai anhwylderau neu ymddygiad cysylltiedig â iechyd, deall effeithiau gwaith shifftiau ar unigolion.

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 esbonio'r prif bersbectifau seicolegol [YA3; YA4; MC2; MC4; HR3]	T1 asesu gwahanol ddulliau seicolegol o ymdrin ag astudiaeth	
LI2 esbonio dulliau seicolegol gwahanol o ymdrin ag arfer iechyd [MC4]	T2 cymharu dau ddull seicolegol o ymdrin â darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.	Rh1 gwerthuso dau ddull seicolegol o ymdrin â darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
LI3 esbonio gwahanol ddulliau seicolegol o ymdrin ag arfer gofal cymdeithasol. [YA3; MC2; MC4; HR3]		

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwyr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 9: Gwerthoedd a Chynllunio ym maes Gofal Cymdeithasol

Cod yr Uned:	Y/600/8960
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi dysgwyr i gaffael gwybodaeth a dealltwriaeth o gymorth rhagweithiol a chyfannol sy'n diwallu anghenion unigolion sy'n defnyddio darpariaeth gofal cymdeithasol. Byddant yn gallu archwilio egwyddorion a phrosesau cynllunio ar gyfer unigolion a'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r arfer hwn. Bydd hefyd yn galluogi dysgwyr i ddeall materion moesegol sy'n effeithio ar gynllunio cymorth.

Cyflwyniad i'r uned

Mae'r uned hon yn edrych ar egwyddorion a phrosesau cynllunio ar gyfer unigolion o fewn fframwaith deddfwriaethol a luniwyd i gynnal cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau. Mae cynllunio effeithiol yn ganolog i ddull cyfannol o ddarparu cymorth, diwallu anghenion trwy rymuso a galluogi unigolion i wneud penderfyniadau a bod yn rhan o benderfyniadau amdanynt eu hunain.

Bydd dysgwyr yn ymchwilio'r gwerthoedd sy'n sail ar gyfer y broses gynllunio a'r cyfyng-gyngor moesegol a all godi yn achos gweithwyr y sector gofal cymdeithasol wrth iddynt geisio cyflawni eu cyfrifoldebau i unigolion, sefydliadau a gwasanaethau. Er bod yr uned yn galluogi cyflawni'r safon academiaidd sy'n ofynnol ar lefel Diploma Cenedlaethol, y dull sylfaenol o ymdrin â'r pynciau yw eu cymhwyso i fyd proffesiynol arfer gofal cymdeithasol.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Ddeall yr egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n sail ar gyfer cynllunio cymorth i unigolion
- 2 Gwybod pa brosesau sy'n gysylltiedig â chynllunio cymorth i unigolion
- 3 Deall y ddeddfwriaeth, y polisiau a'r codau ymarfer sy'n gysylltiedig â chynllunio cymorth i unigolion
- 4 Deall egwyddorion moesegol yng nghyswllt darparu cymorth i unigolion.

Cynnwys yr uned

1 Deall yr egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n sail ar gyfer cynllunio cymorth i unigolion

Egwyddorion a gwerthoedd: grymuso unigolion; hybu dewis; hyrwyddo hawliau; cydnabod dewisiadau; cynnwys unigolion wrth gynllunio eu cymorth; parch at gredoau crefyddol, credoau moesol a gwerthoedd; parch at ddiwylliant; arfer gwrth-wahaniaethol; dull cyfannol; gweithio mewn Partneriaeth, dull aml-ddisgyblaeth/rhyngasiantaeth; cyfrinachedd; cyflawni cyfrifoldebau

2 Gwybod pa brosesau sy'n gysylltiedig â chynllunio cymorth i unigolion

Prosesau: y cylch asesu a chynllunio, cyfeirio, asesu anghenion cyfannol a dewisiadau, nodi'r ddarpariaeth bresennol, rhoi ar waith, monitro ac adolygu; cyfranogiad gweithwyr proffesiynol allweddol, e.e. gweithiwr cymdeithasol, ymwelydd iechyd, gweithiwr cymorth teulu, swyddog prawf, meddyg teulu, cyfranogiad y teulu; eiriolwyr, dehonglwyr a chyfieithwyr

Asesu: offer, e.e. rhestrau gwirio, dyddiaduron gweithwyr proffesiynol, cofnod o ddigwyddiadau a damweiniau, defnydd o gwestiynau priodol, dyddiaduron unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau, arsylwadau, hanesion personol

Rhoi cynlluniau cymorth ar waith: dulliau, e.e. ymddygiadol, troi o amgylch tasg, defnydd o grwpiau therapiwtig, defnyddio a chamddefnyddio pŵer

3 Deall y ddeddfwriaeth, y polisïau a'r codau ymarfer sy'n gysylltiedig â chynllunio cymorth i unigolion

Deddfwriaeth: adrannau perthnasol o ddeddfwriaeth yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol, e.e. Deddf Safonau Gofal, Safonau Cenedlaethol Gofynnol, Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd, Deddf Diogelu Data, Deddf Rhyddid Gwybodaeth, Rheoliadau Cartrefi Gofal Nyrsio a Phreswyl, Deddf Cysylltiadau Hiliol

Polisïau: polisïau sefydliadol ar, e.e. iechyd a diogelwch, asesu risg, lleihau niwed, cyfle cyfartal

Codau ymarfer: Codau Ymarfer y Cyngor Gofal Cymdeithasol Cyffredinol; codau ymarfer sefydliadol, codau ymarfer cyrff proffesiynol penodol

4 Deall egwyddorion moesegol yng nghyswllt darparu cymorth i unigolion

Egwyddorion moesegol: dyletswydd; diogelu unigolion; haelioni; cyfiawnder cymdeithasol; grymuso; ymreolaeth yr unigolyn; hybu urddas, annibyniaeth, hawliau'r unigolyn; statws moesol yr unigolyn

Cyfyng-gyngor moesegol: gwrthdaro posib, e.e. hawliau, cyfrifoldebau a dyletswyddau, cydbwyso gwasanaethau ac adnoddau, gwrthdaro budd rhwng unigolion a sefydliadau, unigolion a pherthnasau, grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaeth, dewisiadau o ran trefniadau cymorth, lleihau niwed

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 esbonio sut bydd cymhwyso egwyddorion a gwerthoedd perthnasol yn galluogi gweithwyr proffesiynol i ddarparu cymorth cyfannol ar gyfer unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau cymdeithasol [YA1; MC1; MC2]	T1 adolygu budd agwedd gyfannol at gynllunio cymorth i unigolion a staff proffesiynol	Rh1 dadansoddi'r rhesymau dros weithio gyda gweithwyr proffesiynol o fwy nag un asiantaeth wrth gynllunio cymorth i unigolion
LI2 nodi'r prosesau a'r offer asesu a ddefnyddir wrth gynllunio cymorth i unigolion â gwahanol anghenion sy'n defnyddio gwasanaethau cymdeithasol [YA4; MC1; MC2]	T2 disgrifio sut gallai tri gweithiwr proffesiynol allweddol ymwneud â chynllunio cymorth i unigolion	Rh2 asesu materion posib a allai godi yn sgil cyfranogiad nifer o weithwyr proffesiynol yn y broses o gynllunio cymorth i unigolion.
LI3 esbonio sut gellid cymhwyso un enghraifft o ddeddfwriaeth, un polisi ac un cod ymarfer i gynllunio cymorth i unigolion [YA5; MC5]		

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd theilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI4 esbonio sut mae ymgorffori egwyddorion moesegol wrth ddarparu cymorth i unigolion [YA6; MC1; MC2]	T3 cyfiawnhau sut byddai dull moesegol o ddarparu cymorth o fudd i'r unigolion.	
LI5 esbonio pam gallai gweithwyr wynebu cyfyng-gyngor yn sgil defnyddio dull moesegol. [MC1; MC5]		

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwyr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol MC - meddylwyr creadigol	DM - dysgwyr myfyriol GT - gweithwyr tîm	HR - hunanreolwyr CE - cyfranogwyr effeithiol
----------------	--	---	--

Uned 10: Gofalu am Blant a Phobl Ifanc

Cod yr Uned:	H/600/8962
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi dysgwyr i ystyried y math o ofal a ddarperir ar gyfer plant y gall fod angen iddynt dderbyn gofal. Byddant yn gallu dod i ddeall y risgiau i blant a phobl ifanc yn sgil ymddygiad sy'n eu cam-drin neu sy'n eu hecsbloetio, a'r strategaethau a ddefnyddir i'w diogelu rhag yr ymddygiad hwnnw.

Cyflwyniad i'r uned

Yn yr uned hon bydd y dysgwyr yn ystyried y gofal sydd ar gael i blant a phobl ifanc y mae angen iddynt dderbyn gofal. Byddant yn archwilio'r gwahanol fathau o ofal sydd ar gael a rolau amrywiaeth o bobl a sefydliadau perthnasol sy'n ymwneud â diogelu plant a phobl ifanc a gofalu amdanynt. Byddant hefyd yn archwilio'r systemau a'r gweithdrefnau a ddefnyddir i ofalu am blant a phobl ifanc a'u diogelu pan na all eu rhieni wneud hynny. Bydd y dysgwyr yn dod i ddeall y risgiau i blant a phobl ifanc yn sgil ymddygiad sy'n eu cam-drin neu sy'n eu hecsbloetio, a'r strategaethau a ddefnyddir i'w diogelu rhag yr ymddygiad hwnnw.

Datblygwyd yr uned gan gyfeirio at Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ac mae'n uned bwysig i bob dysgwr sydd am weithio ym maes iechyd neu ofal cymdeithasol.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Ddeall pam y gall fod angen i blant a phobl ifanc dderbyn gofal
- 2 Deall sut darperir gofal i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal
- 3 Deall y risgiau i blant a phobl ifanc yn sgil ymddygiad sy'n eu cam-drin neu sy'n eu hecsbloetio
- 4 Deall y strategaethau a ddefnyddir i ddiogelu plant a phobl ifanc rhag ymddygiad sy'n eu cam-drin neu sy'n eu hecsbloetio.

Cynnwys yr uned

1 Deall pam y gall fod angen i blant a phobl ifanc dderbyn gofal

Plant sy'n derbyn gofal: yn dilyn pennu gorchymyn gofal gan y llys; gyda chytundeb eu rhieni

Rhesymau posib: cysylltiedig â'r teulu, e.e. yn dilyn profedigaeth/colli rhiant, salwch neu analluedd rhieni (cyfnod yn yr ysbyty, salwch meddwl, camddefnyddio sylweddau); amheuan ynghylch camdriniaeth neu brawf ohono; cysylltiedig â'r plentyn neu'r person ifanc, e.e. problemau iechyd, problemau ymddygiad, anawsterau dysgu, anabledd, o ganlyniad i gyflawni trosedd

2 Deall sut darperir gofal i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal

Deddfwriaeth/fframwaith cyfreithiol: sy'n berthnasol i'r famwlad; adrannau perthnasol o, e.e. Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) 1989, Mae Pob Plentyn yn Cyfri (ECM) 2003, Deddf Plant 1989, 2004, Deddf Hawliau Dynol 1998, Deddf Diogelu Data 1998, Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Rhieni 2000, Fframwaith Asesu Cyffredin (Lloegr); polisïau eraill lleol sy'n berthnasol

Gofal sydd ar gael: gofal maeth; gofal seibiant; gofal plant preswyl; mabwysiadu; cynllunio ar gyfer gofal mewn partneriaeth â'r plentyn neu'r person ifanc, eu rhieni, ac asiantaethau eraill, e.e. asiantaethau maethu; egwyddor prif ystyriaeth

Trefnu'r ddarpariaeth ofal: llywodraethau'r famwlad yn gyfrifol am ofal cymdeithasol, iechyd ac addysg cyffredinol plant a phobl ifanc; gwasanaethau awdurdodau lleol, e.e. Gwasanaethau Plant yr Awdurdod Lleol (Lloegr), Ymddiriedolaethau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Gogledd Iwerddon); sefydliadau trydydd sector, e.e. Barnardos, NSPCC, Cymdeithas Mabwysiadu a Maethu Prydain; darparwyr preifat, e.e. meithrinfeydd preifat

Y math o wasanaethau: cyffredinol (a ddarperir i bob plentyn a pherson ifanc); arbenigol (i ddiwallu anghenion grŵp penodol, e.e. plant sy'n derbyn gofal, plant anabl); wedi eu targedu (at grwpiau penodol o blant neu bobl ifanc i atal risg, e.e. niwed neu droseddu)

Rolau swyddi: comisiynu, cyfarwyddo a rheoli gwasanaethau, e.e. Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant; gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc, e.e. gwirfoddolwyr, gweithwyr cymdeithasol, ymwelwyr iechyd, cynorthwywyr nyrsio, gweithwyr ieuencid, tiwtoriaid, seicolegwyr addysg, gweithwyr chwarae, rhieni maeth

Rheoleiddio'r ddarpariaeth ofal: rheoleiddio'r rhai sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, e.e. gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB); rheoleiddio gwasanaethau a ddarperir ar gyfer plant a theuluoedd, e.e. Ofsted; cyrrff rheoleiddio, e.e. Cyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr, y Cyngor Gofal Cymdeithasol Cyffredinol

3 Deall y risgiau i blant a phobl ifanc yn sgil ymddygiad sy'n eu cam-drin neu yn eu hecsbloetio

Mathau o gamdriniaeth: cam-drin (corfforol, emosiynol, deallusol, rhywiol); esgeuluso; bwllo ac aflonyddu

Risg camdriniaeth: o fewn y teulu; y tu allan i'r teulu; mewn lleoliad gofal; dieithriaid

Dangosyddion camdriniaeth: corfforol, e.e. cleisio, anafiadau heb esboniad, doluriau, heintiau, bod o dan bwysau, hylendid personol gwael; ymddygiad, e.e. encilio, ymosod, trallod, siglo/bwrw pen, newyn, amharodrwydd i fynd adref, diffyg hunan-barch, oedi wrth ddatblygu

Ffactorau ehangach sy'n awgrymu risg camdriniaeth: perthnasoedd teuluol camweithredol; plentyn neu berson ifanc yn ail-greu camdriniaeth, e.e. cam-drin anifail; cysylltiad â chamdriniaeth yn hanes y teulu; sgiliau rhianta gwael neu â nam arnynt; diffyg ymlyniad; risg ecsbloetio, e.e. yn sgil dulliau gweledol, ysgrifenedig ac electronig o gyfathrebu a chyfryngau; camddefnyddio sylweddau ar yr aelwyd

Canlyniadau camdriniaeth: camweithredu emosiynol a seicolegol sy'n effeithio ar berthnasoedd, e.e. dicter wedi ei ddadleoli, hunan-niweidio, dechrau cyflawni camdriniaeth eu hunain; deallusol, e.e. nam ar y gallu i ddysgu, gellir cael effaith gynnil ar ddatblygiad yr ymennydd; annigonolrwydd cymdeithasol; salwch, e.e. salwch seicosomatig, anhwylderau awtoimiwnedd, beichiogrwydd digroeso, heintiau a drosglwyddir drwy ryw neu anabledd; salwch meddwl, ceisio cyflawni hunanladdiad, camddefnyddio sylweddau

Theoriau ynghylch camdriniaeth: meddygol, cymdeithasegol, seicolegol, ffeministaidd

Materion: diwylliannol, e.e. y newid yn ffurf y teulu, anfantais gymdeithasol, gwahanol gysyniadau ynghylch disgyblaeth, amrywiadau diwylliannol

4 Deall y strategaethau a ddefnyddir i ddiogelu plant a phobl ifanc rhag ymddygiad sy'n eu cam-drin neu sy'n eu hecsbloetio

Strategaethau gyda phlant/phobl ifanc: dull â pharch sy'n troi o amgylch y plentyn; darparu cymorth gweithredol; grymuso plant a phobl ifanc; cynnal pendantrwydd a hunanhyder, hunan-barch a gwydnwch; rhannu gwybodaeth a pheidio â chadw pethau'n gyfrinachol; rhoi gwybodaeth i blant yn ôl eu hoedran, eu hanghenion a'u galluedd, e.e. sut i barchu eu cyrff a chadw'n ddiogel; atal clefydau rhag cael eu trosglwyddo

Strategaethau ar gyfer gweithio gyda rhieni a theuluoedd: datblygu perthnasoedd partneriaeth gefnogol gyda rhieni a theuluoedd, gan gynnwys rhieni wrth asesu anghenion plant; helpu rhieni i adnabod gwerth ac arwyddocâd eu cyfraniadau, gan annog datblygiad sgiliau rhianta

Gweithdrefnau lle ceir ystyriaethau, amheuan, cadarnhad neu eithrio camdriniaeth: polisïau'r lleoliad; rhoi arferion gwaith diogel ar waith; datgelu camarfer; trefniadau adrodd; diogeled cofnodion; y gyfres o ddigwyddiadau sy'n arwain at gofrestru ar y gofrestr amddiffyn plant neu achosion gofal

Rolau a chyfrifoldebau: dilyn polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad; arsylwi; cyfrifoldeb am arsylwi plant a theuluoedd a'u gweld yn rhyngweithio; adnabod dangosyddion camdriniaeth; sut mae ymateb os bydd amheuan ynghylch camdriniaeth; pa gamau i'w cymryd yn dilyn datgelu, gan gynnal cyfrinachedd yn unol â pholisïau'r lleoliad

Ymateb i ddatgeliad uniongyrchol neu anuniongyrchol: gwrando'n ofalus ac yn fanwl; cyfathrebu ar gyflymdra'r plentyn/person ifanc, heb roi pwysau diangen arnynt; cymryd y plentyn/person ifanc o ddifri; sicrhau a chynnal y plentyn/person ifanc; eu derbyn yn ddiamod; ffiniau cyfrinachedd; dilyn gweithdrefnau cywir y lleoliad yn brydlon; sut mae delio â'ch teimladau a'ch emosiynau eich hunan

Cefnogaeth ar gyfer plant/pobl ifanc sy'n datgelu: darparu mynediad i gymorth proffesiynol; dangos eich bod yn derbyn y plentyn/person ifanc yn ddiamod; grymuso plant a phobl ifanc i reoli eu sefyllfa; ymwybyddiaeth o'r effaith bosib ar y plentyn/person ifanc ac aelodau eraill y teulu, a gwrthweithio stereoteipio posib

Lleihau effeithiau cam-drin: annog mynegi teimladau o fewn ffiniau derbyniol; gwella'r ddelwedd o'r hunan; meithrin hunan-barch a hyder, e.e. therapi chwarae, cwnsela; rôl sefydliadau gwirfoddol.

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 amlinellu pam y gall fod angen i blant a phobl ifanc dderbyn gofal rywle heblaw gyda'u teuluoedd [YA1; YA2; YA3; YA4; MC1; MC2; MC3; MC4]	T1 trafod sut mae polisïau a gweithdrefnau yn helpu plant, pobl ifanc a'u teuluoedd tra bod y plentyn yn derbyn gofal	
LI2 amlinellu'r trefniadau ar gyfer darparu gofal o ansawdd ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal [YA1; YA2; YA3; YA4; HR3; HR4]	T2 esbonio rolau a chyfrifoldebau dau aelod o'r gweithlu plant yng nghyswllt plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal	Rh1 gwerthuso rheoleiddio'r ddarpariaeth ofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal
LI3 esbonio'r ffactorau a fyddai'n arwain at amheuon ynghylch camdriniaeth plentyn neu ei gam-drin [YA1; YA2; YA3; YA4; MC1; MC2; MC3; MC4; HR3; HR4]	T3 asesu'r strategaethau a'r dulliau a ddefnyddir i leihau'r niwed i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd lle cadarnheir bod cam-drin wedi digwydd.	Rh2 cyfiawnhau ymatebion lle ceir drwgdybiaeth neu gadarnhad bod cam-drin plant neu gamdriniaeth yn digwydd, gan gyfeirio at ddeddfwriaeth a pholisïau cyfredol.
LI4 esbonio'r ymatebion priodol pan fydd amheuon ynghylch cam-drin plentyn neu gamdriniaeth [YA1; YA2; YA3; YA4; DM1; DM2; DM3; DM4]		

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI5 esbonio'r strategaethau a'r dulliau y gellir eu defnyddio i gynnal plant, pobl ifanc a'u teuluoedd lle ceir drwgdybiaeth neu gadarnhad ynghylch cam-drin. [YA1; YA2; YA3; YA4; HR3; HR4; MC1; MC2; MC3; MC4]		

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwyr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol MC - meddylwyr creadigol	DM - dysgwyr myfyriol GT - gweithwyr tîm	HR - hunanreolwyr CE - cyfranogwyr effeithiol
----------------	--	---	--

Uned 11: Diogelu Oedolion a Hybu Annibyniaeth

Cod yr Uned:	K/600/8963
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi'r dysgwyr i fod yn ymwybodol o wahanol fathau o gam-drin ac i ddeall pam y gall hyn ddigwydd. Byddant yn gallu datblygu gwybodaeth am waith i ddiogelu oedolion, a dealltwriaeth o sut mae hawliau, annibyniaeth a lles oedolion yn cael eu hybu trwy ddull amlasiantaeth sy'n troi o amgylch y person.

Cyflwyniad i'r uned

Mae llawer o swyddi mewn cymdeithas, yn enwedig ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, lle bydd ymarferwyr yn cyflawni prif swyddogaeth eu gwaith trwy weithio gydag oedolion. Mae'n bwysig felly bod dysgwyr sy'n gobeithio gweithio yn y meysydd hyn yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o waith diogelu. Mae partneriaethau amlasiantaeth yn gweithio ar lefel leol i ddatblygu polisïau a gweithdrefnau sy'n diogelu oedolion trwy hyrwyddo arfer da. Er y dylid amddiffyn hawliau pob unigolyn, mae oedolion sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ymhlith y rhai sydd yn y perygl mwyaf o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. Rhaid i ddysgwyr adnabod sefyllfaoedd a all arwain at gam-drin ac esgeuluso, a'r angen am ddull sy'n troi o amgylch y person, gan ddarparu perthnasoedd cefnogol, wedi eu seilio ar ymddiriedaeth.

Bydd dysgwyr yn ymchwilio i arwyddion a symptomau gwahanol fathau o gam-drin, gan eu galluogi i weld pryd gallai cam-drin fod yn digwydd. Ânt ymlaen i archwilio ffactorau rhagduedd a all arwain at sefyllfaoedd o gam-drin. Bydd y dysgwyr yn archwilio ystod o strategaethau a gweithdrefnau y mae sefydliadau yn eu defnyddio i leihau'r risgiau i unigolion, ac yn gwybod am y ddeddfwriaeth a'r rheoliadau allweddol sy'n llywodraethu gwaith diogelu yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol.

Gellir cyflwyno rhan olaf yr uned ochr yn ochr ag *Uned 6: Datblygiad Personol a Phroffesiynol ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol*. Bydd dysgwyr yn edrych ar arferion gwaith sy'n cyfyngu gymaint â phosib ar risg camdriniaeth. Bydd cyfle i ddysgwyr ymchwilio i sut mae perthnasoedd cynhaliol yn cael eu datblygu, mewn cyd-destun iechyd neu ofal cymdeithasol, gan fyfyrwyr ar sut gaiff hawliau unigol, annibyniaeth a lles eu cynnal a'u parchu.

Mae cysylltiadau rhwng yr uned hon ac *Uned 2: Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol*. Bydd hefyd yn darparu gwybodaeth waelodol ar gyfer dysgwyr sy'n astudio anghenion oedolion sydd yn y perygl mwyaf o golli eu hannibyniaeth yn *Uned 26: Gofalu am unigolion sydd ag Anghenion Ychwanegol* ac *Uned 28: Gofalu am Bobl Hŷn*.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Wybod am y mathau o gam-drin a'u dangosyddion
- 2 Deall y ffactorau a all arwain at sefyllfaoedd o gam-drin
- 3 Gwybod am y ddeddfwriaeth a'r rheoliadau sy'n llywodraethu diogelu oedolion
- 4 Gwybod am strategaethau gwaith a gweithdrefnau i leihau risg cam-drin oedolion
- 5 Deall rôl perthnasoedd cynhaliol i hyrwyddo hawliau, annibyniaeth a lles oedolion, gan ddefnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol

Cynnwys yr uned

1 Gwybod am y mathau o gam-drin a'u dangosyddion

Mathau o gamdriniaeth: corfforol; rhywiol; emosiynol neu seicolegol; esgeuluso neu hepgor gweithredoedd; ecsbloetio; gwahaniaethol; sefydliadol; bwllo; hunan-niweidio; cam-drin yn y cartref

Dangosyddion camdriniaeth a hunan-niweidio: datgeliad; anafiadau heb esboniad, e.e. torri esgyrn, cleisio, llosgiadau, sgaldanu, cwtiau, creithiau, diffyg maeth; hylendid gwael; newidiadau mewn ymddygiad, e.e. diffyg hunan-barch, hwyliu orio, encilio cymdeithasol, bod yn oddefol neu'n rhy barod i gydymffurfio, ofni rhai pobl, ceisio sylw, ymddygiad amhriodol, meddwl am hunan-laddiad; anawsterau ariannol, e.e. methu talu biliau, diffyg bwyd, angenrheidiau; straen sy'n achosi problemau iechyd, e.e. cyflwr ar y galon, problemau anadlu, briwiau, anhawster cysgu

2 Deall y ffactorau a all arwain at sefyllfaoedd o gam-drin

Yr oedolion sy'n wynebu'r risg mwyaf: pobl ag anableddau dysgu, anableddau corfforol; afiechyd; dementia; pobl ag anghenion iechyd meddwl; pobl affasig; namau synhwyraidd; swrth-gysglyd neu led swrth-gysglyd; pobl hŷn

Amgylcheddau: eu cartref eu hun; gofal cymunedol; gofal dydd; ysbytai; gofal preswyl, byw'n annibynnol; canolfannau gofal dydd; gwasanaethau iechyd, e.e. meddygfeydd teulu, meddygfeydd deintyddol, ffisiotherapi

Cyd-destunau: pobl sy'n ddibynnol ar eraill am ofal personol; diffyg gallu meddyliol i gydsynio i berthnasoedd rhywiol; oedolion sydd heb ymwybyddiaeth gymdeithasol bod cam-drin wedi digwydd; oedolion sy'n teimlo cywilydd neu ofn rhoi gwybod; anawsterau cyfathrebu; arfer gwahaniaethol; bwllo o fewn y gwasanaethau gofal; amharu ar breifatrwydd; perthnasoedd sy'n ymwneud â phŵer; ynysu cymdeithasol;

Pobl a all gam-drin: gweithwyr iechyd neu ofal proffesiynol, rhai sy'n gweithio mewn amgylcheddau iechyd neu ofal; pobl eraill sy'n defnyddio gwasanaethau, partneriaid, gofalwyr, perthnasau, ffrindiau, dieithriaid, gwirfoddolwyr

3 Gwybod am y ddeddfwriaeth a'r rheoliadau sy'n llywodraethu diogelu oedolion

Deddfwriaeth a rheoliadau perthnasol: Deddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed; Deddf Ailsefydlu Troseddwyr; Deddf yr Heddlu; Deddf Troseddau Rhywiol; Deddf Safonau Gofal; Rheoliadau Cartrefi Gofal (Lleoliadau Oedolion) (Newid); Deddf Iechyd Meddwl; Deddf Gallu Meddyliol; Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd; Deddf Cysylltiadau Hil; Deddf Hawliau Dynol; Deddf Diogelu Data

4 **Gwybod am strategaethau gwaith a gweithdrefnau i leihau risg cam-drin oedolion**

Recrwtio staff: rhestr oedolion a waharddwyd; Cynllun Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA); rôl yr Awdurdod Diogelu Annibynnol (ISA); rôl y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB)

Arweiniad i'r sector: Cynllun Amddiffyn Oedolion hawdd eu niweidio yng Nghymru a Lloegr ar gyfer cynlluniau lleoliadau oedolion, Asiantaethau Gofal Cartref a Chartrefi Gofal 2006 (cyhoeddiad wedi ei ddiweddarau yn 2009), Dim Cyfrinachau, Canllawiau'r Adran Iechyd; Diogelu Oedolion, Fframwaith Cenedlaethol o Safonau ar gyfer arfer a chanlyniadau da ym maes gwaith amddiffyn oedolion 2005; Menter Urddas mewn Gofal; Hawliau Dynol mewn Gofal Iechyd - Fframwaith ar gyfer Gweithredu Lleol 2007; polisiau sefydliadol, canllawiau lleol a rhanbarthol ar gyfer staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio gydag oedolion agored i niwed; Codau Ymarfer ar gyfer Nyrsio a Gwaith Cymdeithasol

Strategaethau: gwaith amlasiantaeth; gwaith partneriaeth; gweithio mewn partneriaeth ag oedolion sy'n defnyddio gwasanaethau, teuluoedd a gofalywyr anffurfiol; prosesau a fforymau gwneud penderfyniadau, polisiau; hyfforddiant staff; sefydlu; rôl y Comisiwn Ansawdd Gofal

Gweithdrefnau ar gyfer Amddiffyn: rhybuddio; cyfeirio; gwneud penderfyniadau; asesu; adolygu; cofnodi; monitro; 'datgelu camarfer'; gweithdrefnau cwyno;

5 **Deall rôl perthnasoedd cynhaliol i hyrwyddo hawliau, annibyniaeth a lles oedolion, gan ddefnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol**

Egwyddorion craidd gofal: urddas; cydraddoldeb; parch; tegwch; preifatrwydd

Meithrin perthnasoedd effeithiol: yr oedolyn yn ganolog i'r cynllunio; gwrando; dulliau cyfathrebu, e.e. geiriol a di-eiriau; parch at ddiwylliant; credoau, parch at ffordd o fyw a dewisiadau, cydnabod anghenion; dewisiadau; cyfrinachedd

Arferion gwaith: asesu anghenion; cylch cynllunio gofal; arferion sy'n canolbwyntio ar y person; dulliau cyfathrebu; arfer gwrth-ormesol; arfer gwrth-wahaniaethol; arfer cynhwysol; protocolau ar gyfer rhannu gwybodaeth, gan ddarparu amgylchedd diogel a sicr; dyletswydd gofal; eiriolaeth; cynnal cyfrinachedd; mynediad at wybodaeth

Arfer cynhaliol: dull dyneiddiol; grymuso, hybu hawliau; rhoi dewis; defnyddio'r dull a ffafrir o gyfathrebu; diwallu anghenion, e.e. iechyd, gofal cymdeithasol, iechyd meddwl, anghenion arbennig; ymatebol, e.e. anghenion, pryderon, cwynion, hyblyg; gweithio gyda'r unigolyn, y teulu a'r gofalywyr

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio mathau o gamdriniaeth y gallai oedolion eu profi [YA3]	T1 asesu effeithiau uniongyrchol tebygol dau fath gwahanol o gam-drin ar iechyd a lles oedolion	Rh1 gwerthuso effeithiau tymor hir posib y ddau fath yma o gamdriniaeth ar iechyd a lles oedolion
LI2 disgrifio'r dangosyddion y gall oedolion fod yn cael eu cam-drin [YA3]		
LI3 esbonio ffactorau a all arwain at sefyllfaoedd o gam-drin [YA6; MC1]		
LI4 amlinellu'r ddeddfwriaeth allweddol a'r rheoliadau sy'n llywodraethu gwaith i ddiogelu oedolion [YA4; MC2]	T2 disgrifio'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau, y strategaethau gwaith a'r gweithdrefnau a ddefnyddir ym maes iechyd a gofal cymdeithasol i leihau risg dau fath o gamdriniaeth	
LI5 amlinellu'r strategaethau gwaith a'r gweithdrefnau a ddefnyddir ym maes iechyd a gofal cymdeithasol i leihau risg camdriniaeth [MC1; HR2]		

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI6 esbonio rôl perthnasoedd cynhaliol o ran lleihau risg camdriniaeth ac esgeulustod. [YA5; HR2]	LI3 esbonio rôl perthnasoedd cynhaliol o ran lleihau risg camdriniaeth ac esgeulustod, gan ddefnyddio enghreifftiau.	Rh2 gwerthuso rôl gwaith amlasiantaeth i leihau risg cam-drin oedolion, gan gyfeirio at fframweithiau cyfreithiol, rheoliadau, strategaethau gwaith a gweithdrefnau.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnodu, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwyr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol MC - meddylwyr creadigol	DM - dysgwyr myfyriol GT - gweithwyr tîm	HR - hunanreolwyr CE - cyfranogwyr effeithiol
----------------	--	---	--

Uned 12: Iechyd Cyhoeddus

Cod yr Uned:	M/600/8964
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi dysgwyr i gasglu gwybodaeth am darddiadau polisi iechyd cyhoeddus a'r strategaethau cyfredol sy dd ar waith. Byddant hefyd yn datblygu dealltwriaeth o sut caiff iechyd cyhoeddus ei fonitro, tarddiad a datblygiad systemau ar gyfer hybu a diogelu iechyd cyhoeddus, a'r ystod o grwpiau allweddol wrth ddylanwadu ar bolisi cysylltiedig.

Cyflwyniad i'r uned

Mae iechyd cyhoeddus yn ymwneud â diogelu a gwella iechyd y boblogaeth, yn hytrach na iechyd unigolion. Mae angen i ymarferwyr sy'n gweithio yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol fod yn ymwybodol o oblygiadau polisi iechyd cyhoeddus ar wasanaethau a'r rhai sy'n eu defnyddio. Mae angen iddynt fedru ystyried y rhesymau dros wella iechyd cyhoeddus er lles unigolion a'r gymuned ehangach.

Bydd dysgwyr yn dod i ddeall patrymau cyfredol o afiechyd ac yn ystyried ffactorau sy'n effeithio ar iechyd yn y DU. Bydd dysgwyr hefyd yn cael cyfle i ystyried gwahanol ddulliau o hybu a diogelu iechyd cyhoeddus.

Canlyniadau dysgu

Wedi cwblhau'r uned hon dylai dysgwyr:

- 1 Wybod am darddiadau polisi iechyd cyhoeddus a strategaethau iechyd cyhoeddus cyfredol
- 2 Deall y ffactorau sy'n effeithio ar statws iechyd a phatrymau afiechyd
- 3 Deall sut caiff iechyd cyhoeddus ei hybu a'i ddiogelu.

Cynnwys yr uned

1 Gwybod am darddiadau polisi iechyd cyhoeddus a strategaethau iechyd cyhoeddus cyfredol

Persbectifau hanesyddol ar systemau iechyd cyhoeddus: y 19eg ganrif, e.e. gwaith John Snow, Edwin Chadwick, y mudiad iechydaeth, Deddf Cyfraith y Tlodion (1834), y Ddeddf Iechyd Gyhoeddus Gyntaf (1848); yr 20fed ganrif, e.e. adroddiad Beveridge (1942), sefydlu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (1948), Adroddiad Acheson (1998), 'Our Healthier Nation' (1999); yr 21ain ganrif, e.e. Papur Gwyn (Choosing Health: making healthy choices easier (2004), asiantaethau iechyd cyhoeddus, Asiantaeth Diogelu Iechyd (HPA), y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE)

Strategaethau Iechyd Cyhoeddus: agweddau allweddol ar, e.e. nodi anghenion iechyd y boblogaeth, monitro statws iechyd y gymuned, datblygu rhaglenni i leihau risg a sgrinio am afiechydon yn gynnar, hybu iechyd y boblogaeth, cynllunio a gwerthuso'r ddarpariaeth genedlaethol o dargedau iechyd a gofal cymdeithasol a osodir, e.e. lleol, cenedlaethol, rhyngwladol

Grwpiau allweddol wrth bennu a dylanwadu ar bolisi iechyd cyhoeddus: y llywodraeth ac asiantaethau'r llywodraeth, e.e. yr Adran Iechyd; carfannau pwysu, e.e. Greenpeace, Cyfeillion y Ddaear; grwpiau rhyngwladol, e.e. WHO, y Cenhedloedd Unedig; grwpiau cenedlaethol, e.e. HPA, NICE, Cancer Research UK

2 Deall y ffactorau sy'n effeithio ar statws iechyd a phatrymau afiechyd

Patrymau afiechyd: dyfalbarhad patrymau ac anghydraddoldebau ym maes iechyd; Adroddiad Black (1980), Adroddiad Acheson (1998), Our Healthier Nation (1999), Tackling Health Inequalities: a Programme for Action (2003), Choosing Health: Making healthy choices easier (2004)

Ffactorau sy'n effeithio ar iechyd: sosio-economaidd, e.e. dosbarth cymdeithasol, oedran, rhyw, incwm, gwariant, statws cyflogaeth, tai, gwahaniaethu, addysg; amgylcheddol, e.e. trefol, gwledig, cyflenwad dwr, rheoli gwastraff, tai, llygredd, mynediad i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol; genetig, e.e. anaemia cryman-gell, thalassaemia, ffibrosis cystig, tueddiad i ddal rhai clefydau penodol, rhywioldeb; ffordd o fyw, e.e. diwylliant, deiet, pwysau cyfoedion, cyfryngau, mynediad i gyfleusterau hamdden/adloniant, defnyddio cyffuriau adloniadol, alcohol a smygu

3 Deall sut caiff iechyd cyhoeddus ei hybu a'i ddiogelu

Nodau: gwella iechyd y genedl a lleihau anghydraddoldebau iechyd

Addysg Iechyd: gweithgareddau, e.e. ymgyrchoedd bwyta'n iach, safonau'r llywodraeth ar gyfer cinio ysgol, diwrnod cenedlaethol dim smygu, hyfforddwyr iechyd

Amddiffyniad: rhaglenni penodol, e.e. imiwneiddio, gwyliadwriaeth afiechydon, rhaglenni sgrinio genetig a iechyd

Amddiffyn yr amgylchedd: rhag peryglon, e.e. gwaredu/trin gwastraff, cyflenwad o ddŵr diogel, rheoli llygredd, rheoli paratoi bwyd, storio a gwerthu, newid yn yr hinsawdd

Atal clefydau: clefydau trosglwyddadwy, e.e. twbercwlosis, clefydau a drosglwyddir drwy ryw, llid yr ymennydd, gwenwyn bwyd salmonela, MRSA, poliomyelitis, y frech goch; clefydau na ellir eu trosglwyddo, e.e. canser y croen, canser yr ysgyfaint, canser y coluddyn; clefyd coronaidd y galon, strôc, diabetes

Cynhالياeth ac amddiffyniad sosio-economaidd: budd-daliadau lles, e.e. credyd treth plant, pensiynau, budd-dal plant, prydau ysgol am ddim, cymorth gyda thai, tocynnau teithio rhad

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio agweddau allweddol ar strategaethau iechyd cyhoeddus [YA1; YA3; CT1]	T1 cymharu nodweddion hanesyddol a chyfoes iechyd cyhoeddus	
LI2 disgrifio tarddiadau polisi iechyd cyhoeddus yn y DU o'r 19eg ganrif hyd heddiw [YA1; YA3; YA5; MC1; HR2]		
LI3 disgrifio patrymau cyfredol o afiechyd a sut cânt eu monitro [YA1; YA5; MC1]		
LI4 esbonio'r prif ffactorau sy'n effeithio ar batrymau iechyd cyfredol yn y DU [YA1; YA3; YA5; MC1; MC4; HR2]	T2 trafod y ffactorau sy'n debygol o ddylanwadu ar batrymau iechyd yn y DU yn awr ac yn y dyfodol	Rh1 gwerthuso dylanwad y llywodraeth ar ffactorau sy'n cyfrannu at y patrymau cyfredol o iechyd a salwch yn y DU
LI5 esbonio hybu a diogelu iechyd [YA1; MC1]	T3 asesu'r gwahanol ddulliau y gellir eu defnyddio ar gyfer hybu a diogelu iechyd cyhoeddus.	

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI6 egluro dulliau priodol o atal/rheoli clefyd trosglwyddadwy penodol a chlefyd penodol na ellir ei drosglwyddo. [YA1; YA3; YA5; MC1; HR2]		Rh2 gwerthuso effeithiolrwydd dulliau a ddefnyddir i hyrwyddo a diogelu iechyd cyhoeddus yn achos y ddau glefyd penodol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwyr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 13: Ffisioleg Cydbwysedd Hylifau

Cod yr Uned:	F/600/8967
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu gwybodaeth dysgwyr am ficrostrwythur celloedd anifeiliaid, a'u dealltwriaeth o bwysigrwydd cynnal cydbwysedd hylifau yn y corff dynol, y mecanweithiau ar gyfer rheoleiddio hynny, a rhai o'r goblygiadau pan fydd y systemau hynny'n methu.

Cyflwyniad i'r uned

Mae dŵr yn hanfodol i gynnal bywyd, ac mae cynnal cydbwysedd hylifau yn y corff dynol felly yn hollbwysig wrth ofalu am unigolion. Bydd yr uned hon yn sicrhau bod dysgwyr yn deall nifer o egwyddorion gwyddonol gwaelodol a fydd yn sylfaen ar gyfer astudiaethau pellach mewn gwyddoniaeth gysylltiedig â iechyd, yn ogystal â throsolwg ffisiolegol yng nghyswllt rheolaeth homeostatig ar ddŵr.

Mae'r uned yn estyn yr wybodaeth sylfaenol am gelloedd, gan ymchwilio i ficrostrwythur celloedd a'r cyfraniad a wneir gan organynnau celloedd i weithrediad cyffredinol y celloedd. Y cam nesaf yw ystyried symudiad deunyddiau i mewn ac allan o gelloedd, a dilynir hynny gan ddosbarthiad hylifau a rôl dŵr a sylweddau hydawdd yn y corff.

Âr dysgwyr ymlaen wedyn i edrych ar system yr arennau a'i swyddogaeth homeostatig, yn enwedig o ran cydbwysedd dŵr. Yn olaf byddant yn medru cymhwyso'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gafwyd i gamweithredu o ran cydbwysedd dŵr. Bydd yr uned yn ddefnyddiol ddysgwyr sy'n bwriadu gweithio yn y sectorau iechyd neu ofal cymdeithasol, neu symud ymlaen i astudiaethau pellach neu uwch. Bydd yr egwyddorion gwyddonol a geir trwy astudio'r uned hon yn cynnal dysgwyr ac yn cysylltu â sawl uned wyddonol arall yn ystod y rhaglen.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Wybod am ficrostrwythur a swyddogaethau cell anifail nodweddiadol
- 2 Deall symudiad deunyddiau i mewn ac allan o gelloedd
- 3 Deall dosbarthiad a chyfansoddion hylifau yn y corff dynol
- 4 Deall prosesau homeostatig yng nghyswllt cydbwysedd dŵr.

Cynnwys yr uned

1 Gwybod am ficrostrwythur a swyddogaethau cell anifail nodweddiadol

Strwythur celloedd: fel y'u gwelir o dan olau a microsgop electronau; pilenni celloedd a chnewyllol (ar ffurf haen ddwbl ffosffolipid), y cnewyllyn, y cnewyllan, cromosomau, DNA; m-RNA, t-RNA, reticwlwm endoplasmig (garw, llyfn), ribosomau, corff Golgi, mitochondria, microstrwythurau eraill, e.e. lysosomau, centriolau, cilia

Swyddogaethau: pilenni celloedd a chnewyllol, cnewyllyn, cromosomau, reticwlwm endoplasmig (garw, llyfn), ribosomau, corff Golgi, mitochondria, eraill, e.e. cilia

2 Deall symudiad deunyddiau i mewn ac allan o gelloedd

Cyflyrau mater: solid, hylif, nwy

Deunyddiau: gronynnol, ionig, mewn hydoddiant, ffurfiau coloidaidd perthnasol, e.e. hydoddiant protein, emylsiwn

Symudiad deunyddiau: trylediad, trylediad wedi'i hwyluso, osmosis, cludo gweithredol, endocytosis, ecsocytosis; ffactorau sy'n effeithio ar symudiad

Dylanwadau ar symudiad deunyddiau: maint, pellter, tymheredd, graddiant crynodiad, potensial osmotig, graddiant electrogemegol, athreiddedd pilen y gell, proteinau sianelu, moleculau cludo

3 Deall dosbarthiad a chyfansoddion hylifau yn y corff dynol

Cyfansoddion hylifau'r corff: dŵr; hydoddion, e.e. glwcos, wrea; electrolytau — asidau, basau, halwynau

Rôl electrolytau: mwynau hanfodol, sy'n rheoli osmosis/pwysedd osmotig, cynnal y cydbwysedd asidau/basau

Y cydbwysedd asidau/basau: pH; pwysigrwydd cynnal crynodiad hydrogen ion yn hylifau'r corff; systemau byffro, e.e. asid carbonig, ffosffad, protein

Rôl dŵr: un o gyfansoddion hylifau'r corff; o ran nodweddion, e.e. gallu penodol o ran gwres, fel toddydd

Dosbarthiad dŵr: mewngellol, allgellol, e.e. plasma, lymff, rhyng-gellol; rôl homeostatig hylif rhyng-gellol

4 Deall prosesau homeostatig yng nghyswllt cydbwysedd dŵr

Cymeriant dŵr: hylifau a bwydydd a amlyncir; o brosesau metabolaidd, e.e. resbiradu; effaith ennill dŵr ar gelloedd

Cynhyrchu/colli dŵr: trwy'r croen, yr ysgyfaint, y bibell gastroberfeddol, yr arennau; effaith colli dŵr ar gelloedd

System yr arennau: anatomeg gyffredinol; cyflenwad gwaed cysylltiedig; trosolwg ffisiolegol: cynhyrchu wrin, ei gyfansoddiad a'i storio, troethiad

Arennau: anatomeg gyffredinol; strwythur a swyddogaeth neffronau/tiwbylau'r arennau; uwch-hidlo, adamsugno dethol, mecanwaith yn erbyn y llif, egwyddorion osmoreoleiddio a rôl hypothalamws/hormonau perthnasol, e.e. hormon gwrth-ddiwretig

Camweithrediad o ran cydbwysedd dŵr: edema, diffyg ar yr arennau; dialysis yr arennau, trawsblaniad

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio microstrwythur cell nodweddiadol anifail a swyddogaethau prif gyfansoddion y gell [HR2; HR3; HR5]		
LI2 egluro sut mae deunyddiau'n symud i mewn ac allan o gelloedd [HR2; HR3; HR5]	T1 egluro'r ffactorau sy'n dylanwadu ar symudiad deunyddiau i mewn ac allan o gelloedd	Rh1 dadansoddi rôl yr haen ddwbl ffosfolipid o ran symudiad deunyddiau i mewn ac allan o gelloedd
LI3 disgrifio dosbarthiad a chyfansoddion hylifau'r corff [YA4; YA6; HR2; HR3; HR5]	T2 esbonio swyddogaethau cyfansoddion hylifau'r corff	
LI4 egluro rôl yr arennau o ran rheolaeth homeostatig ar gydbwysedd dŵr [HR2; HR3; HR5]		
LI5 esbonio camweithrediad yng nghyswllt cydbwysedd dŵr a thriniaethau posib. [YA4; HR2; HR3; HR5]	T3 trafod camweithrediad yng nghyswllt cydbwysedd dŵr a thriniaethau posib.	Rh2 dadansoddi effaith camweithrediad o ran cydbwysedd dŵr ar y corff dynol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwyr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 14: Anhwylderau Ffisiolegol

Cod yr Uned:	J/600/8968
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth dysgwyr o natur anhwylderau ffisegol. Byddant hefyd yn gallu casglu gwybodaeth am ddiagnosis a thriniaeth yr anhwylderau hynny. Ar ben hynny, bydd y dysgwyr yn dysgu sut mae cynhyrchu llwybrau gofal sy'n cynnwys dealltwriaeth o strategaethau i gynnal unigolion sydd ag anhwylderau penodol.

Cyflwyniad i'r uned

Mae gwybod a deall datblygiad, achosion, diagnosis a thriniaeth anhwylderau ffisiolegol cyffredin yn hanfodol i weithwyr yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd yr uned hon yn cefnogi dysgwyr i ddod i ddeall achosion anhwylderau a sut ceir diagnosis ohonynt. Mae'r uned yn hwyluso dealltwriaeth o'r llwybrau gofal sy'n berthnasol i'r anhwylderau a rolau'r ymarferwyr sy'n ymwneud â'r llwybrau gofal hyn. Bydd y dysgwyr yn cael cipolwg ar y strategaethau ymdopi y gellir eu defnyddio i gynnal unigolion sy'n dioddef o anhwylderau ffisiolegol penodol, fel eu bod yn gallu cynnal eu hannibyniaeth. Bydd y dysgwyr yn mynd ymlaen i werthuso effeithiolrwydd y strategaethau hyn.

Bydd y dysgwyr yn dewis dau anhwylder ffisiolegol ac yn ymchwilio i'r rhain ar hyd yr uned. Bydd yr uned yn rhoi cyfle i ddysgwyr gael cipolwg ar sut gall gwahanol anhwylderau ffisiolegol ymddangos mewn unigolion a sut mae'r gwasanaethau iechyd yn darparu diagnosis, triniaeth a gofal ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth sy'n dioddef o'r anhwylderau hyn. Ymchwilir i anawsterau a all godi wrth roi diagnosis o glefydau, a bydd dysgwyr yn gallu gwerthuso cyfraniadau amrywiaeth o ymarferwyr gofal i'r llwybrau gofal ar gyfer y clefydau.

Bydd yr uned yn ddefnyddiol ar gyfer dysgwyr sy'n paratoi ar gyfer amrywiaeth o yrfaoedd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a'r galwedigaethau iechyd cysylltiedig, gan y byddant yn datblygu dealltwriaeth o gynllunio gofal perthnasol ar sail anghenion, a chymorth wrth drin yr anhwylderau a chyfraniad gofalwyr ffurfiol ac anffurfiol.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall natur anhwylderau ffisiolegol
- 2 Gwybod pa brosesau sy'n ymwneud â diagnosis o anhwylderau ffisiolegol
- 3 Gallu cynhyrchu llwybr gofal ar gyfer anhwylderau ffisiolegol
- 4 Deall y strategaethau a ddefnyddir i gynnal unigolion sy'n dioddef o anhwylderau ffisiolegol.

Cynnwys yr uned

1 Deall natur anhwylderau ffisiolegol

Anhwylderau Ffisiolegol: fel sy'n briodol, e.e. diabetes (naill ai math 1 neu fath 2), clefyd coronaidd y galon, strôc, gordensiwn, clefyd Parkinson, clefyd Alzheimer neu fathau eraill addas o dementia, clefyd motor niwron, sglerosis ymledol, arthritis rhiwmatoid, osteoporosis, clefyd Crohn, Clefyd coluddyn ymfflamychol, cancr (y fron, yr afu, yr ysgyfaint, y coluddyn, y prostad, melanoma), lewcemia, clefydau diffygion

Natur yr anhwylder: achosion, newidiadau i ffisioleg perthnasol systemau'r corff o ganlyniad i'r anhwylder, newidiadau i swyddogaethau cyffredinol y corff, newidiadau ffisiolegol yn sgil trin yr anhwylder; dylanwadau ar ddatblygiad yr anhwylder, e.e. tueddiadau a etifeddwyd, dewisiadau ffordd o fyw, cyflogaeth, deiet, amgylcheddol

Arwyddion a symptomau: arwyddion gweladwy yr anhwylderau, symptomau a deimlir ac a brofir gan ddefnyddiwr gwasanaeth sy'n dioddef o'r anhwylder, y cysylltiad rhwng y rhain a ffisioleg yr anhwylderau

2 Gwybod pa brosesau sy'n ymwneud â diagnosis o anhwylderau ffisiolegol

Cyfeirio: dulliau, e.e. hunan-gyfeirio, cyfeirio proffesiynol, cyfeirio gan drydydd parti

Ymchwiliadau: y gellir eu cynnal, e.e. ymchwiliadau ar sail yr arwyddion a'r symptomau, ymchwiliadau a gynhaliwyd gan yr unigol, mewn practis iechyd lleol neu feddygfa Meddyg Teulu, a gyflawnir gan ysbyty leol neu mewn canolfan arbenigol

Ymchwiliadau ar gyfer pob unigolyn: fel sy'n briodol, e.e. hanes meddygol, gan gynnwys tueddiadau yn y teulu, profion gwaed, profion wrin, ymchwiliadau radiolegol, sganiau, profion gweithrediad yr organau

Mesuriadau: y gellir eu cymryd, e.e. taldra, pwysau, Mynegai Mas y Corff (BMI), briglif, pwysedd gwaed

3 Gallu cynhyrchu llwybr gofal ar gyfer anhwylderau ffisiolegol

Llwybr gofal: ei ddiben, e.e. asesu anghenion gofal, cynradd, eilaidd, gofal trydyddol

Ymarferwyr: y rhai sy'n ymwneud â chyflenwi'r llwybr gofal, e.e. gofalmwr ffurfiol ac anffurfiol, ymwneud asiantaethau eraill megis pryd ar glud, asiantaethau gofal preifat ac elusennau, e.e. Diabetes UK, Age Concern

Strategaethau gofal: monitro'r canlynol, e.e. adolygu gofal, newidiadau posib y gallai fod eu hangen i'r strategaeth ofal

4 **Deall y strategaethau a ddefnyddir i gynnal unigolion sy'n dioddef o anhwylderau ffisiolegol**

Darpariaeth gofal: mathau, e.e. statudol, anstatudol (preifat neu wirfoddol)

Lleoliadau gofal: lle gall cynhaliaeth ddigwydd, e.e. gartref, meddygfa Meddyg Teulu, canolfan iechyd, gofal ysbyty, gofal seibiant, lleoliad gofal cymdeithasol megis preswyl, gofal meithrinfa neu dai lloches, lleoliadau addysgol

Gofalwyr: ffurfiol, e.e. Meddygon Teulu, nyrsys, therapyddion galwedigaethol, ffisiotherapyddion, rheolwyr gofal, gweithwyr cymdeithasol, fferyllwyr, fflebotomyddion, gweithwyr labordy, chiropodyddion, cynorthwywyr gofal, cwnselwyr; anffurfiol, e.e. ffrindiau, teulu, cymdogion

Gofal: mathau, e.e. meddyginiaeth, llawdriniaeth, trallwysiad gwaed, trawsblaniad, rhaglenni ailsefydlu, cymhorthion byw, therapïau ategol, cyngor ar newid ffordd o fyw

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 esbonio natur dau anhwylder ffisiolegol a enwyd [YA1; YA2; MC2]	T1 asesu'r anawsterau posib sydd ynghlwm wrth ddiagnosis o'r anhwylderau ar sail yr arwyddion a'r symptomau	
LI2 esbonio arwyddion a symptomau sy'n gysylltiedig â dau anhwylder ffisiolegol a enwyd [YA1; YA2; MC2]		
LI3 disgrifio'r ymchwiliadau a gynhelir i ganiatáu diagnosis o'r anhwylderau ffisiolegol hyn [YA1; YA2; MC2]		
LI4 cynllunio llwybr gofal ar gyfer pob anhwylder ffisiolegol, gan gynnwys rolau ymarferwyr perthnasol [DM2; CE3; CE4]	T2 trafod sut mae'r ymarferwyr a'r asiantaethau sy'n ymwneud â'r llwybrau gofal yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu'r gofal y mae ei angen ar gyfer y ddau anhwylder ffisiolegol	Rh1 gwerthuso effeithiolrwydd ymarferwyr ac asiantaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cydweithio i gyflenwi'r llwybr gofal ar gyfer un o'r anhwylderau ffisiolegol a ddewiswyd

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI5 esbonio'r strategaethau gofal y gellir eu defnyddio i gynnal unigolion sy'n dioddef o bob un o'r anhwylderau ffisiolegol. [GT4]	T3 trafod y strategaethau gofal y gellir eu defnyddio i gynnal unigolion sy'n dioddef o bob un o'r anhwylderau ffisiolegol.	Rh2 gwerthuso'r strategaethau gofal y gellir eu defnyddio i gynnal unigolyn sy'n dioddef o un o'r anhwylderau ffisiolegol a ddewiswyd.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwyr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 15: Biocemeg ar gyfer Iechyd

Cod yr Uned:	F/600/8970
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi dysgwyr i gaffael gwybodaeth am egwyddorion biocemeg megis strwythur moleciwlau bywyd, a strwythur a swyddogaeth ensymau, ac i ddeall anhwylderau sy'n gysylltiedig â metaboledd.

Cyflwyniad i'r uned

Mae astudio biocemeg wedi cael ei gysylltu â'r ehangu mawr ar wybodaeth a ddigwyddodd yn y gorffennol diweddar. Ei bwysigrwydd yw ei fod yn cwmpasu'r wybodaeth sylfaenol sy'n ymwneud â ffisioleg - sut mae systemau'r corff yn gweithio. Mae hynny'n uniongyrchol berthnasol, e.e. i'r diwydiannau gofal iechyd, maeth a fferyllol. Bydd astudio'r uned hon yn cynnal dysgwyr sydd yn bwriadu symud ymlaen i astudiaethau pellach neu uwch yn y sector iechyd.

I gychwyn, mae'r uned yn edrych ar strwythur atomaidd a moleciwlaidd, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y berthynas rhwng strwythur a phiodweddu, gan gyfeirio at y moleciwlau biolegol a chefnogi a chynnal bywyd. Bydd y dysgwyr yn dod i ddeall ystod o foleciwlau anorganaidd ac organaidd.

Mae'r uned yn archwilio egwyddorion metaboledd, gan ystyried llwybrau metabolaidd penodol a rôl ensymau mewn metaboledd. Bydd dysgwyr yn defnyddio egwyddorion y dull gwyddonol i gynnal ymchwiliadau ymarferol sy'n ymwneud ag ensymau. Wedyn byddant yn ystyried anhwylderau metaboledd, eu natur, a'u hachosion a'u heffeithiau.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Wybod strwythur moleciwlau bywyd
- 2 Deall egwyddorion metaboledd
- 3 Gallu dangos pa ffactorau sy'n effeithio ar weithgaredd ensymau
- 4 Deall anhwylderau metaboledd

Cynnwys yr uned

1 Gwybod strwythur moleciwlau bywyd

Atomau: niwclews (niwtronau, protonau); electronau; cyfluniad electronig atomau hydrogen, carbon, ocsigen, nitrogen a'u perthnasedd i foleciwlau biolegol

Moleciwlau anorganaidd: dŵr - cyfluniad, priodweddau - e.e. hydoddydd, tyndra arwyneb, pwysigrwydd bondiau hydrogen; carbon deuocsid - cyfluniad, bondiau cofalent; sodiwm clorid, bondiau ionig; ionau, e.e. hydrogen carbonad, ffosffad

Moleciwlau organig: cyddwysiad mewn polymerau adeiladu a hydrolysis strwythur cyflunio wrth eu torri i lawr; proteinau (strwythur cynradd, eilaidd, trydyddol a cwarternaidd, peptidau, asidau amino); carbohydradau (polysacaridau - starts, glycogen, selwlos); deusacaridau (swcos, maltos, lactos); monosacaridau (glwcos, ffrwctos, galactos); lipidau (asidau brasterog - dirlawn, monoannirlawn, amlannirlawn; glyserol, triglyseridau, ffosfolipidau a'u rôl ym mhilenni celloedd ac fel arwynebyddion yn yr ysgyfaint, colesterol); asidau niwcleig (niwcleotidau - sylfaen, siwgr pentos, grŵp ffosffadau; DNA, helics dwbl, paru sylfaen cydweddus, RNA, mRNA, tRNA, rôl mewn protein); synthesis; mitosis — dyblygiad celloedd wrth dyfu ac atgyweirio, proffas, anaffas, teloffas

Dadansoddiad bwyd: elfennau ymarferol, e.e. ar gyfer starts, siwgr rhydwythol, siwgr anrhydwythol, protein; iechyd a diogelwch; adroddiad gwyddonol strwythuredig

2 Deall egwyddorion metaboledd

Metaboledd: anaboledd, e.e. synthesis proteinau; cataboledd, e.e. resbiradu; rôl glwcos ac ATP

Llwybrau metabolaidd: resbiradu cellol - glycolysis, cylch Krebs, ffosfforyleiddiad ocsidiol, cynhyrchu ATP, resbiradu anaerobig, asid lactig, dyled ocsigen ac adferiad

3 Gallu dangos pa ffactorau sy'n effeithio ar weithgaredd ensymau

Ensymau: eu rôl o ran metaboledd; strwythur; priodweddau, dadnatureiddiad, safle gweithredol, penodolrwydd, theorïau ynghylch gweithrediad ensymau; cyd-ensymau, cyd-ffactorau, atalyddion; effeithiau crynodiadau ensymau a swbstrad, tymheredd a pH ar gyflymdra ymateb

Ymchwiliad: egwyddorion y dull gwyddonol; unrhyw ddau ffactor sy'n effeithio ar weithgaredd ensymau; iechyd a diogelwch; adroddiad gwyddonol strwythuredig

4 Deall anhwylderau metaboledd

Anhwylderau metabolaidd: yn tarddu o wallau metabolaeth cynhenid, yn tarddu o anhwylderau'r system endocrin; achos; effeithiau; sgrinio/diagnosis; triniaeth/rheolaeth

Gwallau metabolaeth cynhenid: diffygion genetig, e.e. ffenylcetonwria, homosystinwria, galactosaemia, clefyd storio glycogen, anoddefedd ffrwctos a etifeddwyd

Anhwylderau: y system endocrin, e.e. diabetes mellitus, gor-/hypo-thyroidedd, gor-/hypo-parathyroidedd

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio strwythur hydrogen, carbon, ocsigen a nitrogen a chysylltu hynny â strwythur moleciwlau biolegol [YA1; HR2; HR3]	T1 egluro perthnasedd cyfluniad electronig hydrogen, carbon, ocsigen a nitrogen i foleciwlau biolegol	
LI2 disgrifio strwythur dŵr a charbon deuocsid, gan gyfeirio at wahanol fathau o fondiau [HR2; HR3]		
LI3 disgrifio strwythur a swyddogaethau moleciwlau organig [HR2; HR3]	T2 egluro'r berthynas rhwng strwythur a swyddogaethau moleciwlau organaidd	Rh1 dadansoddi ymddygiad moleciwlau mewn perthynas â swyddogaethau celloedd anifeiliaid
LI4 disgrifio prosesau resbiradu aerobig ac anaerobig [HR2; HR3]		
LI5 dangos y ffactorau sy'n effeithio ar weithgaredd ensymau [YA4; GT2; CE3]	T3 defnyddio data o waith arbrofol i egluro rôl ensymau yn y corff.	Rh2 dadansoddi rôl ensymau o ran metaboledd.
LI6 esbonio achosion gwahanol fathau o anhwylderau metabolaidd. [YA4; HR2]		

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwyr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 16: Gwyddoniaeth ar gyfer iechyd

Cod yr Uned:	J/600/8971
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi'r dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth am ystod o sgiliau labordy a gallu defnyddio technegau dadansoddi, microsgop ac aseptig cyfredol a ddefnyddir mewn labordai iechyd.

Cyflwyniad i'r uned

I gychwyn bydd y dysgwyr yn edrych ar sut mae labordy iechyd yn gweithio, gan ymchwilio i'w rôl, y prosesau a gyflawnir, a sut y caiff ei drefnu a'i reoli, yn ogystal â'r gofynion iechyd a diogelwch.

Wedyn fe'u cyflwynir i dechnegau labordy ymarferol, yn cynnwys technegau dadansoddi, technegau microsgop a thechnegau aseptig.

Bydd angen i'r dysgwyr gyflawni ymchwiliadau ymarferol, gan ddefnyddio ystod o dechnegau labordy fel eu bod yn gallu dod i ddeall sut mae'r prosesau hyn yn gweithio mewn sefyllfa labordy.

Mae ffocws ymarferol i'r uned hon, gan ei bod yn rhoi cyfle i'r dysgwyr ddatblygu sgiliau labordy a dod yn gyfarwydd â gwaith labordy iechyd nodweddiadol. Bydd hyn yn hybu dealltwriaeth o sut mae gwaith labordy iechyd yn cynnal diagnosis a thriniaeth cyflyrau amrywiaeth o ddefnyddwyr gwasanaeth.

Bydd yr uned hon yn baratoad defnyddiol ar gyfer y dysgwyr hynny sydd am symud ymlaen yn y gwyddorau iechyd. Bydd yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer dysgwyr sydd am gael gyrfa nyrsio neu faes cysylltiedig ac i'r rhai sy'n dymuno gweithio yn y galwedigaethau iechyd cysylltiedig, megis seroleg, haematoleg, histoleg, biocemeg a gwyddorau ffforensig.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Wybod sut mae labordy iechyd yn gweithredu
- 2 Gallu defnyddio technegau dadansoddi
- 3 Gwybod sut mae defnyddio technegau microsgop
- 4 Gallu defnyddio technegau aseptig i feithrin micro-organebau

Cynnwys yr uned

1 Gwybod sut mae labordy iechyd yn gweithredu

Labordy: math, e.e. labordy patholeg mewn ysbyty, labordy iechyd cyhoeddus, labordy ymchwil

Meddygaeth labordy: math, e.e. biocemeg, haematoleg, histoleg, microbioleg, imiwnoleg, bioleg foleciwlaidd, firoleg, awdioleg

Diagnosteg: diagnosteg in vitro, e.e. dadansoddi gwaed, dadansoddi wrin; diagnosteg in vivo, e.e. pelydr-X, sgan CT, sgan MRI; imiwnoddiagnosteg

Prosesau: proses gronolegol ymchwiliad, ystod o weithdrefnau ymchwiliol, dadansoddiad ansoddol a meintiol; gwerth samplo, cofnodi a thrafod data, cyflwyno data, casgliadau dilys; sicrhau ansawdd; iechyd, diogelwch a diogeledd

Iechyd, diogelwch a diogeledd: deddfwriaeth sy'n briodol i weithrediad labordy, rheoliadau COSHH, polisiau a gweithdrefnau, peryglon, asesu risg, cyfarpar/arwyddion diogelwch, cyfarpar diogelu personol a gweithdrefnau, camau i'w cymryd pan fydd sefyllfaoedd yn codi; gwaredu deunyddiau gwastraff, datblygu cynaliadwy

Cyfarpar: nodi, dethol a defnyddio ar gyfer tasg benodol, cynnal; ansawdd offerynnau; systemau rheoli gwybodaeth yn y labordy

2 Gallu defnyddio technegau dadansoddi

Molared: cyfrifiadau sy'n cynnwys symiau molared, cyfrifo crynodiad, gan gynnwys defnydd o'r ffactorau gwanhau angenrheidiol i gynhyrchu ystod o doddiannau o doddiad stoc penodol crynodiad hysbys

Hyddodiannau safonol: paratoi hyddodiannau crynodiad penodol, titradiadau priodol i bennu crynodiad neu safoni'r hyddodiannau a roddwyd; gwanhau hyddodiannau stoc i roi cyfres o hyddodiannau safonol cysylltiedig

Iechyd a diogelwch: cymhwyso i amodau labordy

Technegau: egwyddorion sylfaenol; lliwfesuriaeth; cromatograffeg, e.e. haen denau, hylif nwy, colofn, cromatograffeg hylifol perfformiad uchel; sbectroscopeg, e.e. uwchfioled, is-goch, sbectroscopeg mas; electrofforesis

Gwaith ymarferol: ymchwiliadau, e.e. cynnwys lipidau gwahanol fathau o laeth, cynnwys asid asgorbig gwahanol sudd ffrwythau, cynnwys asid amino gwahanol broteinau; iechyd a diogelwch fel sy'n briodol i'r tasgau, ee defnyddio cyfarpar diogelwch/eitemau amddiffynnol; adroddiad gwyddonol

Adroddiad gwyddonol: dull; cyflwyno data, e.e. tablau, graffiau, siartiau; dadansoddi a gwerthuso; casgliadau ac argymhellion

Gwerthuso: y dulliau a'r canlyniadau: dilysrwydd, e.e. addasrwydd y dulliau at y diben, a ellid eu hailadrodd, tarddiad a sylwedd y diffygion

3 Gwybod sut mae defnyddio technegau microsgop

Paratoi sleidiau: technegau sefydlu a staenio

Defnyddio microsgop golau: i archwilio sleidiau a baratowyd, gwahanol chwyddiadau, dehongliad

Microsgopau: golau, Uwch Fioled, electron, SEM, TEM; delweddau, cyfyngiadau, cymwysiadau

4 Gallu defnyddio technegau aseptig i feithrin micro-organebau

Micro-organebau: o, e.e. iogwrt

Technegau: technegau aseptig labordy; technegau di-haint o gasglu swabiau; egwyddorion meithrin cyfryngau, paratoi, brechu, deor a throsglwyddo microbiolegol; technegau cyfrif, ffactorau sy'n effeithio ar dwf micro-organebau; profion staenio ar gyfer diagnosis, e.e. staen gram; sensitifrwydd gwrthfoteg

Ymchwiliad: defnyddio sgiliau microbioleg ymarferol, e.e. effeithiolrwydd gwahanol wrthfoteg/ddiheintyddion, crynodiad isaf effeithiol gwrthfoteg/diheintyddion, gofynion twf bacteria penodol, effaith hyd eu cysylltiad â golau Uwch Fioled, newidiadau yn nifer y bacteria a geir mewn iogwrt a storiwyd; defnyddio techneg aseptig, technegau o techneg,, technegau meithriniad

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio gweithrediad labordy iechyd nodweddiadol [YA2; YA3]	T1 esbonio'r angen am ofynion iechyd, diogelwch a diogeledd mewn labordy iechyd	Rh1 gwerthuso'r gofynion iechyd, diogelwch a diogeledd mewn labordy iechyd
LI2 disgrifio'r egwyddorion sylfaenol wrth gymhwyso tair techneg ddadansoddi wahanol [YA1; YA2]	T2 dehongli canlyniadau eu hymchwiliad dadansoddiadol eu hun	Rh2 gwerthuso'r strategaethau a'r rhagofalon y gellir eu defnyddio ochr yn ochr â thechnegau dadansoddi er mwyn sicrhau canlyniadau mwy dibynadwy.
LI3 adrodd ar eu hymchwiliad eu hun, gan ddefnyddio technegau dadansoddi [YA1; YA6; HR1; HR2; HR3; HR4]		
LI4 disgrifio defnydd diogel ac effeithiol o ficrosgop i edrych ar sleidiau wedi'u staenio o gelloedd a baratowyd [YA2; HR2]		

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI5 adrodd ar eu hymchwiliad(au) eu hunain gan ddefnyddio sgiliau microbioleg ymarferol. [YA1; YA2; YA4; YA6]	T3 dehongli canlyniadau eu hymchwiliad microbaidd eu hun.	

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwyr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 17: Gweithio yn y Sector Gofal Cymdeithasol

Cod yr Uned:	L/600/8972
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw bod dysgwyr yn ystyried trefniadaeth a gweinyddiaeth gyfredol gwasanaethau gofal cymdeithasol. Byddant yn dod i ddeall rolau a chyfrifoldebau'r sector gofal cymdeithasol a natur gwaith amlddisgyblaeth, ac ar yr un pryd yn archwilio cyfleoedd gyrfa posib at y dyfodol yn y sector.

Cyflwyniad i'r uned

Ar y cychwyn, bydd y dysgwyr yn edrych ar yrfaoedd gofal cymdeithasol, a'u gofynion o ran hyfforddiant/cymwysterau a nodweddion personol.

Bydd y dysgwyr yn edrych ar strwythur y gwasanaeth gofal cymdeithasol a ddarperir, ac yna'n ystyried rolau a chyfrifoldebau o fewn y sector, gan gynnwys arweinyddiaeth a rheolaeth. Byddant yn dod i ddeall y mesurau a gyflwynwyd i annog dulliau cyfannol o ymdrin â'r ddarpariaeth sy'n integreiddio cyflwyno gwasanaeth. Bydd polisi a deddfwriaeth sy'n ymwneud â hyn yn cael eu harchwilio, fel y bydd y galw cynyddol am reoleiddio yn y sector, a rôl hynny. Yn olaf, bydd y dysgwyr yn edrych ar enghreifftiau o waith aml-ddisgyblaeth.

Bydd angen mynediad i leoliadau profiad gwaith yn y sector ar ddysgwyr sy'n dilyn yr uned hon.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Ddeall gyrfaoedd posib yn y sector gofal cymdeithasol
- 2 Deall sut mae sefydliadau wedi'u strwythuro yn y sector gofal cymdeithasol
- 3 Deall rolau a chyfrifoldebau yn y sector gofal cymdeithasol
- 4 Deall cysyniad gwaith amlddisgyblaeth yn y sector gofal cymdeithasol.

Cynnwys yr uned

1 Deall gyrfaoedd posib yn y sector gofal cymdeithasol

Gyrfaoedd posib: rolau, e.e. gweithiwr cymdeithasol, rheolwr, gweithiwr gofal, gweithiwr cymorth, staff domestig

Gofynion: addysg a hyfforddiant, galluedd, gwybodaeth a sgiliau; fframwaith prentisiaeth, cymwysterau, e.e. NVQ, BTEC, TGAU/TAU, Diploma 14-10, gradd, cofrestru, setiau gwybodaeth; sgiliau ymarferol, gwybodaeth a dealltwriaeth, e.e. cyfathrebu, dulliau gofal sy'n canolbwyntio ar y person, anatomeg/ffisioleg sylfaenol, dealltwriaeth ddeietegol, paratoi bwyd yn ddiogel, iechyd a dioglewch, cymorth cyntaf, symud a thrafod, gweithdrefnau cofnodi ac adrodd, gweithdrefnau ar gyfer rhannu gwybodaeth, prosesau cynllunio gofal; nodweddion personol, e.e. gallu i gaffael gwybodaeth/sgiliau, sgiliau rhyngbersonol, menter, hyder, empathi, arfer gwrthwahananiaethol, y gallu i weithio gydag eraill; dibynadwyedd, gallu i dderbyn cyfrifoldeb amdanynt eu hunain ac eraill

2 Deall sut mae sefydliadau wedi'u strwythuro yn y sector gofal cymdeithasol

Elfennau allweddol o'r ddarpariaeth gofal cymdeithasol: darpariaeth statudol, wirfoddol, breifat ac anffurfiol; gwasanaethau cymdeithasol; y GIG; awdurdodau iechyd strategol; Ymddiriedolaethau Gofal Cychwynnol; gofal iechyd cynradd; ymddiriedolaethau GIG; gofal iechyd eilaidd; gofal integredig; ymddiriedolaethau iechyd meddwl; ymddiriedolaethau plant.

Gofal cymdeithasol: lleoliadau a gwasanaethau, e.e. gofal preswyl, gofal cartref, pryd ar glud, cymorth cartref, gofal dydd, gofal maeth, wardiau ysbyty, unedau gofal dydd; sut mae gwahanol leoliadau'n darparu ar gyfer gwahanol anghenion

Mynediad i wasanaethau gofal cymdeithasol: cyfeirio, asesu; rhwystrau i fynediad, e.e. anghenion penodol, dewisiadau unigol, ariannol, daearyddol, cymdeithasol, diwylliannol

Gwledydd: Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon

3 Deall rolau a chyfrifoldebau yn y sector gofal cymdeithasol

Sefydliadau trosgynnol: cyrff proffesiynol, e.e. Cyngorau Sgiliau Sector (Sgiliau Gofal, Cyngor Gofal Cymru, Cyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon), y Cyngor Gofal Cymdeithasol Cyffredinol, y Comisiwn ar gyfer Arolygu Gofal Cymdeithasol; Sefydliad Rhagoriaeth Gofal Cymdeithasol

Rolau a chyfrifoldebau: ar gyfer datblygu'r gweithlu, e.e. codi safonau, gwella profiadau defnyddwyr gwasanaeth, sicrhau gweithlu cymwys, wedi'i hyfforddi sydd wedi derbyn hyfforddiant digonol, cofrestru, rheoleiddio, arolygu, adrodd, datblygu a hyrwyddo gwybodaeth am arfer da; codau ymarfer, cofrestr gofal cymdeithasol; annog dulliau sy'n helpu pobl i gyflawni eu potensial llawn; sicrhau'r cyfraniad gorau posib gan unigolion a thimau i ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn; hwyluso hyblygrwydd wrth gynllunio'r gweithlu; cefnogi ailddylunio'r gwasanaeth, estyn rolau presennol a datblygu rolau newydd; sefydlu fframweithiau sy'n cynyddu'r gallu i drosglwyddo gallueddau a chymwysterau; Datblygiad Proffesiynol Parhaus; gallu proffesiynol parhaus; trawsnewid; cynllunio olyniaeth; Safonau Cenedlaethol Galwedigaethol; dulliau o fonitro perfformiad

Deddfwriaeth/arweiniad: sylfaen gwerthoedd gofal; deddfwriaeth/rheoliadau; safonau cenedlaethol gofynnol; polisïau a gweithdrefnau trefniadol; siarteri; codau ymarfer; telerau ac amodau

Atebolrwydd: i, e.e. y corff proffesiynol, y rheolwr llinell

Gwneud iawn: gweithdrefnau cwynion (mewnol, allanol); gwrandawiadau/tribiwnlysoedd; undebau llafur/cymdeithasau proffesiynol; cyrff rheoleiddio; datgelu camarfer

Arweinyddiaeth a rheolaeth: recriwtio, dethol a chadw; sefydlu; arweinyddiaeth, meithrin tîm, dyrannu tasgau; grymuso; monitro perfformiad, arfarnu, monitro anghenion hyfforddi, hyrwyddo datblygiad proffesiynol parhaus

Datblygu'r gweithlu: anghenion hyfforddi, cyfarfodydd, adnoddau, Datblygiad Proffesiynol Parhaus, ymarfer adfyfyriol

Gweithio mewn timau: dulliau o weithio, anghenion unigolion, rolau aelodau'r tîm, rhannu arfer da, mentora a goruchwyllo, dull cyfannol, timau amlddisgyblaeth

4 Deall cysyniad gwaith amlddisgyblaeth yn y sector gofal cymdeithasol

Gweithio mewn Partneriaeth: y cysyniad, e.e. gwaith amlasiantaeth, defnyddwyr gwasanaeth/gofalwyr yn ymwneud â chynllunio/gwneud penderfyniadau, Ymddiriedolaethau Gofal Cychwynnol yn cysylltu ag ymddiriedolaethau GIG/â'r gwasanaethau cymdeithasol/â chyrff elusennol; diben, e.e. dull cyfannol, pennu nodau ac amcanion cyffredin, hyrwyddo integreiddio, lleihau dyblygu, cyfuno sgiliau, creu cronfa o adnoddau, mwyafu arbenigedd, sicrhau dull cyson

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 egluro'r gofynion ar gyfer dwy yrfa wahanol yn y sector gofal cymdeithasol [YA2]	T1 asesu sut gall gweithiwr gofal gyfrannu at ddarparu profiad cadarnhaol i ddefnyddwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol	Rh1 gwerthuso gofynion gweithwyr gofal cymdeithasol o ran darparu gweithlu galluog ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol.
LI2 amlinellu strwythur cyffredinol y ddarpariaeth gofal cymdeithasol yn y famwlad [YA1]		
LI3 esbonio rolau a chyfrifoldebau dau sefydliad gofal cymdeithasol trosgynnol [YA3; MC2]	T2 trafod rolau dau sefydliad gofal cymdeithasol yng nghyswllt y gwasanaeth y maent yn ei ddarparu	
LI4 esbonio sut mae dwy enghraifft o ddeddfwriaeth, polisiau neu godau ymarfer wedi dylanwadu ar y ddarpariaeth gofal cymdeithasol [MC2]		
LI5 egluro rôl datblygu'r gweithlu yn y sector gofal cymdeithasol [YA5]		

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI6 esbonio dwy enghraifft o waith aml-ddisgyblaeth ym maes gofal cymdeithasol.	T3 asesu sut gall gwaith aml-ddisgyblaeth wella'r ddarpariaeth o wasanaethau gofal cymdeithasol.	Rh2 gwerthuso effeithiolrwydd dwy enghraifft o waith aml-ddisgyblaeth ym maes gofal.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwyr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol MC - meddylwyr creadigol	DM - dysgwyr myfyriol GT - gweithwyr tîm	HR - hunanreolwyr CE - cyfranogwyr effeithiol
----------------	--	---	--

Uned 18: Gweithio yn y Sector Iechyd

Cod yr Uned:	R/600/8973
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi'r dysgwyr i gaffael gwybodaeth am drefniadaeth a gweinyddiaeth y gwasanaethau iechyd ar hyn o bryd. Byddant yn hefyd yn gallu dod i ddeall rolau a chyfrifoldebau yn y sector iechyd a natur gwaith amlddisgyblaeth, ac ar yr un pryd yn archwilio cyfleoedd gyrfa posib at y dyfodol yn y sector.

Cyflwyniad i'r uned

Ar y cychwyn, bydd dysgwyr yn edrych ar yrfaedd yn y sector iechyd, a'u gofynion, nid yn unig o ran hyfforddiant/cymwysterau, ond hefyd nodweddion personol.

Bydd y dysgwyr yn edrych ar strwythur y gwasanaeth iechyd a ddarperir, ac yna'n ystyried rolau a chyfrifoldebau o fewn y sector, gan gynnwys arweinyddiaeth a rheolaeth. Byddant yn dod i ddeall y mesurau a gyflwynwyd i annog dulliau cyfannol o ymdrin â'r ddarpariaeth sy'n integreiddio cyflwyno gwasanaeth, ac yn edrych ar enghreifftiau o waith amlddisgyblaeth. Bydd polisi a deddfwriaeth sy'n ymwneud â hyn yn cael eu harchwilio, fel y bydd y galw cynyddol am reoleiddio yn y sector, a rôl hynny. Byddai o ddefnydd i ddysgwyr sy'n dilyn yr uned hon petai mynediad ganddynt i leoliadau profiad gwaith yn y sector.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Ddeall gyrfaedd posib yn y sector iechyd
- 2 Deall sut mae sefydliadau wedi'u strwythuro yn y sector iechyd
- 3 Deall rolau a chyfrifoldebau yn y sector iechyd
- 4 Deall cysyniad gwaith aml-ddisgyblaeth yn y sector iechyd.

Cynnwys yr uned

1 Deall gyrfaoedd posib yn y sector iechyd

Gyrfaoedd posib: rolau, e.e. rheolwr gwasanaeth, gweithiwr cymorth, deintyddiaeth, deieteg, staff domestig, gweithiwr chwarae mewn ysbyty, technegydd mewn labordy meddygol, croesawydd meddygol, meddygaeth, gweithwyr iechyd meddwl, bydwreigiaeth, nyrsio, therapi galwedigaethol, parafeddygaeth, fferylleg, ffisiotherapi, therapi lleferydd

Gofynion: addysg a hyfforddiant, galluedd, gwybodaeth a sgiliau; fframwaith prentisiaeth, cymwysterau, e.e. NVQ, BTEC, TGAU/TAU, Diploma 14-19, gradd, cofrestru, setiau gwybodaeth; sgiliau ymarferol, gwybodaeth a dealltwriaeth, e.e. cyfathrebu, dulliau gofal iechyd sy'n canolbwyntio ar y person, anatomeg/ffisioleg, dealltwriaeth ddeietegol, paratoi bwyd yn ddiogel, iechyd a diogelwch, cymorth cyntaf, symud a thrafod, gweithdrefnau cofnodi ac adrodd, gweithdrefnau ar gyfer rhannu gwybodaeth; nodweddion personol, e.e. gallu i gaffael gwybodaeth/sgiliau, sgiliau rhyngpersonol, menter, hyder, empathi, arfer gwrthwahaniaethol, y gallu i weithio gydag eraill; dibynadwyedd, gallu i dderbyn cyfrifoldeb amdanynt eu hunain ac eraill

2 Deall sut mae sefydliadau wedi'u strwythuro yn y sector iechyd

Elfennau allweddol o'r ddarpariaeth gofal iechyd: darpariaeth statudol, gwirfoddol, preifat ac anffurfiol; gwasanaethau cymdeithasol; y GIG; awdurdodau iechyd strategol; Ymddiriedolaethau Gofal Cychwynnol; gofal iechyd cynradd; ymddiriedolaethau GIG; gofal iechyd eilaidd; gofal integredig; ymddiriedolaethau iechyd meddwl; ymddiriedolaethau plant

Gofal iechyd: lleoliadau a gwasanaethau, e.e. wardiau ysbyty, unedau gofal dydd; sut mae gwahanol leoliadau'n darparu ar gyfer gwahanol anghenion

Mynediad i Wasanaethau Iechyd: cyfeirio, asesu; rhwystrau i fynediad, e.e. anghenion penodol, dewisiadau unigol, ariannol, daearyddol, cymdeithasol, diwylliannol

Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol: gwasanaethau a gynigir, e.e. clefyd coronaidd y galon, diabetes, canser, iechyd meddwl, plant, pobl hŷn; arfer sy'n troi o amgylch y claf

Gwledydd: Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon

3 Deall rolau a chyfrifoldebau yn y sector iechyd

Sefydliadau cwmpasog: rolau a chyfrifoldebau, e.e. cyrff proffesiynol, Yr Adran Iechyd, cyrff rheoleiddio, Sgiliau Iechyd, Y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol; Asiantaeth Amddiffyn Iechyd; cyrff iechyd cyhoeddus

Rolau a chyfrifoldebau: ar gyfer datblygu'r gweithlu, e.e. codi safonau, gwella profiadau defnyddwyr gwasanaeth, sicrhau gweithlu cymwys, wedi'i hyfforddi sydd wedi derbyn hyfforddiant digonol, cofrestru, rheoleiddio, arolygu, adrodd, datblygu a hyrwyddo gwybodaeth am arfer da; codau ymarfer; annog dulliau sy'n helpu pobl i gyflawni eu llawn botensial; sicrhau'r cyfraniad gorau posib gan unigolion a thimau i ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn; hwyluso hyblygrwydd wrth gynllunio'r gweithlu; cefnogi ailddylunio'r gwasanaeth, estyn rolau presennol a datblygu rolau newydd; sefydlu fframweithiau sy'n cynyddu'r gallu i drosglwyddo galluedd a chymwysterau; Datblygiad Proffesiynol Parhaus; gallu proffesiynol parhaus; trawsnewid; cynllunio olyniaeth; Safonau Cenedlaethol Galwedigaethol; dulliau o fonitro perfformiad; fframwaith gwybodaeth a sgiliau'r GIG

Deddfwriaeth/arweiniad: sylfaen gwerthoedd gofal; deddfwriaeth/rheoliadau; safonau cenedlaethol gofynnol; polisïau a gweithdrefnau trefniadol; siarteri; codau ymarfer; telerau ac amodau

Atebolrwydd: i, e.e. y corff proffesiynol, y rheolwr llinell

Gwneud iawn: gweithdrefnau cwynion (mewnol, allanol); gwrandawladau/tribiwnlysoedd; undebau llafur/cymdeithasau proffesiynol; cyrff rheoleiddio; datgelu camarfer

4 Deall cysyniad gwaith aml-ddisgyblaeth yn y sector iechyd

Gweithio mewn Partneriaeth: cysyniadau, e.e. gwaith amlasiantaeth, defnyddwyr gwasanaeth/gofalwyr yn ymwneud â chynllunio/gwneud penderfyniadau, Ymddiriedolaethau Gofal Cychwynnol yn cysylltu ag ymddiriedolaethau GIG/â'r gwasanaethau cymdeithasol/â chyrff elusenol; diben, e.e. dull cyfannol, pennu nodau ac amcanion cyffredin, hyrwyddo integreiddio, lleihau dyblygu, cyfuno sgiliau, creu cronfa o adnoddau, mwyafu arbenigedd, sicrhau dull cyson

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 egluro'r gofynion ar gyfer dwy yrfa wahanol yn y sector iechyd [YA2]	T1 asesu sut gall gweithiwr iechyd gyfrannu at ddarparu profiad cadarnhaol i ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd	Rh1 gwerthuso gofynion gweithwyr gofal iechyd mewn perthynas â darparu gweithlu galluog ar gyfer y sector iechyd
LI2 amlinellu strwythur cyffredinol darpariaeth y gwasanaeth iechyd yn y famwlad [YA1]		
LI3 esbonio rolau a chyfrifoldebau dau sefydliad iechyd cwmpasog [MC2]	T2 trafod rolau dau sefydliad gofal iechyd yng nghyswllt y gwasanaeth iechyd a ddarperir	
LI4 esbonio sut mae dwy enghraifft o ddeddfwriaeth, polisïau neu godau ymarfer wedi dylanwadu ar y ddarpariaeth iechyd [MC2]		
LI5 egluro rôl datblygu'r gweithlu yn y sector iechyd [YA5]		

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI6 esbonio dwy enghraifft o waith aml-ddisgyblaeth yn narpariaeth y gwasanaeth iechyd.	T3 asesu sut gall gwaith aml-ddisgyblaeth wella darpariaeth gwasanaethau iechyd.	Rh2 gwerthuso effeithiolrwydd dwy enghraifft o waith amlddisgyblaeth yn narpariaeth y gwasanaeth iechyd.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwyr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 19: Persbectifau Cymdeithasol Cymwysedig ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cod yr Uned:	F/601/2405
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi'r dysgwyr i ddeall cymhwysiad dulliau cymdeithasegol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd dysgwyr yn ymchwilio i gysyniad cymdeithas anghyfartal, yn archwilio newidiadau demograffig ac yn edrych ar gysylltiadau posib rhwng anghydraddoldebau cymdeithasol a iechyd a lles y boblogaeth.

Cyflwyniad i'r uned

Gan ddefnyddio'r Deyrnas Unedig fel enghraifft o wlad gyfoethog, nid yw'r cynnydd o ran cyfoeth yn ystod y 25 mlynedd diwethaf nac ymyrraeth y llywodraeth wedi llwyddo i wrthweithio anghydraddoldeb difrifol o ran incwm, ffyniant a chyfleoedd bywyd. Mae'r rhai sydd ar y cyrion yn byw mewn cymdeithas a nodweddir gan newid ar raddfa sy'n cyflymu a mathau newydd o dlodi ac amddifadedd.

Bydd yr uned hon yn rhoi gwybodaeth a mewnwelediad amhrisiadwy i'r dysgwyr am faterion sy'n ymwneud â rhai o'r grwpiau hyn mewn cymdeithas sy'n agored i niwed, a sut a pham mae eu hanghenion yn bodoli.

Bydd dysgwyr yn edrych ar bynciau megis eithrio a chynhwysiad cymdeithasol, diffiniadau o dlodi, a'r cysylltiadau rhwng anghydraddoldeb cymdeithasol a iechyd a lles y boblogaeth. Byddant hefyd yn datblygu ymwybyddiaeth o effaith newid demograffig ac yn ystyried ei ganlyniadau posib.

Mae'r uned yn ceisio ehangu ac adeiladu ar yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth y bydd dysgwyr wedi'u datblygu wrth astudio unedau blaenorol, megis *Uned 2: Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol*, ac *Uned 7: Persbectifau Cymdeithasegol ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol*. Argymhellir, felly, fod dysgwyr yn astudio'r ddwy uned honno cyn yr uned hon.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Ddeall cysyniad cymdeithas anghyfartal
- 2 Gwybod am anghydraddoldebau cymdeithasol mewn cymdeithas
- 3 Deall natur newid demograffig oddi mewn i gymdeithas anghyfartal
- 4 Deall cysylltiadau posib rhwng anghydraddoldebau cymdeithasol a iechyd y boblogaeth.

Cynnwys yr uned

1 Deall cysyniad cymdeithas anghyfartal

Cysyniadau ynghylch anghydraddoldebau: yn ymwneud ag, e.e. stereoteipio, rhagfarn, labelu, agweddau, gwahaniaethu, ymyleiddio, eithrio/cynhwysiad cymdeithasol

2 Gwybod am anghydraddoldebau cymdeithasol mewn cymdeithas

Anghydraddoldebau cymdeithasol: cysylltiedig â'r canlynol, e.e. dosbarth cymdeithasol, oedran, rhyw, diwylliant, ethnigrwydd, anabledd, rhywioldeb

3 Deall natur newid demograffig oddi mewn i gymdeithas anghyfartal

Newid demograffig: cyfraddau genedigaethau a marwolaethau, mewnfudo, allfudo, mudo; aml-ddiwylliannaeth; newidiadau o ran hyd oes disgwylidig, goblygiadau poblogaeth sy'n heneiddio; goblygiadau newid demograffig

Data demograffig: cyfraddau geni, cyfraddau marw, y cyfrifiad, cofrestrau etholiadol; eu defnyddiau, e.e. asesu anghenion posib y boblogaeth, cynllunio/targedu gwasanaethau, asesu effeithiolrwydd darpariaeth gwasanaeth, datblygu amcanion polisi i'r dyfodol

4 Deall cysylltiadau posib rhwng anghydraddoldebau cymdeithasol a iechyd y boblogaeth

Anghydraddoldebau cymdeithasol: yng nghyswllt dosbarthiad incwm a chyfoeth, diweithdra, tlodi, cymdeithas sy'n heneiddio, anabledd a chamweithredu, salwch meddwl a hunanladdiad

Iechyd: ffactorau sy'n effeithio arno, gan gynnwys cefndir teuluol, dosbarth cymdeithasol, diwylliant, ethnigrwydd, addysg, tai, statws economaidd/cyflogaeth, statws maeth, rhwydwaith o gefnogaeth gymdeithasol, dylanwad grŵp cyfoedion, dylanwad y cyfryngau, ardal ddaearyddol, mynediad i wasanaethau/amwynderau

Effeithiau posib: ar yr unigolyn, grwpiau, a chymdeithas; e.e. beichiogrwydd yn yr arddegau, defnyddio/camdefnyddio cyffuriau, alcohol, troseddu, iechyd meddwl, anhwylderau bwyta, iechyd corfforol

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 egluro cysyniad cymdeithas anghyfartal [YA3; MC4; HR3]	T1 trafod effaith anghydraddoldebau cymdeithasol ar grwpiau mewn cymdeithas	Rh1 gwerthuso effaith anghydraddoldebau cymdeithasol mewn cymdeithas
LI2 disgrifio anghydraddoldebau cymdeithasol sy'n bodoli mewn cymdeithas [YA3; MC2; MC4; HR3]		
LI3 esbonio newid demograffig diweddar yn y famwlad [YA3; MC2; MC4; HR3]	T2 asesu effaith newidiadau demograffig yn y famwlad	
LI4 esbonio sut defnyddir data demograffig yn narpariaeth y gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol [YA4; HR3]		
Rh5 egluro cysylltiadau posib rhwng anghydraddoldebau cymdeithasol a iechyd y boblogaeth. [YA4; HR3]	T3 asesu effaith anghydraddoldebau cymdeithasol ar iechyd un grŵp mewn cymdeithas.	Rh2 gwerthuso'r cysylltiadau posib rhwng anghydraddoldebau cymdeithasol a iechyd un grŵp mewn cymdeithas.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwyr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 20: Hybu Addysg Iechyd

Cod yr Uned:	J/601/2406
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi dysgwyr i ddeall yr egwyddorion sy'n darparu sylfaen ar gyfer addysg iechyd a modelau cysylltiedig o newid ymddygiad. Bydd hyn yn eu galluogi i gymhwyso'r egwyddorion hyn wrth ddylunio a gweithredu ymgyrch addysg iechyd fechan.

Cyflwyniad i'r uned

Mae addysg iechyd yn elfen ganolog wrth hybu iechyd, ac mae hynny yn ei dro yn elfen bwysig o iechyd cyhoeddus. Mae'r uned hon yn cysylltu ag *Uned 12: Iechyd Cyhoeddus*, ac yn ceisio estyn rhai o'r cysyniadau a gyflwynwyd yno. Mae'r uned hefyd yn estyn cysyniadau o iechyd ac afiechyd a gyflwynwyd yn *Uned 7: Persbectifau Cymdeithasegol ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol* ac agweddau ar y persbectifau seicolegol a gyflwynwyd yn *Uned 8: Persbectifau Seicolegol ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol*.

Cyflwynir yr uned hon ag adolygiad hanesyddol cryno. Edrychir ar ddatblygiadau cynnar ym maes iechyd cyhoeddus, a cherrig milltir rhyngwladol mwy diweddar, mewn perthynas â sut maent wedi dylanwadu ar ddatblygiad dulliau cyfredol o feddwl am addysg iechyd. Nod addysg iechyd yw darparu gwybodaeth i annog unigolion i newid eu hymddygiad er budd i'w hiechyd a'u lles. Ystyrir rôl addysgwyr iechyd.

Edrychir ar feio dioddefwyr a modelau grymuso o addysg iechyd. Bydd y dysgwyr yn ystyried rôl marchnata cymdeithasol, y cyfryngau torfol, datblygiad cymunedol a chyfathrebu dwy ffordd fel dulliau gwahanol o ymdrin ag addysg iechyd. Bydd defnydd o dechnolegau newydd ym maes addysg iechyd yn thema ar hyd yr uned. Bydd y dysgwyr yn ymchwilio i wahanol fodelau o newid ymddygiad, yn benodol yng nghyswllt addysg iechyd, ac yn ystyried pwysigrwydd y cyd-destun sosio-economaidd ar ddylanwadu canlyniadau yn sgil addysg iechyd.

Mae dylunio a gweithredu ymgyrch addysg iechyd ar raddfa fechan yn rhan bwysig o'r uned hon. Wrth ddylunio'r ymgyrch, bydd y dysgwyr yn diffinio nodau ac amcanion priodol sy'n gysylltiedig â strategaethau a thargedau iechyd cenedlaethol a lleol. Dylai fod ganddynt ddealltwriaeth glir o'r gynulleidfa darged a chyd-destun yr ymgyrch. Dylai'r cynllunio ar gyfer yr ymgyrch ymgorffori egwyddorion dylunio a rhoi sylw i ystyriaethau moesegol. Bydd pob dysgwr yn cynhyrchu adnodd i gefnogi eu hymgyrch. Ar ddiwedd yr ymgyrch, bydd y dysgwyr yn gwerthuso eu hadnodd unigol a'i gyfraniad i'r ymgyrch, yn ogystal â llwyddiant yr ymgyrch yn gyffredinol.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Ddeall gwahanol ddulliau o ymdrin ag addysg iechyd
- 2 Deall modelau newid ymddygiad
- 3 Deall sut rhoddir ymgyrchoedd addysg iechyd ar waith
- 4 Gallu rhoi ymgyrch iechyd ar waith.

Cynnwys yr uned

1 Deall gwahanol ddulliau o ymdrin ag addysg iechyd

Persbectif hanesyddol: datblygu system iechyd cyhoeddus; Iechyd i Bawb erbyn y flwyddyn 2000, Datganiad Alma-Ata, Siarter Ottawa er Hybu Iechyd 1986

Addysgwyr iechyd: rhyngwladol, e.e. Sefydliad Iechyd y Byd (WHO); cenedlaethol/lleol/fel sy'n briodol ar gyfer y famwlad, e.e. Yr Adran Iechyd, Asiantaeth Amddiffyn Iechyd, Galw Iechyd Cymru; Ymddiriedolaethau Gofal Cychwynnol, rôl gweithwyr proffesiynol

Dull marchnata cymdeithasol: cymysgedd o farchnata; manteision, e.e. dadansoddiad a segmentiad y gynulleidfa, dull wedi'i dargedu a arweinir gan anghenion; cyfyngiadau, e.e. cost, amser

Rôl y cyfryngau torfol: gwahanol ffurfiau, e.e. teledu, radio, papurau newydd, cylchgronau, poster, byrddau arddangos, taflenni; manteision e.e. cynyddu ymwybyddiaeth o faterion iechyd, cyrraedd cynulleidfa eang, cyfleu gwybodaeth syml, rhoi iechyd ar yr agenda gyhoeddus; cyfyngiadau, e.e. anallu i gyfleu gwybodaeth gymhleth na dysgu sgiliau, gwybodaeth lai penodol, cyfathrebu cyfyngedig o'r ddeutu

Dull datblygu cymunedol: cysyniad cyfannol; cyfranogiad, grymuso, manteision, e.e. canolbwyntio ar achosion gwaelodol salwch, helpu i leihau anghydraddoldebau; cyfyngiadau, e.e. angen llawer o amser, anodd mesur a gwerthuso

Cyfathrebu dwy ffordd: mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, e.e. cyngor ar iechyd cyn beichiogi, rhyw diogel, imiwneiddio); defnyddiau eraill, addysgwyr cyfoedion, defnyddio theatr a drama, fideo rhyngweithiol a phecynnau cyfrifiadurol

Modelau: 'beio dioddefwyr', grymuso

Ymgyrchoedd cenedlaethol: ar gyfer, e.e. gweithgaredd corfforol, deiet, smygu, clefyd y galon, heintiau a drosglwyddir trwy ryw, iechyd meddwl, gostwng lefelau beichiogi yn yr arddegau

2 Deall modelau newid ymddygiad

Modelau: model credo iechyd, theori gweithredu rhesymedig, theori ymddygiad a gynlluniwyd, model cyfnodau o newid, theori dysgu cymdeithasol

Y cyd-destun cymdeithasol ac economaidd: e.e. ariannol, dosbarth cymdeithasol, pwysau cyfoedion

3 Deall sut rhoddir ymgyrchoedd addysg iechyd ar waith

Strategaethau iechyd: ymgyrchoedd, e.e. Achub Bywydau: Our Healthier Nation, Mae Pob Plentyn yn Cyfri, Choosing Health; Gwneud dewisiadau iach yn haws, fel sy'n briodol ar gyfer y famwlad; rôl deddfwriaeth, fel sy'n berthnasol i bob agwedd ar iechyd

Egwyddorion dylunio: pwysigrwydd polisi iechyd, casglu gwybodaeth/ystadegau, gosod targedau, amcanion sy'n benodol, yn fesuradwy, yn ymarferol ac sy'n cydnabod man cychwyn y gynulleidfa, y dull a ddewisir, cyfleu gwybodaeth glir a chywir yn briodol, herio a chywiro gwybodaeth gamarweiniol a rhagfarn, ymgynghori â'r asiantaethau/sefydliadau/bobl briodol, cysylltiadau ag ymgyrchoedd cenedlaethol, casglu adborth gan gyfranogwyr

Adnoddau: mathau, e.e. papur, podlediadau, delweddau symudol, gêm, model tri dimensiwn, gweithgaredd, drama; posib yn sgil TGCh, e.e. cwis ar-lein

Targedau: lleol, cenedlaethol

4 Gallu rhoi ymgyrch iechyd ar waith

Nodau ac amcanion: gwella iechyd unigolion a chymdeithas, e.e. trwy ddarparu dysgu cysylltiedig â iechyd, archwilio gwerthoedd ac agweddau, darparu gwybodaeth a sgiliau ar gyfer newid, hyrwyddo hunan-barch a hunan-rymuso, newid credoau, agweddau, ymddygiad, ffordd o fyw

Cynulleidfa darged: fel sy'n briodol, e.e. plant ifanc, pobl ifanc, pobl hŷn, mamau beichiog

Cyd-destun: un i un, grwpiau

Materion moesegol: i ystyried, e.e. hawliau unigolion, hawliau pobl eraill, cyfrinachedd

Gwerthuso: llwyddiant, e.e. nodau ac amcanion, targedau; cryfderau a gwendidau; agweddau i'w gwella.

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 egluro tri dull gwahanol o ymdrin ag addysg iechyd [YA3]		Rh1 cyfiawnhau'r dulliau a'r ffyrdd o weithredu a gynigiwyd yn eu hymgyrch addysg iechyd, gan eu cysylltu â modelau newid ymddygiad
LI2 esbonio dau fodel o newid ymddygiad a ddefnyddiwyd mewn ymgyrchoedd addysg iechyd cenedlaethol yn ddiweddar [YA3; MC2; MC3]	T1 asesu sut gall y cyddestun cymdeithasol ddylanwadu ar allu ymgyrchoedd addysg iechyd i newid ymddygiad mewn perthynas â iechyd	
LI3 esbonio sut mae cynllunio ymgyrch addysg iechyd ar raddfa fach sy'n berthnasol i strategaethau iechyd lleol neu genedlaethol [GT1; GT4; GT5; HR2; HR3; CE2; CE3; CE6]		
LI4 cynnal ymgyrch addysg iechyd, gan ei chysylltu â modelau newid ymddygiad	T2 asesu'r ffactorau a ddylanwadodd ar effeithiolrwydd eu hymgyrch addysg iechyd	Rh2 gwneud argymhellion ar gyfer gwella eu hymgyrch addysg iechyd.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI5 esbonio materion moesegol sy'n gysylltiedig â'r ymgyrch addysg iechyd. [DM5; HR5]	T3 trafod sut yr ymdriniwyd â materion moesegol a gododd.	

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwyr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 21:

Maetheg ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cod yr Uned:	L/601/2407
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw sicrhau bod y dysgwyr yn deall syniadau cyfredol ynghylch iechyd maeth, yn enwedig yng nghyswllt defnyddwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Wedyn bydd y dysgwyr yn gallu cymhwyso'r ddealltwriaeth hon a gwneud argymhellion i wella iechyd maeth unigolyn.

Cyflwyniad i'r uned

Mae'r uned hon yn adeiladu ar ddealltwriaeth dysgwyr o'r egwyddorion a gyflwynwyd yn *Uned 5: Hanfodion Anatomeg a Ffisioleg ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol*.

Mae gwelliannau yn neiet unigolion yn cael eu cydnabod yn gynyddol fel ffactor arwyddocaol ar gyfer cynnal, neu sicrhau, gwelliannau, i iechyd cyffredinol. Mae'n bwysig felly bod pobl sy'n gweithio yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, neu'r rhai sy'n gyfrifol am les pobl eraill, yn deall maeth a deiet yn dda. Mae'r uned hon yn rhoi dealltwriaeth o faetheg i'r dysgwyr o bersbectif gwyddonol, a hefyd yn edrych ar rôl bwyd mewn cyd-destunau cymdeithasol. Gall yr uned hefyd ddarparu gwybodaeth sylfaenol ddefnyddiol ar gyfer astudio hylendid bwyd a sgiliau coginio ymarferol.

Bydd y dysgwyr yn archwilio cysyniadau o faetheg gan ddefnyddio iaith gwyddoniaeth faeth. Bydd gwahanol agweddau ar iechyd maeth yn cael eu diffinio, ac edrychir ar ffyrdd cyffredin o'i fesur. Bydd yr agweddau eraill ar ddata maeth yn cynnwys disgrifio'r egwyddorion cyffredinol sy'n sail ar gyfer pennu gofynion maeth yn y DU, a sut gellir adalw gwybodaeth ynghylch cynnwys maeth bwydydd. Bydd y dysgwyr hefyd yn edrych ar sut gall prosesu bwyd effeithio ar werth maeth bwydydd.

Ymchwilir i swyddogaeth a ffynonellau'r prif faetholynnau yng nghyswllt eu cyfraniad i weithrediad ffisiolegol iach y corff. Rhoddir sylw penodol i nodweddion cemegol maetholynnau a nodweddion eraill deiet sy'n bwysig er mwyn deall yr egwyddorion gwyddonol sy'n sail ar gyfer cyngor cyfredol y llywodraeth ar iechyd maeth a lles cyffredinol.

Bydd cyd-destun treuliant bwyd ym mamwledydd y dysgwyr yn cael ei ystyried trwy archwilio'r ffactorau sy'n dylanwadu ar gymeriant deietegol unigolion. Bydd dysgwyr yn ystyried canlyniadau rhai anhwylderau cyffredin sy'n arwain at ofynion deietegol penodol. Rhoddir sylw i rôl dewisiadau personol, ffordd o fyw a ffactorau sosio-ddiwylliannol wrth bennu pa fwyd a fwyteir, a sut, yn ogystal â ffactorau economaidd. Hefyd cynhwysir ystyriaethau polisi cymdeithasol, megis addysg a mentrau'r llywodraeth, sy'n ceisio gwella iechyd maethol.

Yn olaf, bydd y dysgwyr yn cynnal ymchwiliad meintiol o gymeriant bwyd unigolyn a ddewiswyd dros gyfnod o dri diwrnod, gan ei ddadansoddi yng nghyswllt dewisiadau iechyd a ffordd o fyw yr unigolyn dan sylw.

Ar ôl cwblhau'r uned, dylai'r dysgwyr fedru cymhwyso eu dealltwriaeth er mwyn hybu egwyddorion bwyta'n iach wrth gynnal defnyddwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Ddeall cysyniadau iechyd maeth
- 2 Gwybod beth yw nodweddion maetholynnau
- 3 Deall y dylanwadau ar gymeriant deietegol a iechyd maeth
- 4 Gallu defnyddio gwybodaeth ddeietegol a gwybodaeth berthnasol arall a geir gan unigolyn i lunio argymhellion ar gyfer gwella iechyd maethol.

Cynnwys yr uned

1 Deall cysyniadau iechyd maeth

Cysyniadau: bwyd, deiet, prydau a byrbrydau, maetholynnau

Iechyd maeth: diffyg maeth, tanfaethiad, diffygion, bod dros bwysau, gordewdra

Mesurau maeth: cydbwysedd maeth ac egni, siartiau twf, pwysau mewn perthynas â thaldra a rhyw, Mynegai Mas y Corff (BMI); union gymeriant bwyd, cymeriant a argymhellir: Gwerthoedd Cyfeiriadol Deietegol, Cymeriant Maetholynnau Cyfeiriadol; maetholynnau fesul dogn a fesul 100g o fwyd

Canllawiau cymeriant deietegol: Plât Bwyta'n Dda, grwpiau bwyd, pum dogn y dydd; effaith dulliau paratoi/prosesu bwyd

Materion maeth cyfredol: un o'r canlynol, e.e. labelu bwyd, bwyd organig, bwydydd a addaswyd yn enetig, agweddau amgylcheddol ar gynhyrchu bwyd, ychwanegion iechyd a ragnodwyd eich hun, triniaethau gordewdra, hysbysebu bwyd, anghydraddoldebau bwyd byd-eang

2 Gwybod beth yw nodweddion maetholynnau

Nodweddion: ffynonellau deietegol, swyddogaeth yn y corff, newidiadau wrth brosesu, e.e. gwres, storio, rhewi

Carbohydradau: siwgrau, starts, polysacaridau di-starts; amnewidion siwgr, e.e. melyswyr artiffisial, sorbitol

Proteinau: polypeptidau, asidau amino hanfodol ac anhanfodol

Lipidau: braster mono-annirlawn ac amlannirlawn; braster dirlawn, cis a trans; colesterol

Fitaminau: hydawdd mewn braster, e.e. A, D, E a K; hydawdd mewn dŵr: Grŵp B, C

Mwynau: haearn, calsiwm, eraill, e.e. magnesiwm, sodiwm, potasiwm, seleniwm, sinc

Egni: ffynonellau deietegol, ar ffurf kilocalorïau a kilojoules, gwerthoedd ynni protein, braster, carbohydrad ac alcohol

Treuliant arall cysylltiedig â deiet: dŵr, ffeibr deietegol, alcohol

Cyd-destun ffisiolegol: swyddogaethau maetholynnau wedi eu hesbonio trwy ddefnyddio terminoleg ffisiolegol briodol sy'n berthnasol i systemau'r corff a phrosesau metabolaidd, e.e. wedi ei drosi yn yr afu i asidau brasterog a gaiff eu storio yn y meinwe adipos, amsugno calsiwm yn y coluddyn bach

Grwpiau: plant ifanc, pobl ifanc, oedolion, pobl hyn, menywod beichiog a mamau sy'n bwydo ar y fron

3 Deall y dylanwadau ar gymeriant bwyd a iechyd maeth

Ffactorau iechyd: cyflwr iechyd gwaelodol sy'n arwain at anghenion penodol o ran maetholynnau, e.e. diabetes, clefyd coeliag, syndrom coluddyn llidus, anoddefedd lactos, alergedd bwyd; colli'r gallu i fwydo'n annibynnol, e.e. yn sgîl parlys; colli swyddogaeth, e.e. gwybyddol, treuliol

Arferion deiet: dylanwadau, e.e. patrymau prydau, byrbrydau, chwaeth personol, argaeledd bwyd

Ffordd o fyw: dylanwadau e.e. bwyta gartref, bwyta ac yfed cymdeithasol, ymarfer corff/lefelau gweithgaredd, galwedigaeth (actif, disymud), gweithgareddau hamdden

Economaidd: dylanwadau, e.e. cost bwyd, mynediad i siopau; cyflenwad bwyd, e.e. amrywiadau tymhorol

Sosio-ddiwylliannol: dylanwadau, e.e. credoau, cymdeithasoli, defodau bwyd, rôl bwyd mewn teuluoedd a chymunedau

Addysg: dylanwadau, e.e. iechyd cyhoeddus, addysg iechyd, hylendid bwyd, marchnata a labelu; rôl gweithwyr iechyd proffesiynol, e.e. deietegwyr, maethegwyr iechyd cyhoeddus, meddygon, nyrsus, gofalwyr, maethegwyr chwaraeon, hyfforddwyr iechyd a ffitrwydd

Polisi cymdeithasol: deddfwriaeth, rheoliadau a polisïau, e.e. Deddf Plant 2004, Mae Pob Plentyn yn Cyfri, Safonau Maeth ar gyfer Ciniawau Ysgol a Bwyd Ysgol Arall 2006, mentrau eraill, e.e. Ysgolion Iach, Safonau Cenedlaethol Gofynnol ar gyfer Arlwyo mewn Cartrefi Gofal

4 Gallu defnyddio gwybodaeth ddeietegol a gwybodaeth berthnasol arall a geir gan unigolyn i lunio argymhellion ar gyfer gwella iechyd maethol

Cofnod cymeriant bwyd: cofnod dros gyfnod o dri diwrnod, yr holl fwyd a fwytawyd gan gynnwys prydau, byrbrydau, diodydd, melysion, ychwanegion; maint y dognau, prosesu manylion fel sy'n berthnasol i amllder y dadansoddiad maethol

Ffynonellau gwybodaeth faeth: tablau dadansoddi bwyd (cronfa ddata neu wedi eu hargraffu), tablau meintiau dognau, pecynnu (yn enwedig ar gyfer bwydydd wedi eu prosesu)

Dadansoddiad meintiol: i gynnwys egni, protein, braster, haearn, fitamin C, cymeriant ffibr, cyfran yr egni a ddaw o fraster

Cryfderau a gwendidau: mewn perthynas ag RNI, targedau iechyd cyffredinol, e.e. pum dogn y dydd, cynrychioedd y cymeriant tri diwrnod a fesurwyd o ran arferion deiet arferol

Cynllun maeth: i gynnwys prydau, byrbrydau, diodydd, arweiniad ar faint dognau, e.e. nifer, pwysau/swm

Gweithgaredd: cofnod o'r amser y dydd a dreuliwyd yn cysgu, yn eistedd, yn cerdded (yn gyflym/araf), ar ymarfer corff arall, e.e. chwaraeon, er mwyn amcangyfrif yr egni a dreuliwyd yn feunyddiol

Dylanwadau ffordd o fyw: fel sy'n berthnasol, e.e. dewisiadau o ran hoff
fwydydd, diwylliannol, economaidd, cymdeithasol, argaeledd amser;
amrywiadau o ddydd i ddydd, e.e. dyddiau'r wythnos/penwythnosau

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd theilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 esbonio cysyniadau sy'n gysylltiedig â iechyd maethol [MC1; MC2; HR2]		
LI2 disgrifio nodweddion maetholynnau a'u manteision i'r corff [YA4; MC4; HR2]	T1 trafod nodweddion tebyg a gwahaniaethau gofynion maeth ac egni dau grwp o unigolion	
LI3 esbonio dylanwadau posib ar gymeriant deietegol [YA1; YA3; YA4; MC2; MC3; HR2]	T2 asesu sut gall dylanwadau ar gymeriant deietegol effeithio ar iechyd maethol unigolion	Rh1 gwneud argymhellion ymarferol ar gyfer cyfyngu gymaint â phosib ar y dylanwadau negyddol ar unigolion mewn lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol penodol
LI4 cynnal dadansoddiad meintiol o gymeriant dyddiol maetholynnau ac egni gan un unigolyn [YA2; YA5; DM3; DM5; HR2]	T3 asesu sut bydd y cynllun yn diwallu anghenion maethol yr unigolyn a ddewiswyd.	
LI5 paratoi cynllun un wythnos i wella iechyd maeth yr unigolyn a ddewiswyd. [YA6; MC2; MC3; HR2]		Rh2 gwerthuso sut gallai'r cynllun maeth wella iechyd yr unigolyn dan sylw.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwyr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 22: Methodoleg Ymchwil ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cod yr Uned:	K/600/8977
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	15
Oriau dysgu dan arweiniad:	90

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth y dysgwyr o ddiben ymchwil yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol a'r goblygiadau a'r materion moesegol sydd yn gysylltiedig â'r ymchwil honno. Bydd y dysgwyr yn gallu archwilio gwahanol fethodolegau ymchwil, gan eu galluogi i gynllunio a chynnal eu hymchwil eu hunain yng nghyswllt mater iechyd neu ofal cymdeithasol, a gwerthuso llwyddiant y canlyniadau.

Cyflwyniad i'r uned

Mae llawer o'r gwaith ym maes iechyd a gofal cymdeithasol wedi ei wreiddio mewn arfer seiliedig ar dystiolaeth. Mae o fantais i'r rhai sydd am gael gyrfa yn y sectorau hyn feddu ar ddealltwriaeth glir o fethodoleg ymchwil er mwyn gweithio'n foesegol ac yn effeithiol wrth gynnal eu hymchwil. Gellir hysbysu'r dewis o bwnc gan ddiddordeb neu fwriadau gyrfa penodol. Bydd yr uned hon yn darparu sylfaen dda ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno symud ymlaen i addysg uwch neu o fewn eu dewis o yrfa.

Ar y cychwyn, bydd angen i'r dysgwyr ystyried pwysigrwydd a swyddogaeth ymchwil yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, er enghraifft, y rôl mae ymchwil yn ei chwarae yn natblygiad polisi. Bydd y dysgwyr yn archwilio methodoleg ymchwil sy'n briodol i'r sectorau. Rhaid i ddysgwyr ddangos dealltwriaeth o egwyddorion moesegol a sicrhau cymeradwyaeth i'w cynlluniau cyn cychwyn ar eu prosiect. Yn rhan olaf yr uned, bydd y dysgwyr yn cael cyfle i ymchwilio i'r pwnc a ddewiswyd ganddynt, i gyflwyno eu canfyddiadau, ac i werthuso llwyddiant y prosiect.

Mae cysylltiadau penodol rhwng yr uned hon ac *Uned 46: Llythrennedd Academaidd yn y Sectorau Iechyd a Gofal Cymdeithasol* ac *Uned 6: Datblygiad Personol a Phroffesiynol ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol*. Bydd yr uned hefyd yn cefnogi dysgwyr i ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o feysydd astudio penodol a gynigir trwy'r unedau arbenigol yn y cymhwyster hwn, er enghraifft, *Uned 23: Therapiau Cyflenwol ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol*, neu *Uned 38: Iechyd Amgylcheddol*. I gyflawni'r uned hon, bydd angen i ddysgwyr ddangos menter, cymryd cyfrifoldeb a rheoli eu hamser yn effeithiol, a bydd hynny'n darparu cyfleoedd ardderchog i asesu sgiliau personol, dysgu a meddwl.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Ddeall swyddogaeth ymchwil ym maes iechyd a gofal cymdeithasol
- 2 Deall materion moesegol sy'n gysylltiedig ag ymchwil ym maes iechyd a gofal cymdeithasol
- 3 Deall y methodolegau ymchwil sy'n berthnasol i iechyd a gofal cymdeithasol
- 4 Gallu cynllunio ar gyfer prosiect ymchwil
- 5 Gallu cynnal ymchwil sy'n berthnasol i gyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol
- 6 Gallu dehongli canfyddiadau ymchwil.

Cynnwys yr uned

1 Deall swyddogaeth ymchwil ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

Swyddogaeth: nodi angen; amlygu bylchau yn y ddarpariaeth; cynllunio'r ddarpariaeth; hysbysu polisi neu arfer; estyn gwybodaeth a dealltwriaeth; gwella arfer; cynorthwyo myfyrio; caniatáu monitro cynnydd; archwilio pynciau sy'n bwysig ar y pryd

2 Deall materion moesegol sy'n gysylltiedig ag ymchwil ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

Egwyddorion moesegol: amddiffyn rhag niwed (peidio â niweidio) caniatâd gwybodus (gwirfoddol); cyfrinachedd; sicrhau cymeradwyaeth foesegol

Materion moesegol: hawliau dynol; rôl y cyfryngau; defnyddio a chamddefnyddio ymchwil; natur agored i niwed grwpiau o gleientiaid

Goblygiadau: o ran moeseg, e.e. pwy sy'n comisiynu ymchwil, dilysrwydd, dibynadwyedd, effaith adroddiadau allweddol ar wasanaethau a phobl sy'n eu defnyddio, canlyniadau/manteision canfyddiadau, effaith dylanwad cyhoeddiadau, mynediad i wybodaeth

Deddfwriaeth a pholisi: Deddf Hawliau Dynol; Deddf Diogelu Data; codau ymarfer y sector; polisiau a gweithdrefnau

3 Deall y methodolegau ymchwil sy'n berthnasol i iechyd a gofal cymdeithasol

Mathau o ymchwil: meintiol; ansoddol; cynradd; eilaidd

Ffynonellau cychwynnol: holiaduron; cyfweiliadau strwythuredig a heb eu strwythuro; arbrawf gwyddonol; arsylwi ffurfiol ac anffurfiol; mesuriadau

Ffynonellau eilaidd: llythrennedd gwybodaeth, e.e. gwefan, cyfnodolion, cyfryngau, llyfrau, e-adnoddau; adolygu'r llenyddiaeth, e.e. dethol gwybodaeth, dehongli, dadansoddi, synthesis; data, e.e. graffiau, tablau, ystadegau

4 Gallu cynllunio ar gyfer prosiect ymchwil

Cynllunio: cynllun gweithredu, terfynau amser; methodoleg; grŵp targed; caniatâd

5 Gallu cynnal ymchwil sy'n berthnasol i gyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol

Pwnc: dethol, e.e. testun, cwestiwn, damcaniaeth, rhesymeg; perthnasedd i'r sector, cyflawnadwy, ymarferol

Cynnal yr ymchwil: ffynonellau eilaidd; casglu data; monitro, addasu

6 **Gallu dehongli canfyddiadau ymchwil**

Dadansoddiad: dulliau, e.e. defnyddio meddalwedd TG i brosesu gwybodaeth ystadegol; casglu data, cyflwyno data, triongli, cynrychiolaeth graffigol

Data: cynrychioli a dehongli, e.e. tablau, graffiau, siartiau bar, histogramau, siartiau cylch, cymedr, canolrif, modd

Gwerthuso: dod i gasgliadau, cymharu â'r nodau, ystyriaethau moesegol, tuedd, gwall, perthynas y canlyniadau ag ymchwil gyfredol, cyfyngiadau'r ymchwil, cryfderau a gwendidau, meysydd posib ar gyfer datblygiad pellach, goblygiadau ar gyfer y sector, argymhellion

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 deall swyddogaeth ymchwil ym maes iechyd a gofal cymdeithasol [YA6]	T1 trafod swyddogaeth ymchwil mewn maes diddordeb a ddewiswyd	
LI2 trafod materion moesegol sy'n ymwneud ag ymchwil yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol [YA3; CE1]		Rh1 asesu methodolegau ymchwil yng nghyswllt sicrhau dilysrwydd canfyddiadau
LI3 cymharu gwahanol fethodolegau ymchwil ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol [YA6; MC2]	T2 cyfiawnhau'r methodolegau ymchwil a ddewiswyd ar gyfer y prosiect	
LI4 cynllunio prosiect ymchwil [YA1; YA2; YA3; MC2; MC5; DM2; DM3; HR3; CE1; CE3]		
LI5 cynnal y prosiect ymchwil a gynlluniwyd	T3 asesu cryfderau a gwendidau'r prosiect ymchwil o ran cyflawni'r nodau neu'r ddamcaniaeth	Rh2 gwerthuso sut gallesid gwella'r prosiect ymchwil.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI6 adrodd am ganfyddiadau a chasgliadau'r prosiect ymchwil. [CE2]	T4 asesu canfyddiadau'r prosiect ymchwil mewn perthynas â'r ddamcaniaeth wreiddiol.	

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwyr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol MC - meddylwyr creadigol	DM - dysgwyr myfyriol GT - gweithwyr tîm	HR - hunanreolwyr CE - cyfranogwyr effeithiol
----------------	--	---	--

Uned 23: Therapïau Cyflenwol ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cod yr Uned:	L/601/2410
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi'r dysgwyr i ymchwilio i ddefnydd o therapïau cyflenwol mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd y dysgwyr yn gallu archwilio rôl therapïau cyflenwol wrth gynnal iechyd a lles, a'u cymharu â thriniaethau traddodiadol.

Cyflwyniad i'r uned

Er mwyn gallu edrych yn fwy cyfannol ar feddyginiaeth a gofal iechyd, mae angen i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol ddeall yr ystod bosib o therapïau cyflenwol a sut gellir eu defnyddio i ategu meddyginiaeth gonfensiynol a thraddodiadol.

Mae therapïau cyflenwol yn dod yn fwy poblogaidd ym Mhrydain heddiw, ac mae rhai triniaethau ar gael yn aml fel rhan o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Nod yr uned hon yw darparu dealltwriaeth y dysgwyr o amrywiaeth o therapïau cyflenwol, ac yn arbennig eu rôl mewn perthynas â meddyginiaeth gonfensiynol.

Bydd dysgwyr yn ystyried manteision therapïau cyflenwol o ran iechyd a lles, yn ogystal â nodi unrhyw wrtharwyddion a materion iechyd a diogelwch yng nghyswllt eu defnydd. Edrychir ar effeithiolrwydd rheoleiddio gwahanol therapïau a'u hymarferwyr.

Bydd yr uned hon o ddefnydd i ddysgwyr sydd naill ai'n bwriadu mynd ymlaen i weithio yn y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol wedi cwblhau'r rhaglen, neu'r rhai sydd am symud ymlaen i astudiaeth bellach neu uwch. Bydd yn ehangu profiadau dysgwyr wrth iddynt symud drwy'r rhaglen.

Mae'r uned yn ystyried natur gyfannol iechyd a gofal cymdeithasol, ac felly mae'n cysylltu â llawer o unedau eraill yn y rhaglen.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Ddeall therapïau cyflenwol y gall defnyddwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol eu defnyddio
- 2 Deall rôl therapïau cyflenwol mewn perthynas â thriniaethau traddodiadol
- 3 Deall rôl therapïau cyflenwol wrth gynnal iechyd a lles.

Cynnwys yr uned

1 Deall therapïau cyflenwol y gall defnyddwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol eu defnyddio

Darpariaeth: darpariaeth breifat; gwasanaethau a ddefnyddir gan y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol

Dylanwadu ar fynediad: ffactorau, e.e. corfforol/daearyddol, sosio-economaidd, diwylliannol, addysg, systemau cyfeirio

Amlinelliad o'r egwyddorion a'r arferion: defnyddiau cyffredin o therapïau; gwrtharwyddion

Therapïau cyflenwol: mathau, e.e. aciwbigo, Techneg Alexander, aromatherapi, therapi celf, Ayurveda, meddyginiaethau blodau Bach, halwynau meinwe biocemeg, biorhythmau, techneg Bowen, ciropacteg, therapi lliw, therapi creuanol-sacrol, pensaernïaeth Feng Shui, meddyginiaeth lysieuol, homeopathi, hydrotherapi, hypnotherapi, cinesioleg, therapi maeth, tylino, naturopathi, osteopathi, adweitheg, iachâd Reiki, ymlacio

Triniaeth: arwyddion a symptomau, egwyddorion gweinyddu, amllder/dognau a weinyddir

Manteision/anfanteision: manteision honedig, e.e. gwella iechyd, lleddfu symptomau; gwrtharwyddion, niwed cynhenid

Rheoleiddio: fel sy'n berthnasol, e.e. deddfwriaeth, codau moeseg, codau ymarfer, hunan-reoleiddio, gorfodaeth; effeithiolrwydd, e.e. lleiafu risgiau, manteision, datblygu dealltwriaeth y cyhoedd

2 Deall rôl therapïau cyflenwol mewn perthynas â thriniaethau traddodiadol

Swyddogaeth: diagnostig, therapiwtig; ar gyfer gwahanol anhwylderau; cysylltu â thriniaethau traddodiadol, triniaeth annibynnol

Cyhyrysgerbydol: anhwylderau, e.e. esgyrn, cymalau, cyhyrau, symudedd, poen

Metabolaidd: anhwylderau, e.e. prosesau treulio a gwaredu, gweithrediad endocrinaidd, gweithrediad imiwnedd, gweithrediad atgenhedlol

Cardio-resbiradol: anhwylderau, e.e. gweithrediad yr ysgyfaint, gweithrediad cardiofasgwlaidd

Seicolegol: iechyd meddwl, e.e. straen, iselder; rhai ag anawsterau dysgu, e.e. awtistiaeth, ADH

3 Deall rôl therapïau cyflenwol wrth gynnal iechyd a lles

Manteision/anfanteision: problemau neu gyflyrau lle mae tystiolaeth bod therapïau'n gwella/nad ydynt yn gwella cyflyrau

Tystiolaeth: astudiaethau clinigol a gynhaliwyd, therapïau cyflenwol yn gweithio ochr yn ochr â meddyginiaeth draddodiadol

Gwybodaeth: ffynonellau, e.e. ymarferwyr therapïau, gweithwyr iechyd proffesiynol, ffynonellau masnachol, gwyddoniaeth, ymchwil systematig

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 esbonio'r ffactorau sy'n effeithio ar fynediad i therapïau cyflenwol [YA3; YA4; MC2; MC4]	T1 trafod therapïau cyflenwol sydd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol	Rh1 gwerthuso rôl dau therapi cyflenwol yn y gymdeithas gyfoes
LI2 esbonio sut rheoleiddir y defnydd o therapïau cyflenwol		
LI3 esbonio egwyddorion ac arferion therapïau cyflenwol [MC4]	T2 cymharu rôl dau therapi cyflenwol ag eiddo triniaethau mwy traddodiadol	
LI4 esbonio rôl therapïau cyflenwol mewn perthynas â thriniaethau traddodiadol [YA3; MC2; MC4]		
LI5 esbonio manteision ac anfanteision therapïau cyflenwol wrth gynnal iechyd a lles. [YA3; MC2; MC4]	T3 trafod rôl dau therapi cyflenwol wrth gynnal iechyd a lles.	Rh2 gwerthuso effeithiolrwydd dau therapi cyflenwol wrth gynnal iechyd a lles.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwyr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 24: Cyflwyniad i Sgiliau Cwnsela ar gyfer Lleoliadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cod yr Uned:	T/600/8979
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw cyflwyno'r dysgwyr i egwyddorion ac arfer bod yn 'gynorthwy-ydd â sgiliau' fel eu bod yn gallu datblygu'r gallu i reoli ac estyn cwnpas cynhaliol perthynas gynorthwyol, gan ddefnyddio sgiliau cwnsela.

Cyflwyniad i'r uned

Mewn unrhyw leoliad iechyd a gofal cymdeithasol lleoliad, bydd gofyn bod gweithwyr ar bob lefel yn gwrando ar gleifion, cleientiaid, eu ffrindiau a'u perthnasau sy'n mynegi eu barn, eu pryderon a'u hemosiynau. Gall y rhyngweithio hwn fod yn gymhleth ac weithiau'n anodd, felly mae'n bwysig bod gan weithwyr y sgiliau a'r ffiniau proffesiynol angenrheidiol i fod yn gynorthwywyr effeithiol yn y sefyllfaoedd hyn, ac i'w cadw eu hunain yn ddiogel yn emosiynol.

Mae angen i weithwyr fod yn ymwybodol o gwmpas a chyfyngiadau perthnasoedd cynorthwyol, a'r ffordd orau o ddefnyddio eu gwybodaeth a'u sgiliau gyda'r cleient ac ar ei ran. Gall i ba raddau mae ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn dod yn wrandawyr effeithiol ddibynnu ar sgiliau cynhenid a rhai a addysgir. Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar adnabod, ymarfer, a datblygu ystod o sgiliau rhyngbersonol a chwnsela.

Bydd dysgwyr yn datblygu'r wybodaeth waelodol a'r gallu i gychwyn, cynnal a chloi rhyngweithiad gyda chleient/claf, y tu hwnt i fod yn wrandawr effeithiol hyd at lefel cynorthwy-ydd â sgiliau. Byddant yn deall ac yn ymarfer paramedrau y sgiliau a ddefnyddir mewn perthnasoedd cynorthwyol o'r fath, gan gynnwys rheoli'r broses a, lle bo angen, cyfeirio'r cleient at ffynonellau amgen o gefnogaeth.

Mae'n bwysig nodi na fydd dysgwyr yn gymwys i wneud gwaith cwnsela i gleientiaid ar ôl cwblhau'r uned hon. Mae angen rhaglen helaeth o astudiaethau ychwanegol, lefel uwch, ac ymrwymiad i gyfnod o therapi personol er mwyn dod yn ymarferydd cwnsela, ac yn gymwys i gael achrediad a/neu i ymaelodi â chorff proffesiynol.

Addysgir technegau gwrando a holi effeithiol, yn ogystal â sut i gadw o fewn ffiniau perthynas gynorthwyol foesegol, ochr yn ochr â'r ddealltwriaeth bod angen adolygu a datblygu sgiliau'r unigolyn yn barhaus.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Wybod y prosesau ar gyfer cychwyn, cynnal, datblygu a chloi perthynas gynorthwyol gan ddefnyddio sgiliau cwnsela
- 2 Gallu defnyddio sgiliau cwnsela i gychwyn, cynnal, datblygu a chloi perthynas gynorthwyol
- 3 Gallu gwerthuso datblygiad eu sgiliau cwnsela eu hunain
- 4 Gwybod am weithdrefnau cyfeirio a materion ffiniau.

Cynnwys yr uned

1 Gwybod y prosesau ar gyfer cychwyn, cynnal, datblygu a chloi perthynas gynorthwyol gan ddefnyddio sgiliau cwnsela

Cychwyn perthynas: pryderon moesegol; ffiniau'r berthynas; derbyn eu cyfyngiadau eu hunain; cyfleu cyfyngiadau'r berthynas gynorthwyol; cyfleoedd cyfartal; lleoliad priodol; trefnu'r cyswllt cyntaf; contractio, cyfrinachedd; datblygu perthynas empathetig; cyfeirio cynnar

Strategaethau: sgiliau herio; cyfleu dealltwriaeth empathetig ddyfnach; galluogi a rheoli cyfnodau o ddistawrwydd, ymatebion amser, rheoli teimladau personol ac agenda, defnyddio'r 'presennol'

Datrys problemau a gwneud penderfyniadau: hwyluso hunan-ddealltwriaeth cleientiaid; rhoi blaenoriaeth i bryderon cleientiaid; adolygu syniadau cyfoes; hwyluso canfod atebion gan y cleient ei hun; annog meddwl yn greadigol; mapiau meddwl; strategaethau ar gyfer hunan-gymorth; canfod ffynonellau o gymorth

Integreiddio: defnyddio ystod o sgiliau cynorthwyo mewn modd strwythuredig a chydlynus

Manteision i'r cleient: monitro'r rhyngweithio mewn amser go iawn, nodi cyswllt â'r cleient, adolygu a chrynhof canlyniadau, nodi a rheoli dylanwadau'r cleient a'r cynorthwy-ydd

Yn y diwedd: cynnig gwybodaeth ddiduedd, cyfeiriadau, galluogi cleientiaid i ddewis strategaethau priodol a llunio cynllun

2 Gallu defnyddio sgiliau cwnsela i gychwyn, cynnal, datblygu a chloi perthynas gynorthwyol

Arddangos sgiliau: Cysyniad Rogers o amodau craidd yn sail ar gyfer pob defnydd o sgiliau cwnsela; rhoi sylw i'r cleient; cadw'r cleient yn ganolog i bob rhyngweithio; defnydd o anogaeth briodol; ymateb yn gynnes ac yn ddiffuant; bod yn empathetig; parch at y cleient; rhoi dyfarniadau gwerth personol o'r neilltu; aralleirio a chrynhof deunydd gan gleientiaid; cyfleu'r cynnwys a'r ystyr; cyfleu'r teimladau; defnydd priodol o gwestiynau; defnydd o fodel cyfnodau Egan 3 ar gyfer cynorthwyo

3 **Gallu gwerthuso datblygiad eu sgiliau cwnsela eu hunain**

Cryfderau a gwendidau: crynhoi elfennau allweddol, hunan-fyfyrio, hunan-werthuso sgiliau, gwella canlyniadau cleientiaid, gwella eu sgiliau eu hunain, gwella gwybodaeth i gynnal y defnydd o sgiliau, ffactorau grŵp, cyfrinachedd

Goruchwylio sgiliau: arsylwi ac adborth gan, e.e. cyfoedion, hwylusydd y cwrs, goruchwyliwr; cynnig a derbyn beirniadaeth ac adborth adeiladol; defnyddio adborth i ddatblygu gwaith ar sgiliau

Hunan-werthuso sgiliau: ymwybyddiaeth o'u terfynau eu hunain, twf datblygiad personol, hunan-ymwybyddiaeth, gallu datblygu a symud ymlaen

4 **Gwybod am weithdrefnau cyfeirio a materion ffiniau**

Systemau cynnal yng nghyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol: yr ystod o wasanaethau sydd ar gael; cyfathrebu rhwng gwahanol weithwyr proffesiynol a gofalwyr; ac eraill sy'n ymwneud â helpu'r cleient, e.e. teulu, ffrindiau, partner, cydweithwyr, cyfoedion

Cyfeirio: rhesymau dros gyfeirio, argaeledd sefydliadau y gellir cyfeirio cleientiaid atynt, hygyrchedd sefydliadau y gellir cyfeirio cleientiaid atynt

Ymrwymadau cleientiaid: amser; amllder; costau; dod yn rhan o'r broses

Materion ffiniau: cyfrinachedd, terfynau eu sgiliau personol, gwrthwynebiad gan gleientiaid, gwrthwynebiad gan ymarferwyr

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio prosesau ar gyfer cychwyn, cynnal, datblygu a chloi perthynas gynorthwyol [HR1; HR2; CE3]	T1 asesu sut dylai integreiddio sgiliau cwnsela gynnal cleientiaid	
LI2 arddangos defnydd o sgiliau cwnsela mewn amgylchedd wedi ei efelychu [MC5; HR5; HR6; HR7; CE4; CE5]		
LI3 adolygu cryfderau a gwendidau datblygiad ac ymarfer eu sgiliau cwnsela eu hunain [DM3; DM4]	T2 asesu sut mae datblygiad sgiliau cwnsela yn effeithio ar hunan-ddatblygiad	Rh1 dadansoddi eu cryfderau a'u gwendidau eu hunain wrth ddefnyddio sgiliau cwnsela
LI4 disgrifio pwysigrwydd cyfeirio at sefydliadau eraill [GT3]	T3 trafod sut gall goruchwyliaeth ac adborth gan gyfoedion wella'r defnydd o sgiliau a hunan-ddatblygiad.	Rh2 gwerthuso effeithiolrwydd y defnydd o sgiliau cwnsela o ran helpu prosesau cleientiaid wrth wneud penderfyniadau.
LI5 disgrifio materion ffiniau posib a allai godi mewn perthynas gynorthwyol. [YA3; YA5]		

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwyr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 25: Ymdopi gyda Newid mewn Cyd-destun Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cod yr Uned:	K/600/8980
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	5
Oriau dysgu dan arweiniad:	30

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi'r dysgwyr i edrych ar natur hunan-gysyniad a sut gall newid effeithio ar hynny. Bydd y dysgwyr hefyd yn gallu archwilio rôl gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol wrth ddarparu cynhaliaeth briodol.

Cyflwyniad i'r uned

Bydd dysgwyr yn ymchwilio i theorïau a phrosesau pontio, ynghyd â'r llwybrau posib a gymerir gan unigolion, er mwyn datrys argyfyngau ac addasu i fywyd y tu hwnt i'r newidiadau sydd wedi digwydd. Cydnabyddir bod deall hunan-gysyniad yn ganolog i ddehongli ymatebion unigol i newidiadau pwysig. Mae cynnal unigolyn sy'n profi newid bywyd pwysig yn rhan annatod o'r rôl iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd yr uned hon yn galluogi dysgwyr i adnabod yr angen am gysylltu cynhaliaeth o'r fath ag anghenion yr unigolyn, er mwyn darparu llwybr cyfannol ar hyd y cyfnod pontio.

Mae'r uned yn edrych ar gyfnodau galar a phrofedigaeth a natur anochel marwolaeth yn sgil salwch angheuol. Bydd y dysgwyr yn ymchwilio i ddulliau a ffynonellau cynhaliaeth, yn rhai proffesiynol a gwirfoddol, sydd ar gael i unigolion sy'n ymdopi â newid. Mae gan yr uned hon gysylltiadau ag unedau eraill, gan gynnwys *Uned 4: Datblygiad ar hyd Cyfnodau Bywyd*, *Uned 6: Datblygiad Personol a Phroffesiynol ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol*, *Uned 28: Gofalu am Bobl Hŷn* ac *Uned 30: Seicoleg Iechyd*. Bydd y dysgwyr hefyd yn cael cyfle i gyflawni Sgiliau Swyddogaethol ym meysydd TGCh a Saesneg ar Lefel 2.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Ddeall natur yr hunan-gysyniad a'r cysylltiadau rhyngddo a hunan-barch
- 2 Deall effaith bosib newidiadau bywyd pwysig ar yr hunan-gysyniad
- 3 Deall rôl y gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol wrth gynnal trawsnewid a newid.

Cynnwys yr uned

1 Deall natur yr hunan-gysyniad a'r cysylltiadau rhyngddo a hunan-barch

Natur a datblygiad yr hunan-gysyniad: hinsawdd hybu twf; gweld yr hunan yn y drych; hunan-sylweddoli; hunaniaeth yr ego; hunaniaeth gymdeithasol; creu'r hunan

Hunan-barch: damcaniaethwyr, e.e. Rogers, Pedwar Cyfnod Ymlyniad Bowlby, Harter S., Graddfa Hunan-barch, Baumeister, Hierarchaeth Anghenion Maslow

2 Deall effaith bosib newidiadau bywyd pwysig ar yr hunan-gysyniad

Newidiadau bywyd: digwyddiadau pwysig, e.e. gwrthodiad, colli rhieni, colli partner, colli perthynas â rhywun, colli swydd, colli symudedd, cychwyn salwch cronig/angheuol; yr effaith ar yr ymdeimlad o'r hunan a hunan-barch

Cyfnodau o drawsnewid: damcaniaethau ynghylch trawsnewid, trawsnewidiadau lluosog, argyfyngau estynedig, ymwybyddiaeth, gwadu, brwydr a datrysiad, munudau diffiniol

Galar a cholled: theorïau sy'n esbonio'r broses o alaru; cyfnodau galar, amrywiadau rhwng diwylliannau; rôl crefydd a chred; cysylltiadau â hunaniaeth bersonol a statws

Marw: theorïau sy'n esbonio sut mae unigolion yn cael profiad o farwolaeth, cyfnodau posib wrth ei dderbyn, amrywiadau rhwng diwylliannau, rôl crefydd a chred

Straen: cysylltiadau â thrawsnewid a newid; canlyniadau corfforol ac emosiynol straen, e.e. salwch, blinder, gallu cyfyngedig, iselder ac encilio; adnabod yr arwyddion, y symptomau a'r sbardunau; rheoli straen, e.e. rheoli emosiwn yn wybyddol, cwnsela, technegau ymlacio

3 Deall rôl y gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol wrth gynnal trawsnewid a newid

Personél: eu rôl, e.e. gweithwyr cymdeithasol, cwnselwyr, therapyddion gwybyddol, therapyddion teulu, nyrsys Macmillan, nyrsys ymarferwyr arbenigol

Mathau o gynhaliath: ariannol; ymarferol; emosiynol; penodol, e.e. therapi galar, rheoli salwch angheuol; delio gyda chamweithrediad teulu

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 trafod ffactorau a all effeithio ar ddatblygiad hunan-barch [YA3; YA6; MC2]	T1 cymharu dwy ddamcaniaeth ynghylch hunan-barch sy'n cyfrannu at ein dealltwriaeth o hunan-gysyniad	
LI2 esbonio effaith bosib newidiadau bywyd pwysig ar yr hunan-gysyniad [YA3; YA4; YA6; MC1; MC2]		
LI3 esbonio rôl un gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol wrth gynnal unigolion sy'n profi cyfnod o drawsnewid a newid. [YA1; YA4; MC1]	T2 trafod sut gall gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gydag unigolion sy'n profi cyfnod o drawsnewid a newid ddefnyddio tri math o gynhaliaeth.	Rh1 dadansoddi'r manteision i'r unigolyn sy'n profi cyfnod o drawsnewid a newid yn sgil un o'r mathau o gynhaliaeth a ddewiswyd.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwyr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 26: Gofalu am Unigolion sydd ag Anghenion Ychwanegol

Cod yr Uned:	M/600/8981
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	5
Oriau dysgu dan arweiniad:	30

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi'r dysgwyr i herio eu hagweddau at unigolion sydd ag anghenion ychwanegol trwy gyflwyno modelau o anabledd ac archwilio rhwystrau. Bydd y dysgwyr yn gallu edrych ar rôl y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o ran darparu gofal a chynhaliaeth.

Cyflwyniad i'r uned

Mae gan unigolion sydd ag anghenion ychwanegol hawl i dderbyn gofal a chynhaliaeth o'r ansawdd gorau. Mae'r uned hon yn edrych ar yr anghenion ychwanegol a brofir gan unigolion a sut y gall y rheiny effeithio ar eu hiechyd, eu lles a'u cyfleoedd bywyd. Gall fod angen darpariaeth gan nifer o wasanaethau ar unigolion ag anghenion ychwanegol, ac felly bydd gofyn i sefydliadau weithio mewn partneriaeth i asesu anghenion a darparu cynhaliaeth.

Bydd y dysgwyr yn edrych ar yr anghenion ychwanegol y gall unigolion eu profi, gan ystyried effeithiau posib eu hanghenion ar eu lles, eu hawliau a'u mynediad. Bydd dealltwriaeth y dysgwyr o anabledd yn cael ei herio trwy gyflwyniad i'r modelau o anabledd a'r ffactorau sy'n cyfrannu at y rhwystrau y mae unigolion ag anghenion ychwanegol yn eu hwynebu. Cyflwynir deddfwriaeth, fframweithiau a pholisïau, sy'n llywodraethu gwaith yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol ac yn cynnal hawliau unigolion sydd ag anghenion ychwanegol. Bydd rhan olaf yr uned yn galluogi'r dysgwyr i ystyried arfer cyfredol, gan gynnwys dull sy'n canolbwyntio ar y person.

Bydd yr uned hon yn cadarnhau'r hyn a ddysgwyd yn *Uned 2: Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau ym maes Iechyd* a Gofal Cymdeithasol, trwy roi gwybodaeth a dealltwriaeth yn eu cyd-destun. Gan y gall unigolion ag anghenion ychwanegol fod yn arbennig o agored i niwed, bydd *Uned 11: Diogelu Oedolion a Chynnal Annibyniaeth* yn arbennig o berthnasol, yn enwedig i'r rhai sy'n dymuno gweithio gydag unigolion sydd ag anghenion ychwanegol.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Wybod pam y gall fod gan unigolion anghenion ychwanegol
- 2 Deall y rhwystrau a wynebair gan unigolion sydd ag anghenion ychwanegol
- 3 Deall arfer cyfredol o ran darparu ar gyfer unigolion sydd ag anghenion ychwanegol.

Cynnwys yr uned

1 Gwybod pam y gall fod gan unigolion anghenion ychwanegol

Anghenion ychwanegol: corfforol; gwybyddol; synhwyraidd

Mathau o angen: genetig, e.e. syndrom down, ffibrosis cystig, anhwylderau cryman-gell; datblygiadol, e.e. anhwylderau'r sbectwm awtistig, anabledd dysgu; amgylcheddol, e.e. canlyniad arferion gwaith, cysylltiedig â chlefydau heintus; damweiniau, e.e. parlys cyfan, colli aelod; arall, e.e. strôc, nam synhwyraidd, salwch meddwl

2 Deall y rhwystrau a wynebair gan unigolion sydd ag anghenion ychwanegol

Anabledd a dibyniaeth fel lluniadau cymdeithasol: diffiniadau o nam ac anabledd

Modelau: meddygol; cymdeithasol; normaleiddio; dull cyfannol; effaith ar y gwasanaethau a ddarperir

Rhwystrau: camwahaniaethu; cyfleoedd cyflogaeth; diwylliannol; mynediad corfforol; agweddol; cyfathrebu; rhwystrau rhag mynediad a chyfleoedd; ariannol; diffyg dewis

3 Deall arfer cyfredol o ran darparu ar gyfer unigolion sydd ag anghenion ychwanegol

Gwasanaethau: statudol, preifat a thrydydd sector, e.e. gofal dydd, byw'n annibynnol, gofal cymunedol, cartrefi preswyl, ysbytai, addysg a hyfforddiant canolfannau iechyd

Egwyddorion gofal: amrywiaeth; parch; urddas; cyfrinachedd; arfer gwrth-wahaniaethol

Cynllunio person-ganolog: Fframwaith Asesu Cyffredin; asesiad ar sail anghenion; arfer integredig; annog twf personol; cydbwysu risg â hawliau unigolion; cefnogi dewis; grymuso

Arferion gwaith cadarnhaol: e.e. gofal personol, cyffyrddiad priodol; hybu'r ddelwedd o'r hunan, strategaethau ymdopi o hirbell, arfer diogel a diogelu; hybu annibyniaeth, galluogi, atgyfnerthu cadarnhaol; cynhaliaeth ariannol

Cefnogi cyfathrebu: cymhorthion cyfathrebu, e.e. eiriolwyr, arwyddwyr, cymhorthion technolegol; Makaton; cymhorthion gweledol a symbolau

Cynnal mynediad: corfforol, e.e. rampiau, darparu cymhorthion symudedd, cadeiriau olwyn, sgwteri symudedd, symbolau mynediad, cyfleusterau newid/toiled

Canllawiau: fel sy'n berthnasol i'r famwlad, e.e. codau ymarfer, siarteri a pholisïau, rôl Cyngor Gofal Cymdeithasol Cyffredinol Lloegr/Cyngor Gofal Cymru/Gogledd Iwerddon, Gwella Cyfleoedd Bywyd Pobl Anabl - Papur Gwyn, Strategaeth Newydd ar gyfer yr 21ain Ganrif i Anableddau Dysgu, Mynediad Teg i Wasanaethau Gofal

Deddfwriaeth a rheoliadau: fel sy'n berthnasol i'r famwlad, e.e. Mesur Cydraddoldeb 2010, Deddf Iechyd Meddwl 1983, Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, Deddf Hawliau Dynol, Deddf Diogelu Data, Rheoliadau Cartrefi Gofal Nyrso a Phreswyl, Deddf Safonau Gofal, Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl, Confensiwn y CU ar Hawliau Anabledd

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 amlinellu'r rhesymau pam y gall fod gan unigolion anghenion ychwanegol [YA3; YA4; MC2; MC4]	T1 asesu'r rhwystrau y gall unigolion sydd ag anghenion ychwanegol eu hwynebu, gan gyfeirio at fodolau o anabled	Rh1 gwerthuso arferion gwaith a'u potensial o ran torri rhwystrau i lawr a gwella lles a chyfleoedd bywyd unigolion sydd ag anghenion ychwanegol.
LI2 disgrifio modelau o anabled [MC4]		
LI3 esbonio rhwystrau y gall unigolion sydd ag anghenion ychwanegol eu hwynebu [YA3; MC2; MC4; CE4]		
LI4 esbonio arferion gwaith cadarnhaol gydag unigolion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. [YA4; YA6; MC2]	T2 trafod arferion gwaith cadarnhaol gydag unigolion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.	

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwyr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 27: Delio gydag Ymddygiad Heriol

Cod yr Uned:	T/600/8982
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	5
Oriau dysgu dan arweiniad:	30

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi dysgwyr i gaffael gwybodaeth am ymddygiad heriol a dod i ddeall y ddeddfwriaeth a'r canllawiau cysylltiedig. Bydd dysgwyr hefyd yn gallu ystyried sut gellid delio gydag ymddygiad heriol pe baent yn gweithio mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol.

Cyflwyniad i'r uned

Mae delio gydag ymddygiad heriol yn flaenoriaeth uchel i bobl sy'n gweithio yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Yn eu trefn feunyddiol, gall gweithwyr ddod ar draws amrywiaeth eang o ymddygiad a all gael effaith sylweddol, a niweidiol, ar ansawdd bywyd y rhai dan sylw. Mae'n bwysig felly bod dysgwyr yn deall ym mha gyd-destunau mae ymddygiad o'r fath yn digwydd, er mwyn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o achosion ac effeithiau ymddygiad heriol, a'r ystod o ddulliau a ddefnyddir i ddelio gydag ef.

Mae gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol wedi eu rhwymo gan godau ymarfer proffesiynol a deddfwriaeth sy'n pennu sut mae rhaid iddynt ymateb mewn sefyllfaoedd penodol. Rhaid i ddysgwyr ddeall y fframweithiau cyfreithiol hyn a'u canlyniadau posib i weithwyr a defnyddwyr gwasanaeth. Nod yr uned hon yw datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr yn y meysydd allweddol hyn ac mae'n darparu sylfaen ar gyfer unedau eraill yn y cymhwyster. Mae'n hanfodol o ran paratoi'r dysgwyr i gael y budd mwyaf o unrhyw brofiad gwaith a wnânt.

Er mwyn cwblhau'r uned, rhaid i ddysgwyr gymhwyso eu dysgu trwy gyfrannu at ddatblygiad strategaeth ar gyfer delio gydag ymddygiad heriol. Bydd angen iddynt ystyried y sgiliau y mae eu hangen i leiafu effeithiau ymddygiad heriol, megis adnabod 'sbardunau', a dulliau ymyrryd priodol.

Mae'r uned hon yn galluogi dysgwyr i asesu rhai o'r anawsterau sydd ynghlwm wrth weithio yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n addas i bob dysgwr sydd â diddordeb mewn gyrfa yn y sectorau hyn.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Wybod beth yw achosion ac effeithiau posib ymddygiad heriol
- 2 Deall deddfwriaeth a chanllawiau sy'n ymwneud ag ymddygiad heriol
- 3 Gallu cyfrannu at ddatblygiad strategaeth ar gyfer delio gydag ymddygiad heriol.

Cynnwys yr uned

1 Gwybod beth yw achosion ac effeithiau posib ymddygiad heriol

Enghreifftiau o ymddygiad heriol: camdriniaeth eiriol, e.e. sylwadau hiliol, bygythiadau, bwlio eraill; camdriniaeth ddi-eiriau; camdriniaeth gorfforol, e.e. ymosod ar eraill; ymddygiad hunan-ddinistriol; ymddygiad sy'n ddinistriol i bobl eraill; ymddygiad sy'n ddinistriol i eitemau yn yr amgylchedd; ymddygiad sy'n ddinistriol i eiddo; ymddygiad anghyfreithlon; effaith amrywiadau diwylliannol

Sbardunau: cynhenid, anghynhenid; ffactorau personol dros dro, e.e. teimlo'n anghysurus a/neu boen a achosir gan salwch; dylanwad alcohol/cyffuriau; ffactorau personol parhaol, e.e. bodolaeth anabled sy'n atal cyfathrebu, symudiad neu ymddygiad normal; ffactorau amgylcheddol dros dro, e.e. byw mewn llety dros dro; ffactor amgylcheddol parhaol, e.e. sŵn gormodol a/neu am gyfnod estynedig; adnabod effeithiau posib eu hymddygiad eu hunain ar ymddygiad pobl eraill; defnyddio a chamddefnyddio pŵer

Effeithiau posib ymddygiad heriol: ar les corfforol, emosiynol a chymdeithasol unigolion

2 Deall deddfwriaeth a chanllawiau sy'n ymwneud ag ymddygiad heriol

Confensiynau, deddfwriaeth a rheoliadau: adrannau perthnasol o ddeddfwriaeth sy'n cynnwys y Ddeddf Hawliau Dynol; Y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn; Deddf Plant; Deddf Safonau Gofal; Papur Gwyn: Gosod Gwerth ar Bobl; Strategaeth Newydd ar gyfer Anabledau Dysgu yn yr 21ain ganrif; Mae Pob Plentyn yn Cyfri, yn arwain at y Ddeddf Plant a'r Cynllun Plant; Deddf Iechyd Meddwl

Codau ymarfer: codau ymddygiad a sefydlwyd gan gyrff proffesiynol yn cynnwys Y Cyngor Gofal Cymdeithasol Cyffredinol/Cyngor Gofal Cymru/Cyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon (mae'r gyrff hyn yn darparu codau ymarfer a rheolau ymddygiad ar gyfer gweithwyr a chyflogwyr gofal cymdeithasol); Cyfansoddiad y GIG; Ofsted

Polisiau a gweithdrefnau trefniadol: yn ymwneud â rheoli ymddygiad, e.e. arferion gwaith, datblygu a hyfforddi staff, materion ansawdd, gweithdrefnau cwynion, gweithredu cadarnhaol, atal aflonyddu, hawliau dynol

3 Gallu cyfrannu at ddatblygiad strategaeth ar gyfer delio gydag ymddygiad heriol

Sut mae lleiafu effeithiau ymddygiad heriol: strategaethau ymdopi, gan gynnwys rheoli ymddygiad yn gadarnhaol; cynllunio person-ganolog; cyfathrebu effeithiol; iaith y corff; hybu hunan-barch; arfer gwrth-wahaniaethol; cymhwyso'r rheolau a'r ffiniau yn deg; arfer integredig; defnyddio strategaethau i rymuso a chynnwys unigolion sy'n ymddwyn yn heriol; ymwybyddiaeth o siartiau ABC; asesu risg; hyfforddi'r gweithlu; dilyn gweithdrefnau cydnabyddedig; rheoli'r hyn fydd yn digwydd o ganlyniad; datrys gwrthdaro

Defnyddio dulliau penodol: darparu cymorth gweithredol; gwaith partneriaeth; seicotherapi; therapi ymddygiad gwybyddol; meddyginiaeth; rhaglenni addasu ymddygiad

Dulliau ymyrraeth: dargyfeirio, tawelu, eu gwneud yn llai difrifol a delio gyda sefyllfaoedd; ceisio help; barnu'r amseru a'r dull sy'n briodol ar gyfer y sefyllfa a'r digwyddiad; cyfathrebu ac ymgynghori ag unigolion; cymhwyso gwobrau a/neu sancsiynau; cymhwyso meddyginiaeth; defnyddio ymyrraeth gorfforol yn unol ag amgylchedd a diwylliant sefydliad; defnyddio ataliaeth gorfforol briodol pan fo popeth arall wedi methu, e.e. ar blentyn neu oedolyn; parhau yn ddigwyffro ac o dan reolaeth yn wyneb pryfocio

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio nodweddion ac achosion ymddygiad heriol [YA1]	T1 trafod nodweddion ac achosion un math o ymddygiad heriol	
LI2 esbonio sut mae deddfwriaeth/canllawiau yn berthnasol i ymddygiad heriol [YA2]		
LI3 awgrymu strategaethau i leiafu effeithiau ymddygiad heriol mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. [MC2]	T2 trafod y strategaethau a ddefnyddir i leiafu effeithiau un math o ymddygiad heriol mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol.	Rh1 gwerthuso strategaethau ar gyfer delio gydag un math o ymddygiad heriol mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwyr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 28: Gofalu am Bobl Hŷn

Cod yr Uned:	A/600/8983
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	5
Oriau dysgu dan arweiniad:	30

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth o'r broses heneiddio a sut mae'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio mewn partneriaeth i hybu a chynnal annibyniaeth a lles pobl hŷn.

Cyflwyniad i'r uned

Dengys tueddiadau demograffig fod cynnydd yn nifer y bobl hŷn. Er mwyn ymateb i'w hanghenion iechyd a gofal cymdeithasol, mae dull integredig o asesu anghenion a chyflenwi gwasanaethau wedi cael ei fabwysiadu gan y sectorau. Mae polisiâu sy'n ymwneud â chynnal pobl hŷn a gofalu amdanynt yn adlewyrchu agweddau newidiol gweithwyr iechyd a gofal, sydd o'r farn bod pobl hŷn yn ganolog i gynllunio a chyflenwi gwasanaethau. Athroniaeth y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yw 'heneiddio'n iach', gyda ffocws ar hybu iechyd er mwyn lleihau'r angen am dderbyn i'r ysbyty neu i ofal cymdeithasol preswyl.

Bydd y dysgwyr yn astudio heneiddio fel proses, yn hytrach nag oedran penodol. Bydd gwerthoedd y dysgwyr eu hunain a'u hagweddau at bobl hŷn yn cael eu hystyried, gan herio dulliau o feddwl sy'n stereoteipio. Byddant yn ymchwilio i faterion sy'n ymwneud â heneiddio, ac yn datblygu dealltwriaeth o'r ffactorau a all effeithio ar annibyniaeth, iechyd a lles pobl hŷn. Byddant hefyd yn ystyried ansawdd cyfnodau 'diwedd oes', a'r dewisiadau posib sy'n gysylltiedig â hwy. Bydd y dysgwyr yn ymchwilio i ddeddfwriaeth, fframweithiau gwaith a pholisiâu sy'n darparu sylfaen ar gyfer gwaith y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Hefyd edrychir ar rôl gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, a sut mae rhaid iddynt gydweithio i ddiwallu anghenion cyfannol pobl hŷn.

Mae cysylltiadau agos rhwng yr uned hon ac *Uned 4: Datblygiad ar hyd Cyfnodau Bywyd*, *Uned 11: Diogelu Oedolion a Hybu Annibyniaeth*, *Uned 9: Gwerthoedd a Chynllunio ym maes Gofal Cymdeithasol* ac *Uned 40: Gofal Dementia*. Bydd yr uned yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer dysgwyr sydd am ddilyn gyrfa mewn sefydliad sy'n darparu iechyd neu ofal cymdeithasol i bobl hŷn.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Ddeall y broses o heneiddio
- 2 Deall rôl gweithwyr iechyd a gofal o ran cynnal lles pobl hŷn.

Cynnwys yr uned

1 Deall y broses o heneiddio

Diffiniad o henaint: cyfnodau, e.e. cyfnodau Erikson, henaint bregus, cyfnod diwedd oes; persbectif yr unigolyn, agweddau, rhagfarnau oed; persbectif y llywodraeth; cyflenwi gwasanaethau am ddim (deintyddol, presgripsiynau, profion llygaid)

Theorïau ynghylch heneiddio: cymdeithasegol/seicolegol, e.e. theori datgyweddïad, theori gweithgaredd, creu dibyniaeth gymdeithasol; biolegol, e.e. theori soma hepgor, theori rhaglennu genetig; gwahaniaethau rhyw

Newidiadau demograffeg: cynyddu hyd oes disgwylïedig; gwahaniaethau yn hyd oes disgwylïedig gwrywod a benywod; patrymau teulu newidiol; ymddeoliad

Ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd a lles: negyddol; cadarnhaol; sosio-economaidd, amodau byw, ffordd o fyw; ynysu cymdeithasol, profedigaeth, teulu, ffrindiau; ariannol; gwelliannau o ran gofal iechyd; lleihau arferion gwaith niweidiol

Newidiadau yn ddiweddarach mewn bywyd: corfforol (symudedd, cydbwysedd) golwg; clyw; metaboledd llai; newidiadau gwybyddol

Clefydau: cysylltiedig ag oedran, e.e. clefyd Alzheimer, osteoporosis, dirywiad y macwla, emffysema

2 Deall rôl gweithwyr iechyd a gofal o ran cynnal lles pobl hŷn

Fframweithiau ar gyfer ymarfer: Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn; Menter Urddas mewn Gofal; Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn; Ein hiechyd, ein gofal, ein llais; codau ymddygiad; polisïau a gweithdrefnau trefniadol

Deddfwriaeth a rheoliadau: adrannau perthnasol o, e.e. Deddf Hawliau Dynol, Deddf Diogelu Data, Rheoliadau Cartrefi Gofal Nyrsio a Phreswyl, Deddf Safonau Gofal, Deddf Gwahaniaethu ar sail Oedran, Deddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed

Gwasanaethau i gynnal anghenion: e.e. podiatreg, therapi lleferydd, ffisiotherapi, gofal lliniarol, gofal personol, deietegol, cwnsela, gweithgaredd creadigol a therapiwtig, ymarfer corff, gweithgareddau cymdeithasol, iechyd galwedigaethol; gofal lliniarol; cyfarpar ac adnoddau i gynorthwyo hunan-ofal

Hybu dewis ac annibyniaeth: grymuso; cyfranogiad mewn cynllunio gofal; dull cyfannol; diogelu; dulliau cyfathrebu; eiriolwyr; cyfle cyfartal; hybu iechyd, cydbwysu hawliau a rhyddid

Egwyddorion gofal: amrywiaeth; parch, urddas, cyfrinachedd; arfer gwrth-wahaniaethol

Canlyniadau posib: gwella neu gynnal lles, e.e. sgiliau corfforol, symudedd, cydbwysedd, cyfathrebu, rhyngweithio cymdeithasol, sefydlogrwydd emosiynol, byw'n annibynnol

Ansawdd a dewis ar ddiwedd oes: meddygoli marwolaeth, dewis gwybodus, cynhaliaeth emosiynol, ewyllysiau byw, cyfreithlondeb a moeseg hunanladdiad gyda chymorth ac ewthanasia

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio nodweddion ac achosion ymddygiad heriol [YA1]	T1 trafod nodweddion ac achosion un math o ymddygiad heriol	
LI2 esbonio sut mae deddfwriaeth/canllawiau yn berthnasol i ymddygiad heriol [YA2]		
LI3 awgrymu strategaethau i leiafu effeithiau ymddygiad heriol mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. [MC2]	T2 trafod y strategaethau a ddefnyddir i leiafu effeithiau un math o ymddygiad heriol mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol.	Rh1 gwerthuso strategaethau ar gyfer delio gydag un math o ymddygiad heriol mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwyr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 29: Persbectifau Seicolegol Cymwysedig ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cod yr Uned:	K/601/2415
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi dysgwyr i ymchwilio i gymhwysiad persbectifau seicolegol er mwyn datblygu dealltwriaeth o ddatblygiad unigolion; cyfraniad persbectifau seicolegol wrth ddeall ymddygiad penodol; a rheolaeth a thriniaeth ymddygiad penodol.

Cyflwyniad i'r uned

Bydd yr uned hon yn estyn gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o'r prif bersbectifau seicolegol a'u cymhwysiad i'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol a gafwyd trwy astudio *Uned 8: Persbectifau Seicolegol ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol*.

Bydd y dysgwyr yn edrych ar y prif bersbectifau seicolegol yn fanylach. Byddant yn estyn eu gwybodaeth, er enghraifft, am wahanol ddamcaniaethwyr, ac yna yn eu cymhwyso i'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn sicrhau dealltwriaeth ddyfnach o werth posib seicoleg yn y sectorau hyn. Byddant yn archwilio cyfraniad persbectifau seicolegol i ddealltwriaeth o ddatblygiad unigolion, gan gynnwys datblygu ymddygiad.

Bydd y dysgwyr hefyd yn dod i ddeall ymddygiad penodol y gellid dod ar ei draws mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, a chyfraniad persbectifau seicolegol wrth eu rheoli a'u trin. Yn olaf, bydd y dysgwyr yn archwilio'r ddarpariaeth gofal preswyl a chyfraniad persbectifau seicolegol i'r ddarpariaeth hon.

Wedi cwblhau'r uned hon yn llwyddiannus, bydd gan ddysgwyr ddealltwriaeth dda o gymhwysiad y dull seicolegol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd yr uned yn werthfawr i ddysgwyr sy'n bwriadu gweithio gyda phobl mewn swydd ofalu. Bydd hefyd yn ddefnyddiol i ddysgwyr sy'n bwriadu mynd ymlaen i astudio ar lefel uwch. Mae'r agwedd seicolegol yn rhan o sawl uned arall yn y rhaglen, a chaiff ei hestyn ymhellach yn *Uned 30: Seicoleg Iechyd*.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Ddeall cyfraniad persbectifau seicolegol wrth ddeall datblygiad unigolion
- 2 Deall cyfraniad persbectifau seicolegol wrth ddeall ymddygiad penodol
- 3 Deall cyfraniad persbectifau seicolegol wrth reoli a thrin ymddygiad penodol
- 4 Deall cyfraniad persbectifau seicolegol wrth ddarparu gofal preswyl.

Cynnwys yr uned

1 Deall cyfraniad persbectifau seicolegol wrth ddeall datblygiad unigolion

Dadleuon ym maes seicoleg ddatblygiadol: natur yn erbyn magwraeth; dilyniant yn erbyn diffyg dilyniant; nomothetig yn erbyn idiograffig

Prif bersbectifau seicolegol: ymddygiadol, dysgu cymdeithasol, seicodynamig, dyneiddiol, gwybyddol, datblygiadol; fel y'u cymhwysir i ddealltwriaeth o ddatblygiad ymddygiad

Cymhwyso theorïau i ddatblygiad:

- ◇ *datblygiad gwybyddol:* dull Piaget, beirniaid Piaget, e.e. Donaldson; Vygotsky; Bruner; dull prosesu gwybodaeth, Beck, Ellis, amgodio, e.e. Anhwylder Gorfywiogrwydd Diffyg Canolbwyntio
- ◇ *datblygiad iaith:* persbectif ymddygiadol (Skinner); persbectif gynhenid (Chomsky); cyn-ieithyddol, ffonolegol, semantig
- ◇ *datblygiad yr hunan:* Rogers, Maslow; dull gwybyddol-ddatblygiadol, e.e. Selman; theori dysgu/amgylcheddol, e.e. Bandura; theori rhyngpersonol, e.e. Cooley a Mead
- ◇ *caffael ymddygiad:* ymddygiadol — clasurol a chyflyru'r gweithredydd; dysgu cymdeithasol (Bandura); seicodynamig (Freud); datblygu personoliaeth (Freud, Erikson)
- ◇ *theorïau ymlyniad:* cyfnodau ymlyniad; ymlyniadau lluosog; gwahanu ac amddifadu, e.e. Ainsworth, Bowlby, Schaffer, Emerson, Robertson a Robertson, Rutter; ynysu, e.e. Koluchova
- ◇ *datblygu ymlyniad:* bwydo; cyswllt corfforol; rhoi gofal ac amser; sensitifrwydd; ymatebolrwydd; gwahaniaethau unigol, damcaniaeth parhad

2 Deall cyfraniad persbectifau seicolegol wrth ddeall ymddygiad penodol

Persbectifau: cymhwyso theorïau seicolegol cyflenwol a chyferbyniol i ddealltwriaeth o ymddygiad penodol

Ymddygiad penodol: cysylltiedig ag, e.e. pryder ac iselder, gwahanu a cholled, straen ac ymdopi, hunan-niweidio, rhagfarn a gwahaniaethu, cam-drin plant, cyflyrau caeth, trais ac ymosodedd

3 Deall cyfraniad persbectifau seicolegol wrth reoli a thrin ymddygiad penodol

Cyfraniad persbectifau seicolegol: therapi ymddygiad gwybyddol, e.e. trin ffobias, salwch meddwl, anhwylder straen ôl-drawma, dulliau o ymdrin ag ymddygiad heriol, monitro a gwella ymddygiad; theori dysgu cymdeithasol, e.e. defnyddio delfrydau ymddwyn cadarnhaol, trin cyflyrau caeth, trin anhwylderau bwyta; persbectif seicodynamig (rôl yn hynny, e.e. wrth seicoddadansoddi, dehongli breuddwydion, archwilio ffactorau sy'n dylanwadu ar ymddygiad), persbectif dyneiddiol, e.e. cwnsela sy'n canolbwyntio ar y person; persbectif biolegol, e.e. cyffuriau, bio-adborth

Ymyriadau: defnyddio persbectifau i fwydo i ddatblygiad arferion therapiwtig

Arferion therapiwtig: fel sy'n berthnasol i ymddygiad, e.e. therapi grŵp, therapi teuluol, therapi profedigaeth, therapi cyflyrau caeth, rhaglenni addasu ymddygiad, cwnsela; materion moesegol; sut mae'r therapïau'n gweithio, rhesymau dros fynychu sesiynau therapi

4 Deall cyfraniad persbectifau seicolegol wrth ddarparu gofal preswyl

Ymddygiad unigolion mewn lleoliadau gofal preswyl: cysyniad rôl; cydymffurfio â dylanwad y lleiafrif/mwyafrif (Asch, Moscovichi), cydymffurfio â rolau cymdeithasol (Zimbardo); ufudd-dod (Milgram, Hofling); newid agwedd (Festinger); ffactorau sy'n dylanwadu ar elyniaeth ac ymosodedd

Effeithiau gofal preswyl ar unigolion: effeithiau sefydliadeiddio, e.e. colli hunaniaeth, diymadferthedd a ddysgwyd, straen

Arferion mewn lleoliadau gofal preswyl: hyrwyddo annibyniaeth ac ymrymuso, e.e. trwy barchu hawliau unigol, sylfaen gwerthoedd gofal

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 egluro'r prif bersbectifau seicolegol fel y'u cymhwysir i ddealltwriaeth o ddatblygiad unigolion [YA3; YA4; MC4; DM6; HR3]	T1 trafod y prif bersbectifau seicolegol fel y'u cymhwysir i ddealltwriaeth o ddatblygiad unigolion	Rh1 gwerthuso'r prif bersbectifau seicolegol fel y'u cymhwysir i ddealltwriaeth o ddatblygiad unigolion
LI2 esbonio cyfraniad theorïau seicolegol cyflenwol i ddealltwriaeth o ddau ymddygiad penodol [YA3; MC4; DM6; HR3]	T2 asesu cyfraniad theorïau seicolegol cyflenwol cyferbyniol i ddealltwriaeth o'r ddau ymddygiad penodol	
LI3 esbonio cyfraniad theorïau seicolegol cyflenwol i ddealltwriaeth o ddau ymddygiad penodol [YA3; MC4; DM6; HR3]		
LI4 esbonio cyfraniad persbectifau seicolegol wrth reoli a thrin dau ymddygiad penodol [HR3; DM6; YA3; MC4; DM6; HR3]		

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI5 egluro cyfraniad persbectifau seicolegol wrth hyrwyddo arfer da mewn gwasanaethau gofal preswyl. [YA3; MC4; DM6; HR3]	T3 trafod cyfraniad dau bersbectif seicolegol wrth hyrwyddo arfer da mewn gwasanaethau gofal preswyl.	Rh2 gwerthuso cyfraniad dau bersbectif seicolegol wrth hyrwyddo arfer da mewn gwasanaethau gofal preswyl.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwyr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 30: Seicoleg Iechyd

Cod yr Uned:	J/600/8985
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw rhoi dealltwriaeth i'r dysgwyr o gymhwysiad egwyddorion seicoleg trwy gaffael gwybodaeth am ymddygiad cysylltiedig â iechyd. Mae hefyd yn ceisio sicrhau eu bod yn deall y ffactorau sy'n effeithio ar yr ymddygiad hwnnw, modelau straen a rôl seicoleg wrth ddelio gyda salwch cronig.

Cyflwyniad i'r uned

Mae llawer o'r materion iechyd mae rhaid i'r gwasanaeth iechyd ddelio gyda nhw yn gysylltiedig â dewisiadau ffordd o fyw ac ymddygiad. Oherwydd ein bod yn byw yn hwy, a chan fod y boblogaeth yn heneiddio, mae'r gwasanaeth iechyd yn cael trafferth i ymateb i'r galw. Mae hyn wedi arwain at fwy o hybu iechyd ac addysg i geisio helpu pobl i fyw bywydau iachach. Bu datblygiad hefyd yn y defnydd o seicoleg i ymdrin â newid ymddygiad. Mae'n hanfodol bod gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn deall y maes hwn er mwyn cefnogi'r bobl y maent yn gweithio gyda nhw.

Mae'r uned yn edrych ar rôl seicoleg iechyd wrth ddeall ymddygiad iechyd a salwch. Bydd y dysgwyr yn ymchwilio i theorïau seicolegol a ffactorau sy'n berthnasol wrth astudio ymddygiad cysylltiedig â iechyd. Byddant yn estyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth er mwyn ystyried cysyniad straen a thechnegau rheoli straen. Bydd y dysgwyr hefyd yn edrych ar faterion cyfoes eraill ym maes ymddygiad iechyd, yn ogystal ag ymchwilio i ffactorau seicolegol yng nghyswllt salwch cronig/angheuol.

Wedi cwblhau'r uned hon yn llwyddiannus, bydd gan ddysgwyr ddealltwriaeth dda o agweddau seicolegol ar iechyd a salwch. Bydd yr uned yn werthfawr i'r dysgwyr hynny sy'n bwriadu gweithio gyda phobl mewn swydd ofalu. Bydd hefyd yn ddefnyddiol i ddysgwyr sy'n bwriadu mynd ymlaen i astudio ar lefel uwch.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Wybod am fodelau o ymddygiad cysylltiedig â iechyd
- 2 Deall materion cyfoes ym maes seicoleg iechyd
- 3 Deall modelau o straen a strategaethau rheoli cysylltiedig
- 4 Deall salwch cronig ac angheuol.

Cynnwys yr uned

1 Gwybod am fodolau o ymddygiad cysylltiedig â iechyd

Iechyd a salwch: diffiniadau a chysyniadau o iechyd a salwch, model meddygol, model bioseicogymdeithasol; defnydd o'r cysyniad cyfannol o iechyd yn sylfaen ar gyfer triniaethau cyflenwol, e.e. aciwbigo, homeopat heg, meddyginiaeth lysieuol; canfyddiad salwch; ymdopi yn ystod salwch

Ymddygiad cysylltiedig â iechyd: theorïau ynghylch newid ymddygiad - model cred iechyd, gweithredu rhesymedig, ymddygiad a gynlluniwyd; cydymffurfiaeth a diffyg cydymffurfiaeth; 'rôl salwch', effeithiau plasebo, effeithiau seicosomatig a somatoseicig salwch

Dylanwadau ar greddoau ac ymddygiad cysylltiedig â iechyd: diwylliannol, e.e. agweddau gwahanol ymhlith grwpiau ethnig gwahanol; unigol, e.e. oedran, rhyw; addysg, e.e. crefyddol/ethnig/is-ddiwylliannau proffesiynol; sosio-economaidd, e.e. dosbarth cymdeithasol, statws economaidd; amgylcheddol, e.e. dwysedd poblogaeth, isadeiledd sydd ar gael

2 Deall materion cyfoes ym maes seicoleg iechyd

Materion cyfoes, e.e.:

Smygu/alcohol a dibyniaeth ar sylweddau eraill: goblygiadau iechyd smygu, yfed alcohol a dibyniaeth ar sylweddau eraill; persbectif dysgu cymdeithasol, ymddygiad caeth (yn cynnwys gamblo a rhyw) - o safbwynt seicolegol

Ymddygiad bwyta: theorïau seicolegol ynghylch achosion gordewdra, anorecsia a bwlimia; moeseg trin yr anhwylderau hyn

Ymarfer Corff: ymddygiad ymarfer corff, pwy sy'n cadw'n heini a pham, manteision corfforol a seicolegol a phroblemau cysylltiedig ag ymarfer y corff, gan gynnwys gwneud hynny'n ormodol

Geni Plant: meddygoli geni plant, materion diwylliannol a chrefyddol, y cynnydd mewn toriadau Cesaraidd, geni gartref, geni yn y dŵr a'r rhesymeg y tu ôl i hynny

3 Deall modelau o straen a strategaethau rheoli cysylltiedig

Datblygiad modelau o straen: model ymladd neu ffoi, syndrom addasu cyffredinol; theori digwyddiadau bywyd; modelau seicogymdeithasol o straen

Strategaethau ymdopi ac ymatebion: canolbwyntio ar y broblem, canolbwyntio ar emosiwn, systemau amddiffyn, gwadu

Rôl ffactorau seicolegol: hunan-reolaeth, locws rheolaeth, y math o bersonoliaeth; ffordd o fyw lle ceir digon o arian ond diffyg amser; pryder statws; effeithiau'r cyfryngau ar ddisgwyliadau, canlyniadau peidio â chyflawni disgwyliadau

Y cysylltiad rhwng straen a salwch: effeithiau straen ar y system imiwnedd, effeithiau diffyg gwybodaeth neu ormod ohoni ar salwch, rôl a chwmpas cefnogaeth y teulu a'r gymdeithas ehangach; systemau ymdopi cadarnhaol, e.e. ymlacio, ioga; systemau ymdopi negyddol, e.e. alcohol neu gamddefnyddio sylweddau eraill

Strategaethau rheoli straen: technegau ymddygiad, technegau gwybyddol; ymlacio, e.e. ioga; pwysigrwydd gwybodaeth am y rhain i weithwyr iechyd

4 Deall salwch cronig ac anghwyl

Salwch cronig: diffiniadau, tueddiadau o ran amlygrwydd, ystadegau lleol, cenedlaethol a byd-eang; prosesau ymddygiadol, cyflyrau gwybyddol, pryder; argaeledd ymyrraeth/triniaeth

Poen: theorïau ynghylch poen, rôl ffactorau seicolegol yn y canfyddiad o boen, poen organig, poen seicogenig; poen dwys a chronig, poen allgyfeiriol; anaf heb boen, poen heb anaf; mesur poen; rheoli poen, cymhwyso dulliau seicolegol o leddfu poen

Theorïau seicolegol cysylltiedig â: diagnosis a newid ymddygiad; lliniaru symptomau, dulliau o ymdopi; yr effaith ar deuluoedd a cheraint; salwch, e.e. clefyd y galon, canser, HIV/AIDS, poen cefn, asthma, diabetes

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio theorïau ynghylch newid ymddygiad mewn perthynas â iechyd [YA4; YA5; YA6]		
LI2 disgrifio ffactorau a all ddylanwadu ar ymatebion i iechyd a salwch [YA3; YA5; MC4]		
LI3 esbonio materion seicoleg iechyd penodol [YA1; YA2; YA4; DM2; DM3; HR3]	T1 cymharu dau fater seicoleg iechyd penodol mewn perthynas â themâu cyffredin a gwahaniaethau	Rh1 gwerthuso cyfraniad theorïau ynghylch ymddygiad iechyd i'r ddau faterion seicoleg iechyd penodol
LI4 esbonio modelau o straen a strategaethau posib ar gyfer ymdopi [YA3; YA4]	T2 trafod sut gall straen a thechnegau rheoli straen ddylanwadu ar salwch	Rh2 gwerthuso effeithiolrwydd technegau rheoli straen sy'n gysylltiedig â'r gwahanol fodolau o straen.
LI5 esbonio rôl seicoleg wrth ddeall un salwch cronig neu angheuol. [YA1; DM2]	T3 trafod rôl seicoleg wrth reoli salwch cronig/angheuol.	

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwyr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 31: Ffisioleg Cydsymud

Cod yr Uned:	L/600/8986
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw rhoi dealltwriaeth i'r dysgwyr o ffisioleg prif systemau'r corff sy'n ymwneud â chydsymud y corff dynol. Byddant yn gallu dod i ddeall effeithiau'r systemau nerfol ac endocrin a sut y gellir eu rheoli.

Cyflwyniad i'r uned

Cydsymud gweithgareddau'r corff dynol yw swyddogaeth dwy system y mae perthynas agos rhyngddynt, sef y systemau nerfol ac endocrin. Mae'r ddwy yn crynhoi gwybodaeth am gyflwr yr amgylchedd mewnol ac allanol, yn dadansoddi'r wybodaeth, ac yn penderfynu ar ymateb priodol. Mae gweithgareddau yn cyd-fynd â'i gilydd, gan fod eu systemau yn gweithredu gan ddefnyddio mecanweithiau sy'n wahanol yn eu hanfod.

Mae'r uned hon yn edrych ar gydsymud y corff dynol. Ar y cychwyn bydd dysgwyr yn edrych yn gyffredinol ar y prosesau a'r systemau sy'n ymwneud â chydsymud a'u cysylltiad â'i gilydd. Wedyn bydd y dysgwyr yn edrych yn fanwl ar anatomeg a ffisioleg yr organau synhwyrdd, a natur yr wybodaeth y maent yn ei derbyn. Wedyn edrychir ar strwythur y systemau nerfol canolog ac awtonomig, a phriodweddau meinwe nerfol, gan gynnwys trosglwyddo ysgogiadau nerfol ar hyd niwronau ac ar draws synapsau. Yn olaf, ystyrir gweithredoedd cyflenwol y system endocrin a hormonau penodol. Yn olaf, ystyrir anhwylderau'r systemau hyn, gan roi cyfle i ddysgwyr ystyried strategaethau gofal priodol.

Mae'r uned hon yn adeiladu ar wybodaeth ffisiolegol a gafwyd mewn unedau eraill yn y rhaglen, ac yn ei datblygu ymhellach. Bydd cwblhau'r holl unedau hyn yn golygu bod gan y dysgwyr ddealltwriaeth dda o ffisioleg prif systemau'r corff, a fydd yn eu cynnal i symud ymlaen i hyfforddiant proffesiynol ym maes nyrsio a nifer o'r galwedigaethau sy'n gysylltiedig â meddygaeth.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Wybod sut mae cydsymud y corff yn gweithio
- 2 Deall strwythur a swyddogaeth organau'r synhwyrâu
- 3 Deall ffisioleg y system nerfol
- 4 Deall ffisioleg y system endocrin
- 5 Deall effeithiau a rheoli anhwylderau'r systemau nerfol ac endocrin.

Cynnwys yr uned

1 Gwybod sut mae cydsymud y corff yn gweithio

Amgylchedd: mewnlol, allanol; derbyn ysgogiadau o'r amgylchedd, e.e. lefel carbon deuocsid uwch yn y gwaed, golau, seiniau

Cydsymud nerfol: derbynyddion – organau synhwyrdd, ysgogiadau trydanol ar hyd llwybrau niwral; effeithwyr - cyhyrau (cyfangu); chwarennau (secretu); targed penodol, ymateb cyflym, byr

Cydsymud endocrin: chwarennau endocrin, gweithredoedd hormonau, newid yng ngweithgareddau metabolaidd meinwe'r corff; tryledu, ymateb arafach sy'n parhau'n hwy; systemau adborth

Integreiddio: cydsymud nerfol ac endocrin, e.e. rôl yr hypothalamws a'r chwaren bitwidol, rôl medwla y chwarren adrenal/gweithredoedd adrenal, ymateb sioc

2 Deall strwythur a swyddogaeth organau'r synhwyrdd

Swyddogaethau: synhwyrdd, e.e. cyffyrddiad, pwysau, poen, tymheredd, blas, golwg, clyw

Y croen: derbynyddion synhwyrdd: corffilod Meissner, corffilod Pacinian, terfynau nerfol rhydd o amgylch ffoliglau blew, dosbarthiad synhwyrdd croenol

Organau'r synhwyrdd arogl a blasu: blasbwyntiau, cysylltiadau rhwng y ddwy

Y llygad: strwythur a swyddogaeth y rhannau, retina (rhodau a chonau), mecanwaith ar gyfer addasu i danbeidrwydd golau, hyd ffocws, gweld lliw, symudiadau'r llygaid, cortecs cerebrol gweledol

Y glust: strwythur a swyddogaeth y glust allanol, ganol a mewnlol, organ Corti, cortecs cerebrol clywedol

3 Deall ffisioleg y system nerfol

Y system nerfol ganolog: yr ymennydd, madruddyn y cefn

Y system nerfol ymylol: nerfau cranial, nerfau'r asgwrn cefn

Meinwe nerfol: strwythur niwronau (synhwyrdd/afferol, motor/efferol, ategol/canolraddol); ffibrau nerfol, gwain fyelin, nodau Ranvier; gwynnin, breithell; prif rannau'r ymennydd (medwla oblongata, cerebelwm, thalamws, hypothalamws, cortecs cerebrol); madruddyn y Cefn; meninges

Llwybrau nerfol: cylch atgyrchol; ffibrau nerfol afferol, ffibrau nerfol efferol; trosglwyddo ysgogiad nerfol: potensial gorffwys, potensial gweithredu, dargludiad neidiol, synapsau, trosglwyddyddion nerfol; gweithrediad moddion lladd poen

System nerfol awtonomig: sympathetig, parasympathetig; rolau'r naill a'r llall wrth reoleiddio gweithrediad mewnlol y corff, systemau adborth a homeostasis

4 Deall ffisioleg y system endocrin

Chwarennau endocrin: lleoliad yn y corff, strwythur, secretiadau a gweithredoedd ar lefel gellol; chwarren bitwidol (blaen ac ôl), chwarennau thyroid a pharathyroid, chwarren adrenal (cortecs a medwla), ynysoedd Langerhans

Newidynnau dethol: amrywiad beunyddiol (rhythmau circadaidd), straen emosiynol cronig, sioc, poen

5 Deall effeithiau a rheoli anhwylderau'r systemau nerfol ac endocrin

Anhwylderau: systemau endocrin, e.e. Diabetes (mathau I a II), hypo ac uwch thyroïdedd, anhwylderau hormon twf, clefyd Addison, syndrom Cushing; y system nerfol, e.e. parlys ymledol, clefyd Parkinson, clefyd motor niwron, seiatica, dementia a chlefyd Alzheimer

Strategaethau gofal: niwroffisioleg meddyginiaeth, e.e. i leddfu poen, diffyg cydbwysedd hormonau; newid ymddygiad i reoli straen; cymorth cyntaf ar gyfer ymateb sioc, e.e. yn sgil gwaedlif neu anaffylacsis

Rheoli anhwylderau: yn cynnwys meddyginiaeth a ffordd o fyw

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio rolau'r system nerfol a'r system endocrin yng nghydsymud y corff dynol [HR2; HR3; HR5]	T1 esbonio sut mae cydsymud y system nerfol a'r system endocrin yn gweithio	Rh1 dadansoddi rolau'r systemau synhwyraidd, nerfol ac endocrin wrth gynnal gweithrediad normal yr organau a'r strwythurau mewnol
LI2 egluro strwythur yr organau synhwyraidd mewn perthynas â'u gweithrediad [YA4; HR2; HR3; HR5]		
LI3 esbonio strwythur a gweithrediad y systemau nerfol canolog, ymylol ac awtonomig [YA4; HR2; HR3; HR5]		
LI4 esbonio sut mae'r system endocrin yn cyfrannu at reoleiddio gweithgareddau mewnol y corff [YA4; HR2; HR3; HR5]		

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI5 esbonio ymatebion ffisiolegol y corff i ddau newidyn dethol [YA4; HR2; HR3; HR5]	T2 trafod effeithiau gweithrediad abnormal y systemau endocrin a nerfol ar y corff	Rh2 cyfiawnhau ffyrdd o reoli'r ddau anhwylder.
LI6 esbonio'r strategaethau gofal sydd ar gael i reoli dau o anhwylderau'r systemau nerfol ac endocrin.	T3 asesu sut bydd y strategaethau gofal yn lleiafu effeithiau'r ddau anhwylder.	

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwyr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 32: Symudedd ac Ymarfer Corff ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cod yr Uned:	R/600/8987
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi'r dysgwyr i ddeall strwythur a swyddogaeth y system gyhyrysgerbydol a mecaneg symudiad, caffael gwybodaeth am gydbwysedd a safiad a deall anhwylderau cyffredin ac anafiadau i'r system gyhyrysgerbydol.

Cyflwyniad i'r uned

Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar anatomeg a ffisioleg y system gyhyrysgerbydol, gan gynnwys y mecanweithiau sy'n ymwneud â symudiad ac ymsymudiad. Edrychir yn fanwl ar strwythur y sgerbwd, gan gynnwys enwau'r holl brif esgyrn. Bydd y dysgwyr yn edrych ar sut mae esgyrn yn datblygu trwy asgwrneiddiad pilennog neu epiffysis ac yn cysylltu hyn â dealltwriaeth o strwythur meinwe mewnol gwahanol fathau o esgyrn.

Edrychir ar strwythur gwahanol fathau o gymalau, gan ymchwilio i'r berthynas rhwng cymalau, cyhyrau a chwmpas o symudiadau. Trafodir y cysyniad o ystwythder a symudedd yng nghyd-destun cymalau. Bydd y dysgwyr yn edrych ar ffisioleg cyfangu cyhyrau, a bydd y gwahaniaeth rhwng cyfangu isometrig ac isotonig yn cael ei gysylltu â thyndra cyhyrau, ffitrwydd a stamina.

Edrychir ar anatomeg gyffredinol prif grwpiau cyhyrau'r corff, gan ymchwilio i'w gweithrediad wrth gynhyrchu symudiadau o amgylch cymalau. Bydd y dysgwyr yn archwilio gweithrediad grwpiau o gyhyrau wrth gynnal safiad fertigol a chynhyrchu symudiad. Edrychir ar bropriodderbynyddion yn y cymalau a'r cyhyrau a'r cyfarpar festibwlaidd yn y glust, sy'n cyfrannu at gynnal cydbwysedd. Cyflwynir y dysgwyr i esboniadau anatomegol a ffisiolegol am anhwylderau cyffredin ac anafiadau a gysylltir â gweithrediad cyhyrysgerbydol.

Bydd cwblhau'r uned hon yn llwyddiannus yn helpu i roi i ddysgwyr ddealltwriaeth dda o ffisioleg prif systemau'r corff, ac yn eu cynnal wrth iddynt symud ymlaen i hyfforddiant nyrsio proffesiynol a sawl galwedigaeth cysylltiedig â meddygaeth.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Ddeall anatomeg y system ysgerbydol
- 2 Gwybod am fecanweithiau cyfangu cyhyrol
- 3 Gwybod am y ffactorau sy'n effeithio ar symudiad, cydbwysedd a safiad
- 4 Deall anafiadau ac anhwylderau cyffredin i'r system gyhyrsgerberbydol.

Cynnwys yr uned

1 Deall anatomeg y system ysgerbydol

Asgwrneiddiad: mewnbilennog, endocondrial

Datblygiad y sgerbwd: tyfiant ysgerbydol — yr esgyrn yn tyfu'n hwy, epiffysisau'n cau, crymeddau normal yr asgwrn cefn yn datblygu (serfigol, thorasig, y meingefn); storio mwynau, cyflwr deinamig esgyrn, swyddogaeth gewynnau

Strwythur y meinweoedd ysgerbydol: histoleg meinwe ysgerbydol - gewynnau, tendonau, cartilag, asgwrn (cywasgedig, mân-dyllog); strwythur esgyrn hir, esgyrn fflat, môr yr esgyrn

Esgyrn yr ysgerbwd: lleoliad y prif esgyrn (creuan, pont yr ysgwydd, asennau, sternwm, hwmerws, radiws, wlna, padell yr ysgwydd, iliwm, pwbis, ischiwm, carpalau, metacarpalau, ffalangau, morddwyd, padell ben-glin, tibia, ffibwla, tarsalau, metatarsalau, colofn cefn, fertebrau – cerfigol, thorasig, sacrw m y meingefn, asgwrn cynffon)

Mathau o esgyrn: y berthynas rhwng strwythur, siâp a swyddogaeth; prif nodweddion adnabod — mandiblau a macsilâu, esgyrn creuanol, yr asgwrn cefn, y gwregys, yr aelodau, y frest

Cymalau: dosbarthiadau (sefydlog, rhywfaint o symudiad, symudiad rhydd/cymalau synofaidd), mathau o gymalau synofaidd; strwythur y cymalau, y symudiadau a ganiateir ym mhob cymal, e.e. plygiant, estyniad, cylchddwytho, atyniad, adwythiad

Ffactorau sy'n dylanwadu ar y system ysgerbydol: geneteg, oedran, diet, effaith ymarfer dwyn pwysau, afiechyd

2 Gwybod am fecanweithiau cyfangu cyhyrol

Mathau o gyhyrau: rheoledig (ysgerbydol); anrheoledig (llyfn); cardiaidd

Histoleg cyhyrau: siâp celloedd, aliniad; strwythur wltra myoffibril - sarcomerau, actin, myosin; cydiad niwrogyhyrol

Cyfangu cyhyrol: theori ffilament llithr (actin, myosin, sarcomer, troponin, tropomyosin, ionau calsiwm, ATPase); mathau o gyfangu (consentrig, ecentrig, isomedrig); blinder y cyhyrau, ymadfer

Agweddau mecanyddol: parau cyhyrol sy'n gwrthweithio; synergaid, addasiadau cyhyrysgerbydol i ymarfer corff rheolaidd, e.e. cynyddu maint y cyhyrau, cryfhau'r tendonau, lleihau risg anafiadau

3 Gwybod am y ffactorau sy'n effeithio ar symudiad, cydbwysedd a safiad

Symudiad: cyhyrau sy'n gweithredu fel liferi ar y sgerbwd; egwyddor liferi - ymdrech, ffwlcrwm, llwyth; dosbarthiadau liferi - dosbarth cyntaf, ail ddosbarth, trydydd dosbarth); enghreifftiau o liferi yn y corff, e.e. plygu pen, sythu braich a blygwyd, sefyll ar flaenau eich traed

Propriodderbyniad: derbynyddion yn y tendonau (organ tendon golgi), derbynyddion mewn cyhyrau (gwerthydau cyhyrol), atgyrchion propriodderbyniad

Cydbwysedd: offer cyntedd y glust, craidd disgrychiant; sylfaen cynhaliaeth, sigl safiad

Safiad: safiad sefyll cywir, safiad eistedd cywir, safiad codi cywir, manteision safiad da

4 Deall anafiadau ac anhwylderau cyffredin i'r system gyhyrysgerbydol

Anafiadau: ysgiad, ysigo'r cyhyrau, torasgwrn, dadleoliad, poen cefn, parlys

Anhwylderau: cyffosis, scoliosis, lordosis; osteoporosis, osteoarthritis

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 esbonio strwythur a datblygiad y system ysgerbydol [YA2; YA4]		
LI2 esbonio strwythur a swyddogaeth pob dosbarthiad o gymalau [YA2; YA4]	T1 asesu effeithiau gwahanol ffactorau ar ddatblygiad y system ysgerbydol	
LI3 disgrifio strwythur a chyfangiad gwahanol fathau o feinwe cyhyrol [YA2; YA4]	T2 cymharu strwythur a swyddogaeth dau fath gwahanol o gyhyrau	Rh1 dadansoddi effeithiau ymarfer corff cronig ar y system gyhyrysgerbydol
LI4 disgrifio sut mae grwpiau o gyhyrau yn gweithio fel liferi i gynhyrchu symudiad o amgylch cymal		
LI5 disgrifio sut mae priodderbyniad yn helpu i gynnal cydbwysedd, safiad a symudiad [YA1]	T3 asesu sut mae grwpiau cyhyrol yn cynnal safiad ac yn cynhyrchu symudiad.	Rh2 dadansoddi effaith anhwylderau cyhyrysgerbydol cyffredin ar symudedd ac ymsymudiad.
LI6 esbonio achosion anafiadau ac anhwylderau cyhyrysgerbydol cyffredin. [MC2]		

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwyr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 33: Gwyddor Gorfforol ar gyfer Iechyd

Cod yr Uned:	Y/600/8988
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi'r dysgwyr i gaffael gwybodaeth am y sbectrwm electromagnetig, y strwythur atomig, ymbelydredd, tonnau sain, trydan a magnetedd, a sut y gellir defnyddio'r rhain yn y sector iechyd.

Cyflwyniad i'r uned

Nod yr uned hon yw sicrhau bod gan y dysgwyr ddealltwriaeth dda o egwyddorion sylfaenol gwyddor gorfforol a sut gellir cymhwyso'r egwyddorion hyn yn y sector iechyd - o ran diagnosis a thriniaeth/gofal.

Ar y cychwyn bydd y dysgwyr yn dod i ddeall y sbectrwm electromagnetig a'i gymwysiadau yn y sector iechyd. Wedyn byddant yn archwilio egwyddorion strwythur atomig ac ymbelydredd, eto gan ystyried y defnyddiau yn y sector iechyd. Bydd tonnau sain hefyd yn derbyn sylw, a dilynir hynny gan drydan a magneteg, gan gynnwys eu defnyddiau ym maes iechyd.

Bydd yr uned hon o fudd i ddysgwyr sy'n ystyried gyrfa mewn unrhyw agwedd ar y sector iechyd, yn enwedig nyrsio neu'r galwedigaethau iechyd cysylltiedig megis radiotherapi, ffisiotherapi neu alwedigaeth a leolir mewn labordy. Bydd hefyd yn ddefnyddiol ar gyfer dysgwyr sy'n ystyried rolau megis cynorthwywyr gofal iechyd neu weithwyr cefnogaeth glinigol.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Wybod am y sbectrwm electromagnetig
- 2 Gwybod am strwythur atomig ac ymbelydredd
- 3 Gwybod am donnau sain
- 4 Gwybod am drydan a magnetedd.

Cynnwys yr uned

1 Gwybod am y sbectrwm electromagnetig

Y sbectrwm electromagnetig: tonnau radio, microdonnau, tonnau is-goch, pelydrau golau gweladwy, tonnau uwchfioled, pelydr-X, pelydrau gama; pelydriad ïoneiddio, pelydriad nad yw'n ïoneiddio

Cymwysiadau iechyd: diagnostig, e.e. pelydr-X, sganwyr tomograffeg gyfrifedig (CT), pelydr-X cyferbyniol, delweddu cyseinedd magnetig (MRI), endosgopi, thermograffi; triniaeth, e.e. radiotherapi, defnyddio laserau; sterileiddiad

Tonnau goleuni: cyflymdra, adlewyrchiad, plygiant, opteg ffibrau; ffocysu goleuni ar retina'r llygad, defnyddio lensys amgrwm a cheugrwm i gywiro'r golwg; gweld lliwiau, lliwddallineb

2 Gwybod am strwythur atomig ac ymbelydredd

Strwythur atomig: nwclews: niwtronau, protonau; electronau, plisgyn electronau; y tabl cyfnodol; rhif atomig, rhif mas, isotopau

Ymbelydredd: isotopau ymbelydrol, dadfeiliad ymbelydrol, hanner oes deunyddiau ymbelydrol, hanner oes biolegol; pelydriad ïoneiddio — gronynnau alffa, gronynnau beta, pelydrau gama, pelydr-X

Cymwysiadau iechyd: olrheinwyr, sganio radioniwclid, cyfryngau sterileiddio, defnydd wrth drin cancer

Iechyd a diogelwch: effeithiau pelydriad ïoneiddio ar y corff, e.e. perygl mwtaniadau a chynnydd yn nigwyddiad canserau; rheoleiddio, e.e. y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch (HSE), Asiantaeth yr Amgylchedd, gofynion deddfwriaethol a therfynau dosio; defnyddio bathodynau ffilm; defnyddio cyfarpar/dillad amddiffynnol, e.e. ffedogau plwm; gweithdrefnau ar gyfer lleihau peryglon ymbelydredd; cyfarpar trafod o bell; materion yn ymwneud â storio gwastraff yn y tymor hir

3 Gwybod am donnau sain

Tonnau sain: sut cynhyrchir tonnau sain, cyflymdra sain, adleisiau, amleddau, traw, lefel ddeinamig; swyddogaeth y glust, amrediad clyw dynol, awdiofesuryddion, cymhorthion clywed, dolenni clyw a syntheseiddwyr llais

Cymwysiadau iechyd: defnyddio uwchsain i fonitro, e.e. cyfraddau llif y gwaed, ffetws sy'n datblygu; defnyddio uwchsain at ddibenion diagnostig, e.e. pibellau gwaed yn culhau

4 Gwybod am drydan a magnetedd

Trydan: cerrynt, foltedd, gwrthiant, pŵer, cylchedau trydan, dargludyddion, ynysyddion; ffiwsiau, newidyddion; diogelwch trydanol mewn lleoliadau gofal

Magneteg: meysydd magnetig, priodweddau magnetau, theori magneteg, anwythiad magnetig, electromagnetau

Cymwysiadau: ym maes iechyd, e.e. dadffibrileiddio, electrocardiograff (ECG), electroenseffalograff (EEG), offeryniaeth, e.e. mesur pwysedd gwaed, sbectromedreg màs, delweddu cyseiniant magnetig

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio sut defnyddir nodweddion y sbectrwm electromagnetig yn y sector iechyd [YA1; MC2]	T1 egluro sut gellir defnyddio gwybodaeth am nodweddion goleuni i gywiro golwg diffygiol	
LI2 disgrifio nodweddion goleuni [YA1; YA6; MC2; DM6; HR3]		
LI3 disgrifio sut gall gwahanol fathau o belydriad ïoneiddio gael eu cymhwyso yn y sector iechyd [YA1; YA6; MC2]	T2 asesu'r peryglon sy'n gysylltiedig â defnyddio pelydriad ïoneiddio	Rh1 dadansoddi'r rhagofalon a gymerir i leiafu'r risg wrth ddefnyddio pelydriad ïoneiddio yn y sector iechyd
LI4 disgrifio sut defnyddir sain yn y sector iechyd [YA1; YA2; YA6; MC2; DM6; GT1; HR3; CE3]		
LI5 disgrifio sut defnyddir nodweddion trydan a magnetedd yn y sector iechyd [YA1; YA2; YA6; MC2; DM6; GT1; HR3; CE3].	T3 esbonio sut gellir defnyddio gwybodaeth am nodweddion trydan a magnetedd i gywiro diffygion ar y galon.	Rh2 gwerthuso'r defnydd o wyddor gorfforol mewn diagnosteg a thriniaethau yn y sector iechyd.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwyr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 34: Etifeddiad Dynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cod yr Uned:	Y/600/8991
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi'r dysgwyr i ddeall atgenhedlu dynol a mecanweithiau etifeddiad dynol. Byddant yn gallu archwilio technolegau sydd ar gael i gynorthwyo unigolion yng nghyswllt atgenhedlu ac etifeddiad, a'r cyfyng-gyngor moesegol sy'n gysylltiedig â'u defnyddio.

Cyflwyniad i'r uned

I gychwyn, bydd y dysgwyr yn dod i ddeall anatomeg systemau atgenhedlol y gwryw a'r fenyw, gan gynnwys y prosesau sydd ynghlwm wrth ddatblygu'r celloedd atgenhedlol (gametogenesis), a'r ffactorau a all ddylanwadu ar eu ffurfio.

Wedyn bydd y dysgwyr yn edrych ar dechnolegau genetig, atgenhedlol ac etifeddiad dynol, gan gynnwys rôl peirianeg enetig. Fe'u hanogir i ystyried y materion moesegol a'r cyfyng-gyngor posib a grëir wrth ddefnyddio'r technolegau hyn, er enghraifft, sgrinio genetig ac olion bysedd. Edrychir ar wrthdaro posib rhwng dewisiadau a hawliau'r unigolyn, manteision yn erbyn risg, a'r effaith ar gymdeithasau yng nghyd-destun fframweithiau rheoliadol cyfoes a rhai sy'n dod i'r amlwg.

Bydd yr uned yn darparu dealltwriaeth werthfawr o fecanweithiau etifeddiad ar gyfer y rhai sydd am weithio gyda chleifion a defnyddwyr gwasanaeth y gall nodweddion a etifeddwyd effeithio ar eu hanghenion gofal.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Ddeall atgenhedlu dynol
- 2 Deall patrymau etifeddiad
- 3 Gwybod am dechnolegau atgenhedlol a genynnol
- 4 Deall cyfyng-gyngor moesegol yng nghyswllt technolegau atgenhedlu a genynnol.

Cynnwys yr uned

1 Deall atgenhedlu dynol

Atgenhedlu: anatomeg systemau atgenhedlu gwryw a benyw

Gametogenesis: spermatogenesis yn y ceilliau, oogenesis yn yr ofariau; arwyddocâd meiosis — rhaniad lleihaol, detholiad annibynnol o gromosomau, cyfnodau meiosis; rhif cromosom — diploid, haploid

Cromosomau: strwythur, DNA, histonau; awtosomau, cromosomau rhyw; ymddygiad yn ystod meiosis, cromatidau, ciasmata; dylanwadau ar weithrediad celloedd

Cod genetig: codonau, genynnau, cromosomau homologaidd, alelau, genomau

Cenhedlu: ymddygiad cromosomau yn ystod ffrwythloniad, impiad, rhaniad celloedd mitotig, gwahaniaethiad celloedd

Dylanwadau: rôl hormonau atgenhedlu; ffactorau biolegol eraill, e.e. genoteipiau'r rhieni, oedran, diet, iechyd; amgylcheddol e.e. tymheredd, cemegau (ee maetholion, alcohol, cyfryngau ffarmacolegol eraill, diwydiannol); pelydriad, e.e. o belydr-X; dylanwadau cynenedigol yn ystod beichiogrwydd a geni a'r effeithiau posib ar y ffetws/baban newydd eni; rôl y brych wrth amddiffyn y ffetws

2 Deall patrymau etifeddiad

Amrywiad: amharhaol, parhaol

Amrywiad amharhaol: Etifeddiad Mendelaidd, genoteip, ffenoteip; homosygaidd, heterosygaidd; alelau trechol ac enciliol; etifeddiad enciliol awtosomaidd, e.e. ffibrosis cystig, ffenylcetonwria; etifeddiad trechol awtosomaidd; cyd-amlygrwydd, e.e. etifeddu grwpiau gwaed, etifeddu anhwylderau cryman-gell; geneteg yn pennu rhyw; etifeddiad cysylltiedig â rhyw, e.e. haemoffilia, lliwddallineb

Amrywiad parhaol: etifeddiad polygenig

Mwtaniadau: genynnau, e.e. nodwedd/anaemia cryman-gell; cromosomau – anewploidedd, e.e. syndrom Down; rhaglenni sgrinio ar gyfer clefydau cysylltiedig â geneteg

3 Gwybod am dechnolegau atgenhedlol a genynnol

Technolegau atgenhedlu: technegau atal cenhedlu; technegau sgrinio; atgenhedlu gyda chymorth - ffrwythloni in vitro, semenu artiffisial

Technolegau genynnau: peirianeg enetig, e.e. DNA wedi'i ailgyfuno, Prosiect Genomau Dynol, therapi genynnau, dadansoddi DNA, proffilio genetig

Defnyddiau: cynhyrchu cemegau defnyddiol, e.e. fferylliaeth, ensymau diwydiannol; amaethyddol, e.e. gwrthsefyll plâu/clefydau; defnyddiau eraill sy'n dod i'r amlwg os ydynt yn briodol

Goblygiadau: sgrinio genetig, diagnosis, olion bysedd genetig, cwnsela genetig; tystiolaeth fforensig; dadleuon hunaniaeth, e.e. tadogaeth; paru meinwe, e.e. ar gyfer trawsblaniad; eraill fel sy'n berthnasol i ddatblygiadau technolegol

4 Deall cyfyng-gyngor moesegol yng nghyswllt technolegau atgenhedlu a genynnol

Rheoleiddio: yn y famwlad, yr Undeb Ewropeaidd, y Cenhedloedd Unedig; deddfwriaeth, dyfarnwyr, addasu i dechnolegau sy'n datblygu, cymdeithas yn newid

Unigolion: hawliau, cyfrifoldebau, cyfrinachedd, ansawdd bywyd, perchnogaeth, eiriolaeth; eraill, e.e. gwyddonwyr, rhieni/aelodau o'r teulu, gofawyr, gweithwyr proffesiynol, carfannau pwysau, masnach; hawliau, cyfrifoldebau, credoau

Cymdeithas: gwerthoedd, manteision yn erbyn risgiau, systemau cefnogi, adnoddau, yr unigolyn yn erbyn y darlun ehangach

Lles: oedi datblygiadol, anabledd, tuedd i ddioddef salwch, anawsterau ymddygiad

Meini prawf graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio'r lefel cyflawniad sy'n angenrheidiol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 egluro proses meiosis yng nghyswllt cynhyrchu sberm ac ofa [YA1; DM2]		
LI2 esbonio'r ffactorau a all ddylanwadu ar y broses atgenhedlu ddynol [YA1; DM2]	T1 asesu'r berthynas rhwng genoteipiau dominyddol ac enciliol ac etifeddiad	
LI3 esbonio strwythur cromosomau a'u swyddogaeth wrth atgenhedlu [DM2]	T2 trafod effaith genoteipiau sy'n arwain at oedi datblygiadol neu'n amharu ar weithrediad normal y corff ar unigolion a chymdeithas	Rh1 gwerthuso'r gefnogaeth sydd ar gael i unigolion ac eraill wrth ymdopi gyda'r anawsterau a gysylltir ag atgenhedlu ac etifeddiad
LI4 egluro egwyddorion allweddol geneteg gan ddefnyddio enghreifftiau sy'n ymwneud ag etifeddiad dynol [DM2]		

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI5 amlinellu egwyddorion technolegau atgennedlu a genynnol a'u goblygiadau o ran unigolion, cymdeithas a'r amgylchedd [DM2; YA3; YA5; MC2; MC4]	T3 asesu manteision ac anfanteision technolegau atgennedlu a genynnol i unigolion a chymdeithas yng nghyswllt iechyd a lles.	Rh2 dadansoddi cyfyng-gyngor moesol sy'n codi yn sgil technolegau atgennedlu a genynnol.
LI6 esbonio'r cyfyng-gyngor moesol a all godi yn sgil technolegau atgennedlu a genynnol. [DM2; YA3; YA5; MC2; MC4]		

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwyr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol MC - meddylwyr creadigol	DM - dysgwyr myfyriol GT - gweithwyr tîm	HR - hunanreolwyr CE - cyfranogwyr effeithiol
----------------	--	---	--

Uned 35: Cyflwyniad i Ficrobioleg argyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cod yr Uned:	D/600/8992
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi'r dysgwyr i ddeall rôl micro-organebau ym maes iechyd a chlefydau, a'r manteision cymdeithasol a ddaw yn eu sgil.

Cyflwyniad i'r uned

I gychwyn bydd y dysgwyr yn edrych ar y gwahanol fathau o ficro-organebau, gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion pathogenig, gan ystyried eu gofynion o ran twf ac atgenhedlu, a dulliau o'u rheoli. Wedyn byddant yn ystyried pwysigrwydd micro-organebau ym maes iechyd a chlefydau dynol, a'r gwahanol ffyrdd o drosglwyddo organebau o un unigolyn i un arall. Bydd y dysgwyr yn archwilio nodweddion organebau sy'n gyfrifol am glefydau heintus penodol, yn cynnwys rhai sy'n achosi clefydau trofannol difrifol.

Mae'r uned hefyd yn ymchwilio i sut defnyddir micro-organebau er budd pobl, yn enwedig yng nghyswllt cynhyrchu bwydydd a deunydd fferyllol, a hefyd er lles yr amgylchedd.

Bydd yr uned hon yn ddefnyddiol i bob dysgwr, ond yn arbennig i'r rhai sy'n bwriadu gweithio yn y sectorau iechyd neu ofal cymdeithasol.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Ddeall cysyniadau microbioleg
- 2 Deall rôl micro-organebau o ran iechyd a chlefydau dynol
- 3 Deall manteision cymdeithasol micro-organebau.

Cynnwys yr uned

1 Deall cysyniadau microbioleg

Datblygiad microbioleg: theori generadiad digymell, theori miasma, theori germau; cyfraniadau gan, e.e. Robert Hooke, Anton van Leeuwenhoek, Edward Jenner, Louis Pasteur, John Snow, Joseph Lister, Robert Koch; cyfryngau microsgopig clefydau trosglwyddadwy: micro-organebau pathogenig - firysau, bacteria, ffyngau, Protoctista, (e.e. Protosoa, algae gwyrdd ungell), prionau; twf — gofynion, cyfradd, mecanwaith atgenhedlu

Feirysau: strwythur, retrofirysau, bacterioffagau

Bacteria: procariotig, gwahanol fathau, e.e. cocci, bacilli, spirilli, vibrio; ffurfiad tocsinau, ffurfiad sborau, plasmidau, cyfnewid genetig, pili, flagellae

Ffyngau: ewcariotig, burumau, llwydni

Protosoa: ewcariotig, gwahanol fathau, e.e. Plasmodiwm, Trypanosoma

Dulliau o reoli micro-organebau: polisïau a gweithdrefnau ar gyfer rheoli heintiau; imiweiddio, e.e. yn erbyn y frech goch, y dwymyn doben; cemegol, e.e. diheintyddion, gwrthfioleg, antiseptig, halen, asid; tymheredd, e.e. oeri, rhewi, defnyddio ffwrn aerglos; pelydriad, e.e. uwchfioled, gama; rheolaeth fector, e.e. mosgitos, clêr tsetse

2 Deall rôl micro-organebau o ran iechyd a chlefydau dynol

Mathau: endemig, epidemig, pandemig

Llwybrau trosglwyddo: cyswllt uniongyrchol, magwrfeydd, yn uniongyrchol i'r gwaed, yn yr awyr, mewn bwyd, mewn dŵr, drwy fectorau, trwy'r brych

'Flora normal': perthynas symbiotig, e.e. yn y llwybr gastroberfeddol, llwybr resbiradol, ar y croen

Ffynonellau haint: dogn heintiol, safle/llwybr heintiol i mewn i'r corff; y corff fel cronfa o heintiau, e.e. y coluddyn mawr, y trwyn, y croen, clwyfau; heintiau oportiwistaidd; cludwyr micro-organebau heintus

Heintiau firaol: mathau o, e.e. anwydau, ffliw, y frech goch, y dwymyn doben, poliomyelitis, rwbela, brech yr ieir, HIV/AIDS, hepatitis, herpes

Heintiau bacteriol: mathau o, e.e. tiwbercwlosis; gwenwyn bwyd salmonela, gwenwyn bwyd staffylococol, llwnc tost streptococol, y pâs, llid yr ymennydd meningococol, dysentri bacteriol, colera

Heintiau ffwngaid: burumau, e.e. candidiasis; llwydni, e.e. heintiau derwreiniol

Heintiau protosoaidd: mathau o, e.e. malaria, hunglwyf, tricomoniasis

Heintiau prion: Enceffalopathi Sbwngffurf Gwartheg (BSE), Clefyd Creutzfeldt-Jakob (CJD)

Y system imiwnedd: y berthynas rhwng systemau'r corff, pathogenau ac imiwnedd, e.e. rôl gwrthgorffynnau, imiwnoglobwlinau a lewcocytau, e.e. macroffagau a llymffocytau-T o ran amddiffyn pobl rhag pathogenau; cysyniad 'imiwnedd poblogaeth'

3 Deall manteision cymdeithasol micro-organebau

Bwyd: cynnyrch, e.e. bara, caws/cynnyrch llaeth wedi eplesu, gwin, cwrw, finegr, protein ungell

Cynnyrch Fferyllol: cynhyrchu gwrthfioteg, brechlynnau, inswlin

Amaethyddiaeth: cynhyrchu silwair, defnydd mewn plaleiddiaid

Ailgylchu deunydd: rôl bacteria a ffyngau wrth ailgylchu carbon a nitrogen trwy aer a phridd

Peirianeg enetig: defnyddio micro-organebau i newid codonau DNA

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio rôl gwyddonwyr yn natblygiad y ddealltwriaeth bresennol o ficrobioleg [YA1; MC2; DM6]		
LI2 esbonio nodweddion micro-organebau pathogenig [YA2]	T1 egluro'r ffactorau sy'n dylanwadu ar drosglwyddiad micro-organebau pathogenig i unigolion a phoblogaethau	Rh1 dadansoddi'r anawsterau wrth reoli micro-organebau
LI3 esbonio rôl 'fflora normal' ym maes iechyd a lles [YA2]		
LI4 esbonio dulliau o reoli micro-organebau [YA2; GT1; GT5]	T2 trafod effeithiolrwydd dulliau o reoli micro-organebau	Rh2 gwerthuso effaith clefyd heintus ar iechyd a lles unigolion a phoblogaethau.
LI5 esbonio egwyddorion trosglwyddiad micro-organebau pathogenig [YA2]		

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI6 esbonio manteision cymdeithasol micro-organebau. [YA3; CE1; CE6]	T3 trafod y cyfyng-gyngor moesegol a all godi yn sgil defnydd amhriodol o ficro-organebau.	

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwyr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol MC - meddylwyr creadigol	DM - dysgwyr myfyriol GT - gweithwyr tîm	HR - hunanreolwyr CE - cyfranogwyr effeithiol
----------------	--	---	--

Uned 36: Clefydau Trosglwyddadwy

Cod yr Uned:	H/600/8993
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi'r dysgwyr i ddeall cyd-destun rhyngwladol iechyd a gofal cymdeithasol mewn perthynas â phatrymau clefydau trosglwyddadwy a sut y gellir eu trin, eu hatal a'u rheoli.

Cyflwyniad i'r uned

Bydd y dysgwyr yn dod i ddeall patrymau rhyngwladol clefydau trosglwyddadwy a, thrwy hynny, ddealltwriaeth o anghydraddoldebau iechyd ar draws y byd, a rhai o'r rhesymau am hynny.

Mae'r uned yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr edrych yn fanwl ar glefydau trosglwyddadwy sy'n bwysig ar draws y byd, eu hamlygrwydd, a'u harwyddocâd yn awr ac yn y dyfodol o ran iechyd cyhoeddus yn y DU. Edrychir ar sawl agwedd wahanol ar y clefydau, yn cynnwys cyfryngau heintio, dulliau trosglwyddo, ffactorau sy'n effeithio ar drosglwyddo, arwyddion a symptomau, triniaeth bosib a dulliau rheoli gwahanol. Mae'r uned yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr edrych yn fanwl ar wahanol glefydau.

Bydd y dysgwyr hefyd yn ystyried effeithiau newid yn yr hinsawdd ar batrymau clefydau, a goblygiadau hynny.

Bydd yr uned hon yn ddefnyddiol i bob dysgwr, ac yn benodol i'r rhai sy'n bwriadu gweithio yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Wybod am effaith fyd-eang clefydau trosglwyddadwy
- 2 Deall sut mae clefydau trosglwyddadwy rhyngwladol yn cael eu trosglwyddo
- 3 Deall sut mae clefydau trosglwyddadwy rhyngwladol yn datblygu ac yn cael eu trin/hatal.

Cynnwys yr uned

1 Gwybod am effaith fyd-eang clefydau trosglwyddadwy

Patrymau dosbarthiad clefydau: patrymau clefydau ar draws gwledydd a chyfandiroedd, e.e. malaria, HIV/AIDS, twbercwlosis, dolur rhydd mewn babanod, y frech goch, poliomyelitis, clefydau parasitig

Data: cysylltiedig â chlefydau, e.e. cyfraddau marwolaethau, cyfraddau morbidrwydd, Blynnyddoedd Oes wedi eu Haddasu yn sgil Anabledd (DALYs), achosion o glefydau, amlygrwydd clefydau

Ffynonellau data: rhyngwladol, e.e. Sefydliad Iechyd y Byd (WHO); cenedlaethol, e.e. adrannau'r llywodraeth

Clefydau: clefydau cyffredin, e.e. dolur rhydd aciwt/cronig, llyngyr, clefyd crafu, clamidia a tracoma, HIV/AIDS, y frech goch, llid yr ymennydd, pertussis, poliomyelitis, heintiau resbiradol; clefydau llai cyffredin a throffannol, e.e. malaria a thwymyn dengue, y frech wen, tetanws, twbercwlosis, clefydau parasitig, e.e. scistosomiasis, leptospirosis, leishmaniasis

Effaith: clefydau, e.e. costau dynol, costau economaidd, goblygiadau iechyd cyhoeddus

2 Deall sut mae clefydau trosglwyddadwy rhyngwladol yn cael eu trosglwyddo

Haint: cyfryngau heintio, e.e. firws, bacteria, protosoa, parasitiaid, ffwng; cronfeydd yr haint, ffurfio sborau/codenni; cludwyr, e.e. clefydau a gludir mewn dŵr, clefydau a gludir gan fectorau (pryfed), helminthes, cyswllt dynol, bwyd wedi ei heintio neu heb ei goginio

Trosglwyddiad: dulliau, e.e. cyswllt uniongyrchol, magwrfeydd, yn uniongyrchol i'r gwaed, yn yr awyr, mewn bwyd, mewn dŵr, drwy fector, trwy'r brych

Ffactorau lletya: derbynedd, e.e. genetig, oedran, rhyw; statws maethol, ffactorau ffordd o fyw a diwylliannol, ymwrthedd a gaffaelwyd, hylendid personol; ffyrnigrwydd, lefel y gwenwyn, ymateb y dôs

Ffactorau amgylcheddol: y berthynas rhwng yr hinsawdd a chlefyd troffannol, goblygiadau'r newid yn yr hinsawdd a chynhesu byd-eang, tymoroldeb, presenoldeb fectorau, iechydaeth, cyflenwad o ddŵr glân, dadgoedwigo, diwydiannu a threfoli, llygredd

Ffactorau cymdeithasol: addysg, adnoddau cymdeithasol ac ariannol, e.e. cyfoeth/tlodi, cyflwr tai, maeth, mynediad i wasanaethau iechyd, teithio rhyngwladol, patrymau mudo a mewnfudo

3 Deall sut mae clefydau trosglwyddadwy rhyngwladol yn datblygu ac yn cael eu trin/hatal

Arwyddion a symptomau: cyfnodau deor; symptomau, e.e. tymheredd uchel yn y corff, crynu, dolur rhydd, peswch, pen tost a phoenau eraill, brech, chwydd anghyffredin

Triniaeth: fel sy'n briodol ar gyfer y clefyd, e.e. gwrthfioleg, ailhydradu, cyffuriau yn erbyn malaria, moddion gwrth-barasitig

Dulliau atal/rheoli Iechyd Cyhoeddus:

- ◇ *cynradd:* addysg iechyd genedlaethol, e.e. hylendid personol, defnyddio condomau, cyngor ar ddeiet; amddiffyniad penodol, e.e. imiwneiddio, triniaeth cyffuriau proffylactig, rhwydi mosgitos, gwrthyrwyr pryfed; rhyngwladol/delio gyda'r ffynhonnell, e.e. draenio corydd er mwyn atal malaria, dosbarthu cymorth, e.e. Rhaglen Fwyd y Byd
- ◇ *eilaidd:* ymyriadau sgrinio, e.e. archwilio microbioleg carthion, sgrinio'r gwaed, pelydr-X
- ◇ *trydyddol:* trin a chyfyngu ar glefydau, ailsefydlu, proffylacsis

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio patrymau dosbarthiad byd-eang clefydau trosglwyddadwy [YA1]	T1 esbonio'r rhesymau dros glefydau trosglwyddadwy	
LI2 disgrifio effaith clefydau trosglwyddadwy ar y byd [YA3]		
LI3 esbonio ffactorau sy'n effeithio ar drosglwyddiad clefydau trosglwyddadwy [YA1; MC2]	T2 trafod ffactorau sy'n effeithio ar drosglwyddiad dau glefyd trosglwyddadwy	Rh1 gwerthuso ffactorau sy'n effeithio ar drosglwyddiad dau glefyd trosglwyddadwy
LI4 esbonio arwyddion a symptomau posib clefydau trosglwyddadwy [MC2]		
LI5 esbonio dulliau ar gyfer trin, rheoli ac atal clefydau trosglwyddadwy. [DM5; CE3]	T3 trafod y dulliau ar gyfer trin, rheoli ac atal dau glefyd trosglwyddadwy.	Rh2 gwerthuso'r dulliau ar gyfer trin, rheoli ac atal dau glefyd trosglwyddadwy.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwyr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 37: Amddiffyniad yn erbyn Clefydau

Cod yr Uned:	K/600/8994
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi'r dysgwyr i gasglu gwybodaeth am y mecanweithiau sy'n amddiffyn y corff dynol yn erbyn peryglon, a dealltwriaeth o ymwrthedd penodol ac amhenodol i heintiau.

Cyflwyniad i'r uned

Bydd dysgwyr yn edrych ar natur peryglon cyffredin i'r corff dynol yn yr amgylchedd allanol, a sut gall y corff ei amddiffyn ei hun yn erbyn peryglon o'r fath. Edrychir yn fanwl ar swyddogaethau amddiffynnol y croen, yn ogystal â'r mecanweithiau cymhleth sy'n gysylltiedig â gwaed yn ceulo, a'r ymatebion amhenodol a phenodol i haint.

Ymchwilir hefyd i rôl y system lymffatig, yn ogystal â rôl imiwnedd o ran darparu gallu i wrthsefyll haint. Yn olaf, bydd y dysgwyr yn cael cyfle i ystyried rôl rhaglenni brechu.

Bydd yr uned hon yn ddefnyddiol i ddysgwyr sy'n bwriadu chwilio am swyddi yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol wrth gwblhau eu rhaglenni, neu ar gyfer y rhai sy'n awyddus i astudio ar lefel uwch.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Wybod sut caiff y corff ei amddiffyn rhag yr amgylchedd allanol
- 2 Deall ymwrthedd amhenodol i haint
- 3 Deall ymwrthedd penodol i haint.

Cynnwys yr uned

1 Gwybod sut caiff y corff ei amddiffyn rhag yr amgylchedd allanol

Peryglon amgylcheddol: gwres ac oerni; effeithiau ymbelydredd, e.e. uwchfioled; anafiadau, e.e. cytiau a chrafiadau, llosgiadau; haint; gwenwyn

Rhwysrau corfforol: croen (dwrghos, sebwm, adnewyddu'r epidermis a ffurfio creithiau, braster o dan y croen, derbynyddion synhwyrdd, melanin); pilenni mwcaidd

Mecanweithiau amddiffynnol: atgyrchau, e.e. tynnu'n ôl, gwrthio allan (e.e. peswch, tisian), chwydu a dolur rhydd; cynhyrchu dagrau; clwyfau'n gwella; ymateb ymfflamychol; rôl y gwaed

Gwaed: ymateb ceulo, gweithrediad y platennau; grwpiau gwaed a pharu meinwe; celloedd — ffagositau; lymffositau

Ymatebion amddiffynnol: amhenodol; penodol

2 Deall ymwrthedd amhenodol i haint

Rhwysrau mecanyddol a chemegol: croen di-fwlch; pilenni mwcaidd (secretu mwcws, gweithredu cileraidd); asid yn y stumog a'r wain; gweithrediad lysosom mewn dagrau a phoer; fflora normal

Ymatebion amddiffynnol amhenodol: ymfflamychu, ffagositosis; celloedd lladd naturiol; twymyn

Ffagositau: macroffagau; niwtroffilau

3 Deall ymwrthedd penodol i haint

Imiwnedd: naturiol, artiffisial; gweithredol, goddefol; enghreifftiau o bob imiwnedd naturiol: gweithrediad ffagositau; rôl lymffositau, imiwnedd cellol, imiwnedd hylifol

Lymffositau:

- ◇ *imiwnedd cellol:* lymffositau T, celloedd sytotocsig T, celloedd cynorthwyol T, celloedd cof T, derbynyddion celloedd T
- ◇ *imiwnedd anianol:* lymffositau B, ffurfio gwrthgyrff a gweithredu yn erbyn antigenau, e.e. cyfludiad, gwaddodiad, lysis; cof imiwnolegol, ymateb imiwnedd cynradd ac eilaidd; amrywiad antigenig
- ◇ *Imiwnedd a gaffaelwyd yn artiffisial:* gweithredol, e.e. yn erbyn heintiau bacteriol megis pertwsis, twbercwlosis, yn erbyn heintiau firaol megis Hepatitis A a B, ffliw, y frech goch, y dwymyn doben, poliomyelitis; goddefol, e.e. Hepatitis A, achosion tetanws sicr

- ◇ *Rhaglenni brechu*: rhaglenni brechu cyffredin, e.e. y ffliw, MMR, poliomyelitis; rôl o ran iechyd cyhoeddus, e.e. amddiffyniad penodol, lleol/rhanbarthol/ cenedlaethol/rhyngwladol, imiwnedd poblogaethau, costau dynol/economaidd

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 egluro sut caiff y corff ei amddiffyn rhag peryglon yn yr amgylchedd allanol [YA1; YA4; HR2]	T1 asesu rôl y croen yn amddiffyn y corff rhag peryglon allanol yn yr amgylchedd	
LI2 esbonio rhwystrau i haint ac ymatebion amddiffynnol amhenodol [YA1; DM6; HR2]	T2 asesu sut mae rhwystrau i haint ac ymatebion amddiffynnol amhenodol yn amddiffyn y corff	Rh1 gwerthuso rolau cymharol ymatebion amddiffynnol amhenodol a phenodol wrth amddiffyn y corff
LI3 esbonio rôl lymffosytâu wrth amddiffyn y system imiwnedd [YA1; YA4]		
LI4 esbonio imiwnedd gweithredol a goddefol a gaffaelwyd yn artiffisial [YA1; YA4; DM6; HR2]	T3 trafod datblygiad gallu naturiol penodol i wrthsefyll haint.	
LI5 esbonio diben rhaglenni brechu. [YA1; MC2; MC4; DM6; HR2]		Rh2gwerthuso llwyddiant rhaglen frechu ddiweddar mewn perthynas â iechyd cyhoeddus.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwyr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 38: Iechyd Amgylcheddol

Cod yr Uned:	T/600/8996
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw rhoi i'r dysgwyr ddealltwriaeth o effaith bosib bodau dynol ar yr amgylchedd, sut gall hynny, yn ei thro, effeithio ar iechyd dynol, a'r strategaethau y gellid eu defnyddio i leiafu'r effaith honno.

Cyflwyniad i'r uned

Mae'r uned yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr archwilio ystod eang o ffyrdd y gall gweithgareddau pobl gael effaith ar yr amgylchedd, a'r effeithiau posib ar iechyd dynol yn sgil ffactorau sy'n deillio o hyn. Bydd y dysgwyr hefyd yn ymchwilio i strategaethau a ddatblygwyd i leihau effaith gweithgareddau dynol ar yr amgylchedd, yn cynnwys deddfwriaeth.

Bydd yr uned hon yn ddefnyddiol i ddysgwyr sydd am weithio yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, gan y bydd yn rhoi dealltwriaeth iddynt o risgiau iechyd yn yr amgylchedd lleol a byd-eang a allai effeithio arnynt hwy ac ar gleifion neu ddefnyddwyr eu gwasanaethau. Bydd hefyd yn ddefnyddiol ar gyfer dysgwyr sydd am astudio ar lefel uwch.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Ddeall sut gall pobl niweidio'r amgylchedd
- 2 Deall effeithiau newid amgylcheddol ar iechyd dynol
- 3 Gwybod am y strategaethau a ddatblygwyd i leihau effaith gweithgareddau dynol ar yr amgylchedd.

Cynnwys yr uned

1 Deall sut gall pobl niweidio'r amgylchedd

Trefoli a dwysedd poblogaeth: gorboblogi, tlodi, systemau trafndiaeth, systemau ynni, cyflenwad dŵr, llygredd, e.e. allyriannau cerbydau, gwastraff yn cronni

Amaeth yn dwysáu: defnydd cynyddol o wrtaith/plaleiddiaid, addasu cnydau'n enetig, erydiad y pridd, un cnwd, llygru dyfrffyrdd, dinistrio cynefinoedd bywyd gwyllt, colli bioamrywiaeth

Llygru'r amgylchedd: aer, dŵr, tir, sŵn

Effeithiau eraill ar yr amgylchedd: yn sgil gweithgareddau dynol, e.e. ffynonellau pŵer niwclear, mwy o nitradau mewn dŵr yfed, allyriannau carbon monocsid

2 Deall effeithiau newid amgylcheddol ar iechyd dynol

Newid amgylcheddol: newid defnydd tir, dadgoedwigo, troi'n anialwch, pori, dulliau ffermio gwahanol, addasu genetig, defnyddio plaleiddiaid, datblygu cynaliadwy, llygredd, disbyddiad osôn

Effeithiau trefoli: gorboblogi, llygredd, plâu, hylendid, clefydau, tlodi

Effeithiau ar iechyd: iechyd corfforol, clefydau trosglwyddadwy, clefydau genetig, canser, iechyd maethol; iechyd meddwl

Ystod: unigol, lleol, rhanbarthol, cenedlaethol, rhyngwladol

3 Gwybod am y strategaethau a ddatblygwyd i leihau effaith gweithgareddau dynol ar yr amgylchedd

Rhyngwladol: rôl, e.e. y Cenhedloedd Unedig, Datganiad Rio ar yr Amgylchedd a datblygiad 1992; datblygu cynaliadwy; Sefydliad Iechyd y Byd (WHO); polisi datblygu rhyngwladol y DU

Carfannau pwysau: rôl, e.e. Greenpeace, Cyfeillion y Ddaear

Cenedlaethol: rôl, e.e. DEFRA

Rhanbarthol: rôl, e.e. Asiantaethau Datblygu Rhanbarthol

Lleol: strategaethau, e.e. Agenda 21, rhaglenni ailgylchu, biniau/cosbau baw cŵn, casglu a gwaredu gwastraff, cyfleusterau 'parcio a theithio', cynlluniau ynni adnewyddadwy

Swyddogion Iechyd Amgylcheddol: eu rôl, e.e. archwilio allfeydd bwyd, archwilio ffatrïoedd

Triniaethau: triniaethau nodweddiadol, e.e. dŵr, carthffosiaeth, aer

Ffermio organig: defnydd o, e.e. gwrtiaith naturiol, rheoli plâu yn fiolegol, rheoli plâu yn fecanyddol

Amddiffyn yr unigolyn: e.e. yn y cartref, yn y gweithle, mewn mannau cyhoeddus; rôl, e.e. Asiantaeth yr Amgylchedd, rôl swyddogion iechyd cyhoeddus; Rheoliadau Hylendid 1995; Ansawdd Aer - Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol; Gwastraff: Adran 33 Deddf Diogelu'r Amgylchedd

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio sut gall gweithgareddau pobl achosi difrod i'r amgylchedd [DM5; YA1; MC4]		Rh1 gwerthuso effaith sefydliadau wrth wella iechyd dynol
LI esbonio effeithiau amgylchedd a ddifrodwyd ar iechyd dynol [DM5; YA1]	T1 asesu'r berthynas rhwng difrod i'r amgylchedd a iechyd cyhoeddus	
LI3 disgrifio strategaethau a ddatblygwyd i leihau effaith gweithgaredd dynol ar yr amgylchedd [YA1,3; CE6]	T2 asesu effeithiolrwydd sefydliadau o ran gwella'r amgylchedd	
LI4 disgrifio rôl carfannau pwysau wrth gyflawni'r safonau a ddymunir i leihau effeithiau niweidiol un gweithgaredd dynol [YA1; YA3; CE2; CE6]		
LI5 disgrifio rôl deddfwriaeth a rheoliadau o ran lleihau effaith newid amgylcheddol ar iechyd dynol. [YA1; YA3; MC2; MC4]	T3 esbonio effaith deddfwriaeth a pholisïau o ran lleihau effaith un gweithgaredd dynol ar yr amgylchedd.	Rh2 cymharu effeithiolrwydd dulliau sefydliadol o ymdrin â materion iechyd amgylcheddol cenedlaethol neu ryngwladol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwyr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 39: Atal a Rheoli Heintiau

Cod yr Uned:	D/600/8989
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi'r dysgwyr i ddod i ddeall pwysigrwydd atal a rheoli heintiau mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd y dysgwyr yn gallu ymchwilio i achos ac ymlediad heintiau, y ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig ag atal heintiau, a'r gweithdrefnau ar gyfer rheoli eu hymlediad.

Cyflwyniad i'r uned

Mae statws iechyd bregus cleifion a defnyddwyr eraill y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn golygu ei bod yn hanfodol bod gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o gyfryngau heintio, a'u bod yn gallu cymhwyso egwyddorion atal a rheoli heintiau. Bydd y dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o achos ac ymlediad heintiau, sut gellir eu hatal rhag ymledu, a'u rheoli, a'r goblygiadau i gleifion, staff a sefydliadau os na fydd hynny'n effeithiol.

Mae pwysigrwydd rheoli heintiau yn amlwg o'r manylder a geir yn y ddeddfwriaeth a'r canllawiau a gynhyrchwyd, sydd yn eu tro yn cael eu dehongli a'u cymhwyso ar lefel sefydliadol. Bydd y dysgwyr yn ymchwilio i ddeddfwriaeth a chanllawiau, a pholisïau sefydliadol, sy'n berthnasol i reoli heintiau mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol.

Yn olaf bydd y dysgwyr yn dod i ddeall rolau gweithwyr yng nghyswllt perygl haint, a byddant yn canolbwyntio ar sut gall sefydliadau atal a rheoli heintiau.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Ddeall achosion heintiau a sut maent yn ymledu
- 2 Gallu dangos sut mae atal a rheoli ymlediad haint
- 3 Gwybod am y ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i atal a rheoli heintiau
- 4 Deall rolau, cyfrifoldebau a ffiniau yng nghyswllt rheoli heintiau.

Cynnwys yr uned

1 Deall achosion heintiau a sut maent yn ymledu

Achosion heintiau: fflora normal; fflora diflanedig; cadwyn heintio

Micro-organebau pathogenig a chlefydau: bacteria, e.e. MRSA, twbercwlosis, clefyd y llengfilwyr, tetanws; firysau, e.e. HIV, Hepatitis B, y frech goch, y dwymyn doben; ffyngâu, e.e. llindag, tarwden y traed, tarwden

Organebau parasitig: sy'n cludo clefyd, e.e. clefyd crafu, llau

Heintio a chytrefu: haint systemig; haint lleoledig; cytrefu

Twf micro-organebau: amodau (cronfa, bwyd, gwlybanaeth, gwres, ac amser)

Ymlediad micro-organebau: cyswllt, diferynnau, clêr, bysedd, magwrfeydd, ysgarthion, aer, dwst, dŵr, bwyd, hylifau'r corff; llwybrau allweddol ar gyfer cyfryngau heintio

2 Gallu dangos sut mae atal a rheoli ymlediad haint

Rhagofalon safonol: hylendid dwylo (techneg golchi dwylo, defnyddio gel alcohol ac antiseptig, sychu dwylo, gofalu am y croen, cyfleusterau angenrheidiol); defnyddio cyfarpar personol amddiffynnol priodol (PPE); glendid cyffredinol (personol, amgylcheddol, deunyddiau, cyfarpar; egwyddorion nyrsio ynysig); arfer diogel/dilyn y gweithdrefnau cywir; atal anafiadau gan offer llym; imiwneiddio (iechyd galwedigaethol ar gyfer staff, y cyhoedd ac unigolion); rheoli achosion o heintiau; trafod bwyd; rheoli dillad brwnt

Gweithdrefnau ar gyfer trafod, storio a gwaredu gwastraff: offer llym, gwastraff o'r cartref, gwastraff clinigol/perylus, gollyngiadau biolegol; defnyddio'r bag neu'r bin lliw cywir

Technegau dadlygru: risg isel, e.e. lloriau, celfi, cymhorthion symudedd; risg canolig, e.e. padelli gwely, wrinalau, comodau; risg uchel, e.e. offerynnau a ddefnyddiwyd ar gyfer technegau mewnwithiol; pwysigrwydd glanhau, diheintio a sterileiddio, y gwahaniaethau rhyngddynt; polisi'r sefydliad ar ddadlygru

3 Gwybod am y ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i atal a rheoli heintiau

Deddfwriaeth, rheoliadau a chanllawiau ar gyfer atal a rheoli heintiau: adrannau perthnasol o, e.e. Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, Deddf Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (newidiwyd 1994), Deddf Iechyd Cyhoeddus (Rheoli Clefydau) 1984, Deddf Diogelwch Bwyd 1990, COSHH 2002, RIDDOR 1995, Rheoliadau Iechyd Cyhoeddus (Clefydau Heintus) 1988, Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd Cyffredinol (Yr Adran Iechyd 1995), Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Dyletswydd Gofal) 1991, Mesur yr Asiantaeth Amddiffyn Iechyd, Rheoliadau Gwastraff Peryglus 2005, Canllaw NICE (Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol) 2 Mehefin 2003

Polisiau a gweithdrefnau sefydliadol: dogfennau perthnasol, e.e. llawlyfrau, dogfennau polisi cyflogwyr, canllawiau arfer da

4 Deall rolau, cyfrifoldebau a ffiniau yng nghyswllt rheoli heintiau

Rolau a chyfrifoldebau personél o ran rheoli heintiau: gweithwyr gofal; gweithwyr heblaw gofalwyr, e.e. garddwyr, cogyddion, gyrwyr, gweinyddwyr; rheolwyr; personél arbenigol, e.e. nyrsys rheoli haint, meddygol, Swyddog Iechyd Amgylcheddol; Unedau Amddiffyn Iechyd

Rolau a chyfrifoldebau gweithwyr o ran dilyn polisiau a gweithdrefnau'r sefydliad: adrodd am glefydau heintus neu hysbysadwy ac achosion ohonynt; ceisio cyngor ac arweiniad yn ôl y galw; derbyn, trosglwyddo a rhyddhau unigolion; dogfennau a chadw cofnodion yng nghyswllt haint; gweithdrefnau wedi marwolaeth unigolyn; trafod, casglu a storio sbesimenau - wrin (MSU/CSU), carthion, gwaed, cyfog, poer, swabiau o glwyfau; annog yr holl ymwelwyr i gydymffurfio â pholisiau a gweithdrefnau hylendid

Asesu risg: nodi'r perygl(on), asesu'r risg, cofnodi'r risg, dileu/lleihau'r risg, adolygu'r risg yn rheolaidd

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 esbonio sut mae gwahanol bathogenau yn achosi heintiau [YA1; HR3]		
LI2 esbonio sut mae micro-organebau pathogenig yn tyfu ac ymledu [YA1; HR3]		
LI3 arddangos rhagofalon safonol a fyddai'n cael eu defnyddio i atal haint rhag ymledu mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol [DM5; HR3; HR4; CE3; CE4]	T1 esbonio sut mae rheoli achosion o haint mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol	Rh1 asesu sut mae'r mesurau a awgrymir ar gyfer rheoli achosion o haint yn bodloni'r gofynion cyfreithiol a'r canllawiau ar gyfer atal a rheoli heintiau mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol
LI4 nodi agweddau allweddol ar ddeddfwriaeth a chanllawiau sy'n berthnasol i atal a rheoli heintiau mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol [HR3]	T2 esbonio rôl gweithdrefnau sefydliadol wrth atal a rheoli haint mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol	

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI5 disgrifio rolau a chyfrifoldebau personél o ran atal a rheoli haint mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol. [MC2; HR3]	T3 adolygu asesiad risg yng nghyswllt atal a rheoli haint a luniwyd mewn lleoliad gwaith iechyd neu ofal cymdeithasol.	Rh2 asesu sut gall asesiad risg gyfrannu at leihau cyfraddau heintio mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwyr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 40: Gofal Dementia

Cod yr Uned:	R/600/8990
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	5
Oriau dysgu dan arweiniad:	30

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi'r dysgwyr i gaffael gwybodaeth am effeithiau gwahanol fathau ar dementia ar les yr unigolyn. Bydd y dysgwyr yn gallu datblygu gwybodaeth am ddeddfwriaeth a pholisïau cyfredol a dealltwriaeth o ddull person-ganolog, wrth ofalu am bobl sydd â dementia a'u teuluoedd, a'u cefnogi.

Cyflwyniad i'r uned

Bu ymwybyddiaeth gynyddol o ddementia a sut mae'n effeithio ar unigolion a'u teuluoedd. Mae'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol wedi bod yn gweithio i ddatblygu dull person-ganolog o ddarparu gwasanaethau ar gyfer pobl â dementia. Bydd dysgwyr sy'n astudio'r uned hon, felly, yn canolbwyntio ar anghenion yr unigolyn yn hytrach nag ar y dementia. Mae'r uned hon yn tynnu ar y *Set o Wybodaeth ar gyfer Dementia*, a ddatblygwyd gan Sgiliau ar gyfer Gofal, sy'n darparu'r wybodaeth waelodol ar gyfer y rhai sy'n gweithio mewn amgylcheddau iechyd a gofal cymdeithasol neu'r rhai sydd am gael gyrfa ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Term cyffredinol ar gyfer amrywiaeth o gyflyrau yw dementia, ac mae camddealltwriaeth yn gallu codi yn aml. I gychwyn, cyflwynir y dysgwyr i'r mathau lluosog o ddementia, yr arwyddion cyffredin a'r effeithiau posib ar unigolion. Bydd dysgwyr yn ystyried effaith dechrau dementia, a'r goblygiadau ar gyfer unigolion, eu ffrindiau a'u teuluoedd. Edrychir ar yr ystod o wasanaethau sydd ar gael, a allai gefnogi unigolion sy'n dioddef o ddementia. Cyflwynir y dysgwyr i wahanol rolau gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol a'r rhai sy'n rhan o'r maes mewn swyddogaeth broffesiynol, yn ogystal â'r amrywiaeth o ffyrdd o gynnal unigolion i gadw eu hannibyniaeth a gwella ansawdd eu bywyd. Edrychir ar sut gall gwasanaethau weithio mewn partneriaeth i asesu a monitro iechyd ac ansawdd bywyd unigolyn.

Mae cysylltiadau agos rhwng yr uned hon ac *Uned 11: Diogelu Oedolion a Hybu Annibyniaeth*, *Uned 9: Gwerthoedd a Chynllunio ym maes Gofal Cymdeithasol*, *Uned 26: Gofalu am unigolion sydd ag Anghenion Ychwanegol* ac *Uned 28: Gofalu am Bobl Hŷn*.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Wybod am y mathau o ddementia a'u heffeithiau ar iechyd ac ansawdd bywyd
- 2 Gwybod am y ddeddfwriaeth a'r fframweithiau sy'n llywodraethu gofal dementia
- 3 Deall y rolau a'r cyfrifoldebau wrth ofalu am unigolion sy'n dioddef o ddementia.

Cynnwys yr uned

1 Gwybod am y mathau o ddementia a'u heffeithiau ar iechyd ac ansawdd bywyd

Diffiniadau: diffiniad o'r gwahaniaeth rhwng dementia, iselder a chyflyrau dryslyd; pwysigrwydd diagnosis; goblygiadau o ran cefnogi unigolion a gofalu amdanynt; dementia mewn pobl iau

Mathau o ddementia: clefyd Alzheimer, dementia fasgwlaidd; clefyd Pick; dementia gyda chyrff Lewy (blaen-dalcennol); Clefyd Creutzfeldt-Jakob (CJD); clefyd Huntington

Arwyddion a symptomau cyffredin dementia: dirywiad yn y cof, mewn rhesymu ac mewn cyfathrebu; newidiadau mewn ymddygiad; colli sgiliau; galluedd sy'n amrywio; anawsterau symud

Effeithiau: ansawdd bywyd, e.e. ofn, teimlad o ddiffyg rheolaeth, colli urddas, colli hunaniaeth, diffyg ymwneud, amharu ar breifatrwydd, colli eu cartref eu hunain, anallu i gyfleu anghenion a dewisiadau, cymdeithasol, colli ffrindiau, colli ymwneud â'r gymuned, anhawster wrth ddelio â'u materion ariannol eu hunain, agweddau pobl eraill; effaith ar iechyd, e.e. mwy o berygl o gwmpo, maeth, hylendid personol, llai o ymarfer corff; cam-drin yn fwy tebygol, e.e. emosiynol, esgeuluso, corfforol, rhywiol, ariannol, mwy o debygolrwydd y dioddefir anaf neu niwed

2 Gwybod am y ddeddfwriaeth a'r fframweithiau sy'n llywodraethu gofal dementia

Deddfwriaeth: Deddf Pŵer Twrnai Parhaol; Deddf Hawliau Dynol; Deddf Diogelu Data; Deddf Gallu Meddyliol; Deddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed; Deddf Iechyd Meddwl; Deddf Cydraddoldeb Sengl

Fframweithiau: Rhoi Pobl yn Gyntaf: Rhannu gweledigaeth ac ymrwymiad i weddnewid gofal cymdeithasol i oedolion; Byw'n Dda gyda Dementia - y Strategaeth Dementia Genedlaethol

3 Deall y rolau a'r cyfrifoldebau wrth ofalu am unigolion sy'n dioddef o ddementia

Dull person-ganolog: egwyddorion gofal, e.e. urddas, parch, dewis, annibyniaeth, preifatrwydd, hawliau, diwylliant; gweld y person yn gyntaf a'r dementia'n ail; canolbwyntio ar gryfderau a gallu; cyfathrebu priodol neu a ffafir; gweithredu er lles pennaf yr unigolyn; perthynas rhwng pobl a'i gilydd; cynnwys yr unigolyn wrth gynllunio gofal; ystyried eu hanes, e.e. personol, teuluol, meddygol; dull cyfannol, ymatebol a hyblyg; cynnwys teulu a ffrindiau, credoau personol yr unigolyn, canolbwyntio ar gryfderau a galluedd, cyfathrebu effeithiol

Diogelu ac amddiffyn: hyfforddi a recriwtio staff; gwaith diogelu; cydbwysedd rhwng amddiffyniad a chynnal hawliau; technolegau cynorthwyol, e.e. matiau pwysau, larymau drws wedi eu cysylltu â pheiriannau galw staff, larymau personol o amgylch y gwddf; amgylchedd galluogol, diogel, e.e. canllawiau, lloriau diogel, defnydd o liw/gwead, cymhorthion ymarferol

Cynnal iechyd a lles: dulliau, e.e. moddion confensiynol, trafod moddion yn ddiogel, moddion cyflenwol, diet a maeth, cymeriant hylif, gofal personol, mesurau i leihau perygl haint; ymarfer corff priodol, gweithgareddau penodol ar gyfer anghenion yr unigolyn, e.e. cerddoriaeth synhwyrdd; therapïau amgen, e.e. aromatherapi, tylino, synhwyrdd

Darparu gwasanaeth: gweithio integredig; preifat; statudol; trydydd sector, e.e. ysbytai, hosbisau, gofal preswyl, cartrefi nyrsio, byw'n annibynnol, tai lloches, gofal dydd, gofal cartref, Meddygon Teulu, gwasanaethau cymdeithasol, fferyllwyr, cymorth terfyn oes, ymateb gofal brys, ymyrraeth gynnar, gwasanaethau seiciatrïg, gwasanaethau'r cof, ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol, deietegwyr, gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol eraill, cwnselwyr, cynghorwyr dementia, eiriolwyr

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio'r mathau o ddementia a'r arwyddion a'r symptomau cyffredin [MC2]	T1 asesu effeithiau posib gwahanol fathau o ddementia ar unigolion a'u teuluoedd	
LI2 amlinellu effeithiau posib dementia ar iechyd ac ansawdd bywyd yr unigolyn [YA3]		
LI3 disgrifio deddfwriaeth a fframweithiau sy'n llywodraethu gwaith gydag unigolion sy'n dioddef o ddementia [YA4; YA6; MC5]	T2 trafod rôl gwaith tîm wrth wella iechyd ac ansawdd bywyd pobl sydd yn dioddef o ddementia.	Rh1 gwerthuso sut gall gwahanol ffyrdd o ofalu am bobl sy'n dioddef o ddementia effeithio ar ganlyniadau unigol.
LI4 esbonio rolau a chyfrifoldebau gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol wrth wella iechyd ac ansawdd bywyd pobl sy'n dioddef o dementia. [YA6; MC5]		

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwyr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 41: Gweithio gyda Meddyginiaeth ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cod yr Uned:	J/600/8999
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	5
Oriau dysgu dan arweiniad:	30

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi'r dysgwyr i gaffael gwybodaeth am wahanol fathau o feddyginiaeth a dulliau o'u gweinyddu. Byddant hefyd yn gallu dod i ddeall y ddeddfwriaeth gysylltiedig, rolau a chyfrifoldebau, ac egwyddorion arfer diogel sy'n gysylltiedig â gweithio gyda meddyginiaeth.

Cyflwyniad i'r uned

Mae cynnal gweinyddu meddyginiaeth yn swyddogaeth allweddol yn rôl llawer o ofalwyr sy'n gweithio yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol.

I gychwyn, bydd y dysgwyr yn dysgu am y gwahanol fathau o feddyginiaeth a ragnodir yn gyffredin a'r dulliau o'u gweinyddu, yn ogystal â'r newidiadau neu'r sgil-ffeithiau y gall unigolyn eu profi ar ôl cymryd meddyginiaeth.

Mae'r uned yn edrych ar bwysigrwydd caniatâd gwybodus gallu meddyliol, yn ogystal â phwysigrwydd cyfathrebu rhwng y gofalwr a'r unigolyn a rhwng y gofalwr a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda'r unigolyn. Wedyn bydd y dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o lwybr gweinyddu meddyginiaeth, gan gynnwys gweithdrefnau cofnodi, adrodd, storio ac archwilio.

O fewn yr uned bydd dysgwyr yn dod i ddeall y ddeddfwriaeth a'r canllawiau sy'n darparu sylfaen ar gyfer arfer diogel wrth weinyddu meddyginiaeth.

Datblygwyd yr uned hon o'r *Set o Wybodaeth ar gyfer Meddyginiaeth* a ddatblygwyd gan Sgiliau ar gyfer Gofal, a bydd yn ddefnyddiol i'r rheiny sy'n gweithio mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Wybod am y gwahanol fathau o feddyginiaeth a'r dulliau o'u gweinyddu
- 2 Deall rôl deddfwriaeth wrth weithio gyda meddyginiaeth
- 3 Deall rolau, cyfrifoldebau a ffiniau wrth weithio gyda meddyginiaeth
- 4 Deall egwyddorion arfer diogel wrth weinyddu meddyginiaeth.

Cynnwys yr uned

1 Gwybod am y gwahanol fathau o feddyginiaeth a'r dulliau o'u gweinyddu

Y mathau o feddyginiaeth a ragnodir ac a weinyddir i unigolion: gwrthfoteg (defnyddir i ymladd heintiau); poenleddfwyr (defnyddir i leddfu poen); gwrth-histamin (defnyddir i leddfu symptomau alergedd, e.e. clefyd y gwair); gwrthasid (defnyddir i leddfu diffyg traul); gwrth-geulwyr (defnyddir i atal y gwaed rhag ceulo, e.e. wedi trawiad ar y galon, thrombosis, rhai triniaethau llawfeddygol); meddyginiaeth seicotropig (e.e. defnyddir i drin iselder); diwretig (defnyddir i glirio hylif gormodol o'r corff); carthyddion (defnyddir i leddfu rhwymedd); hormonau (e.e. inswlin, steroidau, Therapi Amnewid Hormonau); meddyginiaethau cytotoicsig (defnyddir i drin rhai mathau o ganser)

Dosbarthiad meddyginiaeth: meddyginiaeth presgripsiwn yn unig (POM); meddyginiaeth dros y cownter (P — pan fo'r fferylllydd yn bresennol, GSL — Rhestr Gwerthiant Cyffredinol); cyffuriau rheoledig; triniaethau cyflenwol/homeopathig

Dulliau o weinyddu meddyginiaeth a chan bwy: mewnanadlu (defnyddio mewnanadlwyr — trwynol neu eneuol); brechiad (trwy dylu'r croen); amlyncu (moddion/taledi a roddir yn y geg, gan gynnwys o dan y dafox); argroenol (hufen, hylif, eli a ddefnyddir); trwythiad (diferiad mewnwyrthiennol); distyllu (diferion yn y clustiau/trwyn/llygaid); PR — per rectum (enemas, tawddgyffuriau); PV — per vagina (pesariau, hufen)

Newidiadau i'r unigolyn wedi gweinyddu meddyginiaeth: newidiadau corfforol, e.e. brech, trafferth anadlu, chwydd, teimlo'n gyfoglyd, cyfogi, dolur rhydd, teimlo'n stiff, ysgwyd, pen tost, teimlo'n gysglyd, rhwymedd, ennill pwysau; a yw'r newidiadau o ganlyniad i'r feddyginiaeth; angen gwirio'r gwrtharwyddion a rhyngweithiad meddyginiaethau cyn gweinyddu triniaethau cartref neu dros y cownter neu therapïau neu driniaethau gyflenwol

2 Deall rôl deddfwriaeth wrth weithio gyda meddyginiaeth

Deddfwriaeth a chanllawiau sy'n rheoli rhagnodi, dosbarthu, gweinyddu, storio a gwaredu moddion: adrannau perthnasol o, e.e. Deddf Moddion 1968 a'r newidiadau iddi, Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 (Cyffuriau Rheoledig) a'r newidiadau iddi, Deddf Gallu Meddyliol 2005, Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, Deddf Mynediad i Gofnodion Iechyd 1990, Deddf Diogelu Data 1998, Rheoliadau COSHH 1999, Deddf Safonau Gofal 2000 (derbyn, storio a gweinyddu moddion), Gweinyddu a Rheoli Moddion mewn Cartrefi Gofal a Gwasanaethau Plant, Mehefin 2003, Rheoliadau Gwastraff Peryglus 2005

Y fframwaith cyfreithiol: sut mae polisïau a gweithdrefnau'r sefydliad yn adlewyrchu'r rhain er mwyn sicrhau bod pob gweithiwr yn trafod meddyginiaeth yn ddiogel - rhagnodi, dosbarthu, gweinyddu, storio a gwaredu

3 Deall rolau, cyfrifoldebau a ffiniau wrth weithio gyda meddyginiaeth

Unigolion sy'n ymwneud â'r broses hon: rhagnodwyr (meddygol ac anfeddygol); rheolwyr; staff gofal cymdeithasol; staff ategol; staff ysgrifenyddol/gweinyddwyr

Cyfrifoldebau a therfynau'r holl weithwyr o ran trafod meddyginiaeth yn ddiogel (rhagnodi, dosbarthu, gweinyddu, storio a gwaredu): amrywiol gyd-destunau gofal, e.e. cartrefi gofal (gofal personol neu nyrsio), gwasanaethau dydd, cartref yr unigolyn ei hun, llety lloches, tai â chymorth, rhwydweithiau a gwasanaethau eraill i unigolion (e.e. addysg, sefydliadau crefyddol, asiantaethau gwirfoddol, gweithgareddau ac adloniant); yr angen am wirio bod y moddion a dderbyniwyd yn cyfateb i'r feddyginiaeth a'r dogn a ragnodwyd gan y rhagnodwr ac wedi'i restru ar y dogfennau priodol; yr angen am geisio arweiniad a chefnogaeth (ac o ble) ynghylch y moddion a'r dogn a ragnodwyd ar gyfer unrhyw unigolyn penodol, e.e. rhagnodwr (meddygol neu anfeddygol), Galw Iechyd Cymru, rheolwr, nyrs, neu ddeunydd cefnogi cyfeiriadol; yr angen am gyfrinachedd, pryd ac i bwy y gellir datgelu gwybodaeth am feddyginiaeth unigolyn, neu ei thrafod, e.e. meddyg, fferyllydd, gweithwyr gofal proffesiynol eraill, perthnasau/cyfreithiwr sydd ag atwrneiaeth barhaol

4 Deall egwyddorion arfer diogel wrth weinyddu meddyginiaeth

Sicrhau caniatâd i'w gweinyddu: gallu meddyliol a chaniatâd gwybodus; defnyddio eiriolwr annibynnol, aelod o'r teulu, gweithiwr meddygol proffesiynol i gynorthwyo wrth sicrhau caniatâd gwybodus; sefyllfaoedd lle nad yw caniatâd gwybodus yn bosib; gweithredu er lles pennaf yr unigolyn lle nad yw caniatâd gwybodus yn bosib

Paratoadau cyn gweinyddu: asesu'r risg o ran hunan-weinyddu, gweinyddu eilaidd; paratoadau cyn gweinyddu - gweithdrefnau hylendid sylfaenol, cyfarpar cywir (e.e. menig, blwch dogni), dogfennau cofnodi cywir

Gweinyddu moddion: sicrhau'r feddyginiaeth gywir, y dogn cywir, y person cywir, yr amser cywir a'r dull cywir; gweinyddu moddion gan y cleifion eu hunain; polisi'r sefydliad, dewis y claf

Cofnodi, adrodd a gofyn am gyngor: beth i'w gofnodi (y feddyginiaeth a roddwyd, i bwy y'i rhoddwyd, pryd, pa ddog, a'r dull gweinyddu); sylwadau a llofnod bob tro ar ôl gweinyddu; adrodd a gofyn am gyngor (ynghylch adwaith, os bydd unigolyn yn gwrthod cymryd meddyginiaeth, lle gwneir camgymeriadau wrth weinyddu)

Archwilio a storio stoc: sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio'n unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr (mewn amgylchedd glân, trefnus a diogel, ar y tymheredd cywir); sicrhau bod nifer y dognau a dderbyniwyd, a weinyddwyd ac sy'n weddill yn cael eu cofnodi'n gywir; gwirio'r cofnodion am gywirdeb; sicrhau bod moddion sydd wedi dyddio neu sy'n ddiangen yn cael ei waredu'n ddiogel

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio dulliau o weinyddu gwahanol fathau o feddyginiaeth a ragnodir yn gyffredin i unigolion [YA1; MC2]		
LI2 disgrifio sgil-effeithiau cyffredin gwahanol fathau o feddyginiaeth [YA1; MC2]		
LI3 esbonio rhannau perthnasol o ddeddfwriaeth allweddol a'r canllawiau cysylltiedig mewn perthynas â gweinyddu meddyginiaeth [YA4]	T1 trafod sut mae deddfwriaeth a chanllawiau yn dylanwadu ar bolisiau a gweithdrefnau'r sefydliad mewn perthynas â gweinyddu meddyginiaeth	Rh1 gwerthuso effaith deddfwriaeth a chanllawiau ar weinyddu meddyginiaeth
LI4 egluro rolau a chyfrifoldebau o ran gweinyddu meddyginiaeth mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol [MC3]	T2 cymharu'r cyfrifoldebau a'r lefel o atebolrwydd a roddwyd i unigolion sy'n ymwneud â gweinyddu meddyginiaeth	

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI5 esbonio arfer diogel wrth weinyddu a storio meddyginiaeth. [DM5; MC4]	T3 trafod sut mae sicrhau arfer diogel wrth weinyddu a storio meddyginiaeth.	Rh2 gwerthuso rôl arfer diogel wrth weinyddu a storio meddyginiaeth o ran y canlyniadau i unigolion.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwyr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 42: Gwaith Cefnogi ym maes Gofal Cymdeithasol

Cod yr Uned:	L/600/9006
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	5
Oriau dysgu dan arweiniad:	30

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi'r dysgwyr i gaffael gwybodaeth am rolau gweithwyr gofal anuniongyrchol a'u cyfraniad i waith tîm a gweithrediad effeithiol y gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Cyflwyniad i'r uned

Bydd astudio'r uned hon yn galluogi dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth o bwysigrwydd gwaith cefnogi ym maes gofal cymdeithasol. Mae angen cefnogaeth gan ystod eang o weithwyr cymorth yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys ym meysydd cynnal a glanhau adeiladau, gyrru, garddio, arlwy, gweinyddiaeth a diogeledd.

Datblygwyd yr uned hon o'r *Set o Wybodaeth ar gyfer Gweithwyr nad ydynt yn ymwneud â Gofal Uniongyrchol* a ddatblygwyd gan Sgiliau ar gyfer Gofal, a bydd yn ddefnyddiol ar gyfer y rheiny sy'n gweithio mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol neu sy'n dysgu am y gweithle cyn cychwyn ar eu gwaith. Mae cysylltiadau rhwng yr uned hon ac *Uned 1: Datblygu Cyfathrebu Effeithiol ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol* ac *Uned 3: Iechyd, Diogelwch a Diogeledd ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol*.

Bydd rhan gyntaf yr uned yn cyflwyno'r dysgwyr i'r ystod o rolau gofal anuniongyrchol, a byddant yn edrych ar rolau gweithwyr mewn gwahanol amgylcheddau gofal cymdeithasol. Bydd y dysgwyr yn mynd ymlaen i ystyried rolau a chyfrifoldebau yng nghyd-destun gwaith tîm, gan ganolbwyntio yn y lle cyntaf ar bwysigrwydd sgiliau rhyngbersonol rhwng gweithwyr a chydweithwyr, rheolwyr a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'u teuluoedd. Bydd dysgwyr yn ystyried rôl hanfodol gweithwyr o ran sicrhau gweithrediad effeithiol y tîm cyfan, mewn lleoliad gofal cymdeithasol, a chyflenwi gwasanaethau yn effeithiol er mwyn sicrhau'r

canlyniadau gorau i bobl sy'n eu defnyddio. Bydd dysgwyr yn cael gwybod am ddeddfwriaeth allweddol a rheoliadau sy'n ymwneud â iechyd, diogelwch a diogeledd. Byddant yn ymchwilio i gyfrifoldebau gweithwyr gofal anuniongyrchol, megis ym maes diogeledd, rheoli heintiau, delio gyda gwastraff a storio sylweddau niweidiol, yng nghyswllt y rhain. Yn olaf, bydd y dysgwyr yn cael trosolwg o linellau rheolaeth, pwysigrwydd goruchwyliaeth, a datblygiad a hyfforddiant gweithwyr nad ydynt yn ymwneud â gofal uniongyrchol.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Wybod am y rolau sy'n ymwneud â gofal anuniongyrchol mewn amgylcheddau gofal cymdeithasol
- 2 Gwybod am bwysigrwydd gwaith tîm mewn amgylcheddau gofal cymdeithasol
- 3 Deall rôl gweithwyr nad ydynt yn ymwneud â gofal uniongyrchol o ran cynnal iechyd, diogelwch a diogeledd.

Cynnwys yr uned

1 Gwybod am y rolau sy'n ymwneud â gofal anuniongyrchol mewn amgylcheddau gofal cymdeithasol

Amgylcheddau gofal: cartrefi gofal (personol neu ofal nyrsio); gwasanaethau dydd; cartref yr unigolyn ei hun; llety lloches; tai gyda chefnogaeth; rhwydweithiau a gwasanaethau eraill ar gyfer unigolion, e.e. addysg, sefydliadau crefyddol, sefydliadau trydydd sector, asiantaethau gwirfoddol

Rolau: gofal anuniongyrchol, e.e. gweinyddwyr, cynnal adeiladau, staff diogeledd, glanhawyr, gweithwyr golchi dillad, gyrwyr, garddwyr, derbynyddion, arlwywyr

2 Gwybod am bwysigrwydd gwaith tîm mewn amgylcheddau gofal cymdeithasol

Gwaith tîm: diffiniad o dîm; rolau ffurfiol ac anffurfiol; manteision gwaith tîm; ymateb i geisiadau gan aelodau'r tîm; rolau a chyfrifoldebau; ffiniau'r rôl; disgrifiadau swydd; strwythurau sefydliadol, e.e. rheolwyr llinell, llinellau adrodd, goruchwyliaeth; arfarnu a datblygiad personol a phroffesiynol

Sgiliau rhyngpersonol mewn amgylcheddau gofal cymdeithasol: gweithio gyda rheolwyr, gweithwyr proffesiynol, cydweithwyr eraill, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, e.e. cyfathrebu (geiriol, di-eiriau), rhwystrau i gyfathrebu, perthnasoedd rhyngpersonol, adrodd am faterion a phryderon, cynnal cyfrinachedd, datgelu camarfer, ymwybyddiaeth o gyfle cyfartal, arfer anwahaniaethol

Cyflwyniad personol: gwisg, iwnifform, bathodynau enw, delio gydag ymholiadau, yr angen am gyfarch unigolion yn briodol, iaith, goslef

3 Deall rôl gweithwyr nad ydynt yn ymwneud â gofal uniongyrchol o ran cynnal iechyd, diogelwch a diogeledd

Deddfwriaeth a chanllawiau: adrannau perthnasol o, e.e. Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, Deddf Diogelwch Bwyd 1990, Rheoliadau Amddiffyn yr Amgylchedd (Dyletswydd Gofal) (1991), RIDDOR 1995, Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd Cyffredinol) 1995, Deddf Diogelu Data 1998; Deddf Safonau Gofal 2000, COSHH 2002, Deddf yr Asiantaeth Amddiffyn Iechyd 2004, Rheoliadau Gwastraff Peryglus 2005

Diogeledd mewn amgylchedd gofal cymdeithasol: monitro'r rhai sy'n galw heibio, e.e. peirianwyr gwasanaeth, personél dosbarthu; sicrhau bod ardaloedd wedi eu diogelu, e.e. siediau yn yr ardd, cypyrddau storio, garej, storio a defnyddio cyfarpar, e.e. offer garddio, cyllyll, peiriannau'r cartref, malwr, cyfrifiadur, cerbydau modur, allwedd

Iechyd a diogelwch: mesurau rheoli heintiau; hylendid dwylo (techneg gywir ar gyfer golchi dwylo, defnydd o gel alcohol ac antiseptig arall); sychu dwylo, gofal am y croen; cyfarpar amddiffynnol personol; dillad amddiffynnol; menig

Arferion gwaith diogel: glendid cyffredinol (personol, amgylcheddol, deunyddiau, cyfarpar); egwyddorion nyrsio ynysig; imiwneiddio, dilyn gweithdrefnau arfer diogel; atal anafiadau gan offer llym; rheoli achosion o heintiau; trafod bwyd; storio a gwaredu gwastraff penodol o'r amgylchedd gofal (gwastraff clinigol, gwastraff o'r cartref; dillad brwnt a gwastraff; offer llym; moddion; cofnodion cyfrinachol) storio a defnyddio sylweddau (peryglus neu nad ydynt yn beryglus i iechyd) gwaith diogelu; gweithdrefnau recriwtio

Arferion gwaith: disgrifiadau swydd; cyfrifoldebau; llinellau rheolaeth; goruchwyliaeth; monitro; arfarnu; hyfforddiant

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 nodi rolau gweithwyr gofal anuniongyrchol [MC2]	T1 disgrifio pwysigrwydd sgiliau rhyngbersonol ar gyfer gweithwyr gofal anuniongyrchol	Rh1 asesu pwysigrwydd gweithwyr gofal anuniongyrchol yng ngweithrediad effeithiol tîm
LI2 amlinellu'r sgiliau rhyngbersonol sy'n ofynnol ar gyfer gweithwyr gofal anuniongyrchol [YA3; YA6; MC2]		
LI3 esbonio rôl gweithwyr gofal anuniongyrchol yng ngweithrediad tîm [YA3; MC2]	T2 asesu rôl gweithwyr gofal anuniongyrchol yng ngweithrediad effeithiol tîm	
LI4 esbonio rôl gweithwyr gofal anuniongyrchol o ran cynnal iechyd, diogelwch a diogeledd yn yr amgylchedd gofal cymdeithasol [YA3; YA4; MC2]	T3 trafod rôl gweithwyr gofal anuniongyrchol o ran cynnal iechyd, diogelwch a diogeledd yn yr amgylchedd gofal cymdeithasol.	Rh2 gwerthuso pwysigrwydd rôl gweithwyr gofal anuniongyrchol o ran cynnal iechyd, diogelwch a diogeledd yn yr amgylchedd gofal cymdeithasol.
LI5 esbonio pwysigrwydd goruchwyliaeth a rheolaeth wrth ddatblygu gweithwyr gofal anuniongyrchol. [YA3; YA6; MC2]		

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwyr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 43: Technoleg mewn Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cod yr Uned:	T/600/9002
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw rhoi i'r dysgwyr ddealltwriaeth o'r ystod o dechnolegau a ddefnyddir ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a'u goblygiadau ar gyfer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau. Bydd yn annog datblygiad sgiliau'r dysgwyr eu hunain wrth iddynt baratoi i weithio yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol.

Cyflwyniad i'r uned

Mae datblygiadau o ran gwybodaeth a thechnolegau eraill wedi cael effaith sylweddol ar waith yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae llawer o fanteision i'r datblygiadau technolegol hyn, ond maent hefyd wedi creu dadleuon ynghylch, er enghraifft, diogelu data, cyflwyno technolegau meddygol ac anghydraddoldebau posib o ran argaeledd technoleg gynorthwyol. Bydd yr uned hon yn rhoi dealltwriaeth o'r ystod o dechnolegau i ddysgwyr, p'un a ydynt yn bwriadu gweithio yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, neu fynd ymlaen i astudio ar lefel uwch.

Mae'r uned yn cyflwyno'r dysgwyr i'r broses o gymhwyso'r ystod o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu a ddefnyddir yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys datblygu cronfeydd data cenedlaethol. Bydd y dysgwyr yn mynd ymlaen i gynhyrchu eu dogfennau eu hunain, a fydd yn darparu cyfle i werthfawrogi ystod o ffyrdd o gasglu a chyflwyno gwybodaeth, a'r sgiliau TG angenrheidiol i weithio yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol.

Bydd y dysgwyr yn edrych ar y mathau o dechnoleg feddygol a ddefnyddir mewn cyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol, er enghraifft, at ddibenion diagnostig, gweithdrefnau mewnwthiol, neu i gynnal bywyd. Byddant hefyd yn ymchwilio i'r ystod o dechnoleg gynorthwyol y gellir ei defnyddio i wella lles ac annibyniaeth unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau.

Bydd y dysgwyr yn edrych ar fanteision technoleg gwybodaeth a thechnolegau eraill, gan ystyried materion moesegol cysylltiedig.

Mae cysylltiadau rhwng yr uned hon ac *Uned 6: Datblygiad Personol a Phroffesiynol ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol* gan fod y ddealltwriaeth a'r sgiliau a geir yn yr uned hon yn hanfodol ar gyfer datblygiad proffesiynol pob gweithiwr. O'i dysgu ochr yn ochr ag *Uned 22: Methodoleg Ymchwil ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol*, byddai'r dysgwyr yn derbyn pwnc diddorol ar gyfer estyn eu hastudiaethau a chyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau wrth ddefnyddio TG.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Ddeall cymwysiadau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol
- 2 Gallu defnyddio meddalwedd cyfrifiadurol i gynhyrchu dogfennau
- 3 Deall defnyddiau technolegau meddygol a chynorthwyol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol
- 4 Deall goblygiadau technolegau ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Cynnwys yr uned

1 Deall cymwysïadau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

Caledwedd cyfrifiadurol sylfaenol: PC, modem, sganiwr, argraffydd, darllynydd CD ROM

Meddalwedd cyfrifiadurol sylfaenol: prosesu geiriau, taenlenni, y rhyngwrwyd, e-bost; pecynnau diagnostig a rhyngweithiol; manteision a chyfyngiadau'r pecyn a ddefnyddiwyd

Dogfennau: mathau, e.e. llythyrau, labeli, negeseuon ffacs, negeseuon e-bost, adroddiadau, cardiau/taflenni cofnodi, cynlluniau gofal, llyfrynau a thaflenni, CVau

Systemau cofnodi electronig: cofnodion cleifion a defnyddwyr gwasanaeth, e.e. Crynodeb o Gofnodion Gofal, Cofnodion Gofal Cymdeithasol Electronig (ESCR), Gwasanaeth Cofnodion Gofal y GIG (NHS CRS), Cofnod Electronig Integredig Iechyd Meddwl (IMHER), cofnodion staff electronig

Systemau electronig: cenedlaethol a lleol: e.e. systemau TGclinigol Meddygon Teulu; Gwasanaeth Presgripsiynau (EPS), e-bresgripsiynau, systemau gweinyddu cleifion, gofod iechyd, cronfeydd data o adnoddau, Fframwaith Asesu Cyffredin (FfAC) ar gyfer Oedolion, trosglwyddo cofnodion Meddygon Teulu, negeseuon patholeg

Diogelwch ar y rhyngwrwyd: deddfwriaeth a pholisi cyfredol diogelu data, e.e. amddiffyniad rhag firysau; rôl y Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth Cenedlaethol; rôl y Caldicott Guardian, materion diogelu; asesu/rhannu gwybodaeth; caniatâd, mynediad at eich cofnodion eich hun

2 Gallu defnyddio meddalwedd cyfrifiadurol i gynhyrchu dogfennau

Dogfennau wedi eu seilio ar destun: cynllun, e.e. cynllun y dudalen, ffont; fformatio ac arddull, brig a gwaelod y dudalen, bwledi a rhifo, rhifo tudalennau'n awtomatig, cyfleuster gwirio sillafu a chyfri geiriau, copïo a phastio, graffeg, mewnosod tablau

Taenlenni: mewnbynnu ac addasu data yn gywir; fformatio data; didoli a hidlo; defnyddio swyddogaethau syml; creu ac arddangos fformiwlâu; cynhyrchu siartiau a graffiau; brig a gwaelod y dudalen

Cronfeydd data: defnyddiau cronfa ddata, gwrthrychau yn y gronfa ddata (tablau, cwestiynau, adroddiadau, ffurflenni) dethol meysydd, dewis o fathau o ddata, nodweddion meysydd, enwau meysydd

Chwilio ar y rhyngwrwyd: defnyddio peiriannau chwilio'n effeithiol; defnyddio meini prawf chwilio lluosog; dyfynnu ffynonellau a gwirio dibynadwyedd; cadw ffefrynau neu nodi safleoedd defnyddiol

3 Deall defnyddiau technolegau meddygol a chynorthwyol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

Technoleg ddiagnostig: ee pelydr-X, sganiau uwchsain, sganiau EEG, ECG, MRI, dadansoddi'r gwaed, dadansoddi'r wrin, monitro tymheredd a phwysedd gwaed; systemau monitro o bell

Technoleg lawfeddygol a mewnwthiol: defnyddiau, e.e. rhew-lawfeddygaeth, laseri, serio, systemau gweinyddu cyffuriau

Systemau cynnal bywyd: defnyddir ar gyfer, e.e. dialysis arenol, resbiradu, calon artiffisial, rheoliaduron

Cynllunio gofal: datblygu cynlluniau gan ddefnyddio technoleg gofal iechyd

Technoleg gynorthwyol: cymhorthion symudedd, e.e. cadeiriau olwyn pŵer, aelodau prosthetig, teclynnau codi, lifftiau grisiau; cymhorthion cyfathrebu, e.e. ffôn testun, syntheseiddydd llafar, cymhorthion clywed, dolenni clyw, cynadledda ffôn a fideo; cymhorthion bywyd beunyddiol, e.e. systemau gweithrediad llais i agor drysau, cynnau a diffodd golau, cyfrifiaduron cleidr llaw (palmpilots), cymhorthion paratoi bwyd; cymhorthion diogelwch a diogeled

4 Deall goblygiadau technolegau ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol

Moeseg: ystyriaethau, e.e. ymreolaeth, preifatrwydd, effaith ar rymgweithiad gweithwyr gofal/defnyddwyr gwasanaeth, cyfrinachedd, deddfwriaeth diogelu data

Manteision: ymreolaeth, annibyniaeth, lles, diagnosis iechyd, diogelwch a diogeled, symudedd, cyfathrebu, gwybodaeth sydd ar gael i ymateb i anghenion cyfannol

Cleifion/pobl sy'n defnyddio gwasanaethau: plant, oedolion, pobl hyn, pobl ag anghenion ychwanegol, e.e. anabledau dysgu, anabledau, problemau iechyd meddwl

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 esbonio'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol [YA2; MC2]	T1 trafod y defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol	Rh1 dadansoddi'r sgiliau gofynnol ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn defnyddio a rheoli technoleg gwybodaeth a chyfathrebu
LI2 cynhyrchu dau fath o ddogfennau cymhleth er mwyn ymateb i angen penodol [MC1; MC5; DM5]		
LI3 esbonio'r defnydd o dechnolegau meddygol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol [YA4; MC2]	T2 asesu'r defnydd o dechnolegau meddygol a chynorthwyol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol	Rh2 gwerthuso'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth a thechnolegau eraill ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.
LI4 esbonio'r defnydd o dechnolegau cynorthwyol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol [YA4; MC2]		

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI5 trafod goblygiadau technolegau ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. [YA3; YA6]	T3 asesu goblygiadau technoleg gwybodaeth a thechnolegau eraill ar gyfer cleifion a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.	

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwyr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 44: Profiad Galwedigaethol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cod yr Uned:	Y/600/9025
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	20
Oriau dysgu dan arweiniad:	120

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw bod y dysgwyr yn edrych ar sefydliad iechyd a gofal cymdeithasol, yn cyfranogi mewn gwaith tîm ac yn myfyrio ar eu dysgu o'r 100 awr o brofiad gwaith iechyd a gofal cymdeithasol a ymgorfforwyd yn yr uned.

Cyflwyniad i'r uned

Mae'r uned hon yn troi o amgylch yr amser ychwanegol mae dysgwyr yn ei dreulio mewn lleoliadau profiad gwaith dros ben yr isafswm o 100 awr sy'n ofynnol i gyflawni *Uned 6: Datblygiad Personol a Phroffesiynol ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol*. Yn yr uned hon nid oes gofyn o reidrwydd bod dysgwyr yn gweithio mewn rhagor o leoliadau, ond gallant dreulio rhagor o amser yn yr un tri lleoliad ag oedd yn ofynnol ar gyfer Uned 6.

Gyda phrofiad gwaith helaethach, bydd y dysgwyr yn cael mwy o gyfle i ddeall sut mae sefydliadau iechyd neu ofal cymdeithasol yn gweithredu, a byddant yn ymchwilio i un sefydliad iechyd neu ofal cymdeithasol penodol. Dylai mwy o amser di-dor wedi ei dreulio mewn lleoliadau penodol hwyluso ymwneud mwy gweithredol â thimau gofal. Bydd y dysgwyr yn disgrifio'u rôl wrth gyfrannu at weithgaredd tîm penodol yng nghyswllt iechyd a gofal cymdeithasol. Gallai hwn fod yn weithgaredd a gyflawnir mewn lleoliad. Fel arall, gallai'r gweithgaredd tîm fod yn un yng nghanolfan y dysgwr, er enghraifft cyfranogiad mewn ymgyrch addysg iechyd gyda chyfoedion o'r dosbarth.

Bydd y dysgwyr yn monitro eu dysgu o'u profiadau ar leoliad trwy nodi manylion yn rheolaidd mewn dyddlyfr myfyriol. Byddant yn cyflwyno portffolio o dystiolaeth i ddangos datblygiad eu harfer eu hunain yn ystod yr holl leoliadau yn y rhaglen. Gallai'r portffolio fod yn estyniad o'r portffolio a gyflwynwyd ar gyfer *Uned 6: Datblygiad Personol a Phroffesiynol ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol*, sydd â'r cysylltiad agosaf â'r uned hon. Bydd y dysgwyr yn disgrifio sut mae eu cyfraniadau wedi gwella gofal dau o'r cleifion/defnyddwyr gwasanaeth o wahanol leoliadau. Mae cyfle i ddysgwyr esbonio sut mae eu datblygiad o ran gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth wedi gwneud gwahaniaeth i dimau ac unigolion mewn lleoliadau. Gan dynnu ar enghreifftiau, bydd y dysgwyr yn esbonio sut mae datblygiad parhaus staff mewn lleoliadau yn arwain at welliannau arfer, ac yn dadansoddi sut gall hyn wella'r gofal mae defnyddwyr gwasanaethau yn ei dderbyn.

Mae'r uned yn galw am gwblhau 100 awr o brofiad gwaith mewn rôl ofal yn y ddarpariaeth o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae rhaid cael tystiolaeth ar ffurf log yn dangos hyd pob sesiwn o bresenoldeb a dreuliwyd mewn lleoliad. Mae'r oriau hyn mewn lleoliad ar ben y 100 awr sy'n ofynnol ar gyfer *Uned 6: Datblygiad Personol a Phroffesiynol ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol*.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Ddeall strwythur a swyddogaeth sefydliad lleoliadau
- 2 Gallu dangos gallu i weithio mewn tîm ar gyfer gweithgaredd iechyd a gofal cymdeithasol penodol
- 3 Gallu dangos gallu i fyfyrion ar eu cyfraniadau eu hunain i waith mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol
- 4 Deall rôl dysgu a datblygu parhaus ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Cynnwys yr uned

1 Deall strwythur a swyddogaeth sefydliad lleoliadau

Strwythur lleoliadau: nodau, rôl, polisïau a gweithdrefnau'r sefydliad

Rolau a chyfrifoldebau oddi mewn i sefydliad: trefniadaeth staff a'u rolau

Cleifion/defnyddwyr gwasanaethau: amlinelliad o'r grŵp defnyddwyr a'u hanghenion; sut diwellir anghenion

Gwasanaethau ac adnoddau a ddarperir gan sefydliadau cysylltiedig: cysylltiadau â sefydliadau eraill, gwaith rhyng-asiantaeth

Hyfforddiant a datblygiad staff: polisi, blaenoriaethau, ariannu, effaith ar ddefnyddwyr gwasanaethau a'r sefydliad

Rôl a pherfformiad y dysgwr yn nhrefniadaeth y lleoliad: disgrifiad o'r rôl, y nodau, yr amcanion, yr aseiniadau disgwylidig

2 Gallu dangos gallu i weithio mewn tîm ar gyfer gweithgaredd iechyd a gofal cymdeithasol penodol

Tîm: yn cynnwys o leiaf ddau berson, y mae'n rhaid i'r dysgwr fod yn un ohonynt

Gweithgaredd: gyda diben penodol sy'n gysylltiedig â iechyd a gofal cymdeithasol; sy'n galw am gynllunio ymlaen llaw; ymgynghori ag eraill; dosbarthu aseiniadau unigol; monitro cynnydd tuag at nod y tîm; adolygu'r tîm ar ddiwedd y gweithgaredd

3 Gallu dangos gallu i fyfrio ar eu cyfraniadau eu hunain i waith mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol

Dyddlyfr personol: ar bapur neu e-ddyddlyfr; fformat rhydd, e.e. rhyddiaith, nodiadau, fformatau gweledol, mapiau meddwl, tablau; cynnwys manylion bob 2-3 diwrnod a dreulir yn y lleoliad; myfrio ar eu teimladau eu hunain, eu cyfraniadau, eu datblygiad eu hunain, barn eraill ynghylch eu perfformiad; dylanwad eraill ar eu cyfraniadau eu hunain, y gwahaniaeth mae eu cyfraniadau eu hunain yn ei wneud i ddefnyddwyr gwasanaethau a staff

Portffolio: ar bapur neu e-bortffolio; ar gyfer pob lleoliad; log presenoldeb, adroddiad lleoliad, manylion mewn dyddlyfr personol; adolygiad myfyriol yn crynhoi ar ddiwedd lleoliad; tystiolaeth arall fel sy'n briodol; cofnodion cyfranogiad mewn gweithgareddau ymarfer, e.e. tystiolaeth tystion (arbenigol), adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth, ffotograffau (gyda chaniatâd priodol; nid o bobl) ohono'i hun a/neu arteffactau, e.e. arddangosfeydd, modelau, cyfarpar, amgylcheddau

Ymarfer: eu cyfraniadau eu hunain at, e.e. gwaith tîm, cynllunio gofal ystyriaethau diogelu, cyfleusterau, trefniadaeth y ddarpariaeth, rolau a chyfrifoldebau, polisiau a gweithdrefnau, amlinelliadau, sgiliau a chyfarpar arbenigol, gweithio gydag asiantaethau eraill

4 Deall rôl dysgu a datblygu parhaus ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

Gwybodaeth a dealltwriaeth: a gafwyd trwy weithio gyda defnyddwyr gwasanaethau ym mhob lleoliad, e.e. anghenion defnyddwyr gwasanaeth; rolau, sgiliau gofal ymarferol, cyfathrebu a rheoli gwybodaeth, parch at amrywiaeth a chyfle cyfartal, gwaith rhyngasiantaeth, ariannu darparu gwasanaeth

Cysylltiadau rhwng theori ac ymarfer: cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o'r astudio i arfer mewn lleoliadau gwaith, cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o arferion lleoliad i astudiaeth

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 esbonio strwythur a swyddogaeth sefydliad ieched neu ofal cymdeithasol [YA1; YA2; MC1; MC2]		
LI2 adroddiad ar eu cyfraniadau eu huni weithgaredd tîm penodol sy'n ymwneud â ieched a gofal cymdeithasol [YA3; MC3; DM1; DM2; DM3; DM4; GT1; GT2; GT3; GT4; HR1; HR2; HR3; HR4; HR5; HR6; HR7; CE1; CE3; CE4; CE5]	T1 asesu sut dylanwadodd eu cyfraniadau i'r tîm ar lwyddiant y gweithgaredd	Rh1 gwneud argymhellion ynghylch sut gallasen nhw addasu eu cyfraniadau eu hunain i'r tîm i ychwanegu at lwyddiant y gweithgaredd
LI3 nodi manylion myfyrio rheolaidd mewn dyddlyfr personol ynghylch eu cyfraniadau eu hunain i waith mewn lleoliad ieched a gofal cymdeithasol [YA3; MC1; MC2; MC3; MC4; MC5; DM1; DM3; DM4; DM5; DM6]		

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI4 cyflwyno portffolio o dystiolaeth o'r holl leoliadau sy'n dangos datblygiad eu harfer eu hunain mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol [YA2; YA6; DM1; DM4; DM5; GT3]	T2 asesu sut mae eu datblygiad eu hunain o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth wedi gwneud gwahaniaeth i dimau ac unigolion mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol	
LI5 esbonio sut mae datblygiad parhaus y staff yn dylanwadu ar arfer mewn lleoliadau. [YA6; MC2; MC3; DM6]	T3 asesu sut gall datblygiad parhaus y staff wella gofal cleifion/defnyddwyr gwasanaethau.	Rh2 gwerthuso sut mae eu heffeithiolrwydd eu hunain fel gofalmwr wedi datblygu o ganlyniad i brofiadau yn y gweithle.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwyr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol MC - meddylwyr creadigol	DM - dysgwyr myfyriol GT - gweithwyr tîm	HR - hunanreolwyr CE - cyfranogwyr effeithiol
----------------	--	---	--

Uned 45: Dysgu Annibynnol ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cod yr Uned:	D/600/9026
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi'r dysgwyr i weithio'n annibynnol a chyfrannu'n effeithiol mewn amgylchedd dysgu. Bydd y dysgwyr yn gallu canolbwyntio ar ddysgu a sut maent yn mynd ati i ddysgu, gan gynnwys dewisiadau dysgu, dulliau dysgu ac adnoddau.

Cyflwyniad i'r uned

Anogir dysgwyr yn gynyddol i dderbyn cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain, gyda'r cyfrifoldeb hwnnw'n cwmpasu'r dewis o gyfleoedd dysgu a'r dulliau dysgu. Nod yr uned hon yw canolbwyntio ar ddewisiadau dysgu, dulliau dysgu ac adnoddau, annog dysgwyr i weithio'n annibynnol, a chyfrannu'n effeithiol mewn amgylchedd dysgu.

Bydd y dysgwyr yn ystyried sgiliau darllen ac ysgrifennu yng nghyd-destun eu hastudiaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd hyn yn cynnwys dysgu sut i drafod testun a sut i ddeall y fformatau y dylid eu defnyddio i gyflwyno testun.

Bydd dysgwyr yn dod i ddeall sut mae cynllunio eu hastudiaethau, ac felly wneud defnydd effeithiol o'u hamser a'u hadnoddau. Byddant yn dysgu am gysyniad cydbwysedd gwaith/bywyd a phwysigrwydd cynllunio er mwyn caniatáu peth amser rhydd. Byddant hefyd yn dysgu sut i reoli aseiniadau a therfynau amser, a pharatoi ar gyfer arholiadau.

Wedi cwblhau'r uned hon dylai dysgwyr fedru rheoli eu dysgu cyfredol yn annibynnol ac yn effeithiol, a medru cynllunio ar gyfer dysgu yn y dyfodol.

Sylwer: Ni ellir cyfuno'r uned hon ag Uned 46: Llythrennedd Academaidd yn y Sectorau Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Wybod sut i ddefnyddio adnoddau i gefnogi astudiaeth
- 2 Medru cyflwyno gwaith mewn arddull a fformat priodol
- 3 Medru cynllunio a rheoli eu dysgu eu hunain.

Cynnwys yr uned

1 Gwybod sut i ddefnyddio adnoddau i gefnogi astudiaeth

Adnoddau: i gefnogi astudiaeth, e.e. staff addysgu a chymorth, cydweithwyr, cyfoedion, llyfrgell, siopau llyfrau, cyrff proffesiynol, Cynghorau Sgiliau Sector, adrannau'r llywodraeth, gweithleoedd, cyfryngau

Cymorth: addysgu a staff; cydweithwyr

Cyfryngau: testun, e.e. gwर्सlyfrau, newyddiaduron, pamffledi, gwefannau, papurau newydd, cylchgronau; cyflwyniad priodol; sgiliau darllen, e.e. darllen yn fras, darllen yn fanwl, darllen gweithredol, darllen i gael yr ystyr

Asesu testun: defnyddio llyfryddiaethau, defnyddio mynegeion, gwirio cyfeiriadaeth, darllen tudalennau ar y we; arddulliau ysgrifennu (disgrifiadol, rhagnodol, esboniadol), dulliau ymchwil (ansoddol, meintiol, triangli)

Dilysrwydd: asesu diben, cynulleidfa arfaethedig, gwirio cyfeiriadaeth, dilysrwydd, llên-ladrad

2 Medru cyflwyno gwaith mewn arddull a fformat priodol

Arddulliau a fformatiau ysgrifennu: ysgrifennu adroddiadau gwyddonol, ysgrifennu moesegol, ysgrifennu myfyriol, ysgrifennu disgyrsiol, ysgrifennu darbwyllol, ysgrifennu newyddiadurol

Iaith a strwythur: gramadeg, cystrawen, atalnodi, ffurfiol, anffurfiol; pam mae strwythur yn bwysig

Cyflwyniad: traethawd, adroddiad, cyfeiriadaeth, dyfyniadau

3 Medru cynllunio a rheoli eu dysgu eu hunain

Arddulliau dysgu: teipoleg Honey a Mumford (adlewyrchyd, theorydd, actifydd, pragmatydd); dewisiadau personol; cyfyngiadau uniaethu gydag un arddull ddysgu; agwedd gyfannol at arddulliau dysgu

Datblygiad: sut mae dysgu blaenorol wedi cyflawni'r amcanion; cynlluniau ar gyfer y dyfodol, e.e. gyrfa, teulu, teithio; cydbwysedd gwaith/bywyd; nodi cryfderau a gwendidau; amgylcheddau astudio; medru nodi ffordd briodol o ddiwallu eu hanghenion dysgu eu hunain

Cynllun datblygiad personol: nodau ac amcanion; myfyrio; tymor byr, tymor hir; amser astudio, amser sbâr; paratoi aseiniadau; ystyried dewisiadau dysgu

Sgiliau astudio: cymryd nodiadau, e.e. cofnodi, mapiau meddwl, system Cornell; gweithio at derfynau amser; ymgynghori ag eraill

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio sut mae defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i gynnal astudiaeth iechyd a gofal cymdeithasol [YA1; YA2; YA3]	T1 egluro pam y cyflwynir adnoddau'n wahanol yn ôl y math o gyfrwng a ddefnyddir	
LI2 cynhyrchu tystiolaeth o arddulliau ysgrifennu gwahanol a ddefnyddir ym maes iechyd a gofal cymdeithasol		
LI3 cyflwyno un darn cymhleth o waith yn enghraifft i ddisgrifio'r defnydd o adnoddau yn eu hastudiaethau eu hunain [YA1; YA2; YA3; MC3]	T2 egluro gwerth tri adnodd wahanol wrth baratoi'r darn cymhleth o waith	Rh1 gwerthuso'r tri adnodd o ran dilysrwydd
LI4 cynhyrchu tystiolaeth o reoli eu hastudiaeth gyfredol eu hunain ym maes iechyd a gofal cymdeithasol [HR3]		

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI5 cyflwyno tystiolaeth o ddewisiadau arddull ddysgu ac amcanion dysgu ar gyfer astudiaeth bellach ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. [HR3; DM1; DM2; DM3; DM5]	T3 llunio cynllun datblygiad personol ar gyfer dysgu ac amser astudio yn y dyfodol.	Rh2 asesu gwerth y cynllun datblygiad personol o ran eu dysgu eu hunain a rheoli eu hastudiaeth gyfredol eu hunain.

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwyr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 46: Llythrennedd Academaidd yn y Sectorau Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cod yr Uned:	H/600/9027
FfCCH Lefel 4:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi'r dysgwyr i ddeall arddulliau ysgrifennu academaidd a theorïau ynghylch dysgu, a datblygu eu sgiliau astudio er mwyn paratoi ar gyfer gofynion addysg uwch.

Cyflwyniad i'r uned

Er bod elfennau generig i'r sgiliau y mae eu hangen i lwyddo'n academaidd, y mae hefyd elfennau sy'n unigryw i ddisgyblaethau gwahanol. Mae'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol mewn lle amlwg i'r cyhoedd graffu arnynt, ac mae hynny'n ysgogi dadleuon ynghylch materion cyfredol oddi mewn ac oddi allan i'r sectorau hynny.

Mae'r uned hon yn darparu sylfaen ar gyfer y rhai sydd am symud ymlaen i addysg uwch a datblygu gyrfa yn y sectorau iechyd neu ofal cymdeithasol. Bydd yn helpu'r dysgwyr i ymgyswrtu ag ystod eang o arddulliau ysgrifennu academaidd, er enghraifft y rhai a ddefnyddir ar gyfer dadleuon moesegol a chymdeithasol, ysgrifennu gwyddonol, adolygiadau neu ysgrifennu amser-gyfyngedig mewn arholiadau.

Byddai o fantais petai'r uned yn cael ei haddysgu ochr yn ochr ag uned iechyd a gofal cymdeithasol arall a ddewiswyd, gan y dylid rhoi darllen a chynhyrchu testunau academaidd yn ei gyd-destun, er mwyn galluogi'r dysgwyr i werthfawrogi perthnasedd hynny i ddatblygiad sgiliau. *Bydd Uned 22: Methodoleg Ymchwil ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cefnogi'r uned hon trwy atgyfnerthu'r dysgu a darparu cyfle i arddangos sgiliau ysgrifennu academaidd.*

I gychwyn, bydd y dysgwyr yn cael eu cyflwyno i ddadleuon cyfoes ym maes ieched a gofal cymdeithasol. Byddant yn ystyried y dylanwadau ar ddadleuon a sut gall ysgrifennu academiaidd, yn ei dro, ddylanwadu ar bolisi a gwaith o fewn sectorau. Bydd cyfleoedd i edrych ar wahanol ddulliau o gyflwyno ac arddulliau ysgrifennu, ac i ryngweithio gyda thestun ysgrifenedig, a chanfod gwybodaeth ohono. Bydd y dysgwyr yn cadarnhau eu dysgu, ac yn arddangos eu sgiliau llythrennedd, trwy gynhyrchu darn o ysgrifennu estynedig.

Cyflwynir theorïau ynghylch sut mae pobl yn dysgu, gyda chyfleoedd i ddarlau a herio rhagdybiaethau mewn perthynas â'u dysgu eu hunain. Bydd hyn yn arwain y dysgwyr i adolygu eu sgiliau a'u dyheadau eu hunain er mwyn cynhyrchu eu cynllun datblygiad personol eu hunain i baratoi ar gyfer astudiaethau lefel uwch ym maes ieched a gofal cymdeithasol.

Ni chaniateir cyfuno'r uned hon mewn rhaglen gydag Uned 45: Dysgu Annibynnol ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Ddeall sut defnyddir iaith a llythrennedd i gyflwyno dadleuon ym maes ieched a gofal cymdeithasol
- 2 Medru ysgrifennu gan ddefnyddio gwahanol arddulliau llythrennedd
- 3 Deall theorïau ynghylch dysgu
- 4 Medru rheoli eu hastudiaethau eu hunain er mwyn paratoi ar gyfer addysg uwch.

Cynnwys yr uned

1 Deall sut defnyddir iaith a llythrennedd i gyflwyno dadleuon ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

Dadleuon: perthnasol i iechyd a gofal cymdeithasol, e.e. ansawdd gofal dementia, rolau cwnsela a seiciatreg yn eu tro, niwed neu fanteision sgrinio a phrofion genetig, anghydraddoldebau iechyd a gofal, iatrogenesis clinigol a diwylliannol, dadleuon o wahanol safbwyntiau gwleidyddol

Llythrennedd academiaidd: fformat, e.e. gwyddonol, papur safbwynt, canllawiau, adolygiad gwybodaeth, adroddiad, briff ymchwil; arddull, e.e. adfyfyrion, disgrysiol, darbwyllog, disgrifiadol, rhagnodol, eglurhaol, newyddiadurolog

Dylanwadau: pwysau'r cyfryngau, y llywodraeth/polisi cymdeithasol, carfannau pwysu, addysg, y sectorau iechyd a gofal, y trydydd sector

Goblygiadau dadl: dylanwadau ar y sectorau, e.e. newid deddfwriaeth/polisi, codau a gweithdrefnau; arferion gwaith; agweddau; adnoddau

Cyfryngau: newyddiaduron, llyfrau, tudalennau ar y we, papurau newydd, teledu

Darllen effeithiol: deall trefniadaeth gwahanol arddulliau; 'broliant' cyhoeddwr; cyd-destun; mynegai; sganio, sgimio, geiriau cyfeirio, technegau darllen cyflym; cymryd nodiadau

Dilysrwydd: llenyddiaeth, e.e. awduraeth, bwriad yr awdur, manylion cyhoeddi, cynulleidfa arfaethedig, gwrthrychedd, cyfeiriadau, dyfynnwyd gan eraill, dilysrwydd, llên-ladrad, moesegol

2 Medru ysgrifennu gan ddefnyddio gwahanol arddulliau llythrennedd

Llythrennedd academiaidd: fformat; arddull; cynulleidfa; diben; dilysrwydd

Adnoddau: defnyddiau, e.e. llyfrgell, newyddiaduron, llyfrau, teledu, fideo-gynadledda, lleoliadau gwaith, adnoddau e-ddysgu, gwefannau, pobl eraill

Strwythur/cynllun: confensiynau cynllun; crynodeb/cyflwyniad; penawdau; is-benawdau; prif gorff y testun; diweddsglo; ffont; cyfeiriadau

Iaith: gramadeg; sillafu; atalnodi; geirfa academiaidd/galwedigaethol

Cyfeiriadaeth: systemau, e.e. Harvard, Cymdeithas Ieithoedd Modern (MLA), system rifol, rhifau uwchysgrif; llyfryddiaeth, cyfeiriadaeth, dyfyniadau

Golygu: prawfddarllen; perthnasedd; cywirdeb; cysondeb; strwythur; cynllun; gwirio am dueddiadau

Arholiadau: cynllunio a pharatoi, technegau

3 Deall theorïau ynghylch dysgu

Theorïau ynghylch dysgu: theorïau, e.e. cylch dysgu pedwar cam Kolb, neu arddulliau dysgu Honey a Mumford; theori deallusrwydd lluosog Gardner; Carl Rogers a theori ddyneiddiol dysgu; theori Lave a Wenger o gyfranogiad ymylol cyfreithlon mewn cymunedau arfer; a yw disgrifio'u dysgu eu hunain yn cyfyngu arnynt neu yn eu rhyddhau

4 Medru rheoli eu hastudiaethau eu hunain er mwyn paratoi ar gyfer addysg uwch

Eu hanghenion eu hunain: eu rheolaeth eu hunain ar, e.e. amser, cydbwysedd gwaith/bywyd, straen; sgiliau, e.e. rheoli testun data, meintiol, digidol, arall

Cynllunio: nodau ac amcanion; myfyrio; tymor byr, tymor hir; amser astudio, casglu tystiolaeth, gwaith aseiniad, paratoi ar gyfer arholiadau; ystyried dewisiadau dysgu; cyflawniadau blaenorol; bylchau o ran dealltwriaeth/gwybodaeth/sgiliau, uchelgeisiau gyrfa/cyflogaeth, uchelgais bersonol, amcanion CAMPUS (cyflawnadwy, amser benodol, mesuradwy, penodol, synhwyrol); adnoddau, amgylchedd

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 esbonio'r defnydd o fformat ac arddull i gyflwyno dadleuon cyfoes ym maes iechyd a gofal cymdeithasol [YA4; YA5; YA6; MC2]	T1 dadansoddi'r defnydd o fformat ac arddull, gan ddefnyddio enghreifftiau o lythrennedd academiaidd, i gyflwyno dadleuon cyfoes ym maes iechyd a gofal cymdeithasol	Rh1 gwerthuso'n feirniadol gyfraniad llythrennedd academiaidd i ddadleuon cyfoes ynghylch iechyd a gofal cymdeithasol
LI2 asesu dilysrwydd testun academiaidd sy'n cyfrannu at ddadl gyfoes ym maes iechyd a gofal cymdeithasol [YA4; YA6; MC2]		
LI3 trafod dylanwad llythrennedd academiaidd ar ddadleuon cyfoes ym maes iechyd a gofal cymdeithasol [YA4; YA5; YA6; MC2]		

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd theilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI4 cynhyrchu darn o ysgrifennu i ddarlunio llythrennedd academaidd ar gyfer ieched a gofal cymdeithasol [YA2; YA6; MC3; DM4; DM6; HR2; HR3]	T2 cyfiawnhau'r dewis o fformat, arddull ac adnoddau yn eu hysgrifennu eu hunain ar gyfer ieched a gofal cymdeithasol	Rh2 gwerthuso eu hysgrifennu eu hunain yn feirniadol yng nghyswllt gofynion llythrennedd academaidd
LI5 dadansoddi priodoldeb yr adnoddau a ddefnyddiwyd [YA2,6; HR3]		
LI6 cymharu dwy theori ynghylch dysgu [YA3; YA4; YA6; MC2; MC3]	T3 dadansoddi dwy theori ynghylch dysgu	Rh3 gwerthuso dwy theori ynghylch dysgu mewn perthynas â'u dysgu eu hunain.
LI7 cynhyrchu cynllun datblygiad personol i baratoi ar gyfer addysg uwch. [DM1; DM2; DM3; DM5; CE3]	T4 adolygu cryfderau a gwendidau'r cynllun i baratoi ar gyfer addysg uwch.	

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwyr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol MC - meddylwyr creadigol	DM - dysgwyr myfyriol GT - gweithwyr tîm	HR - hunanreolwyr CE - cyfranogwyr effeithiol
----------------	--	---	--

Uned 47: Polisi Cymdeithasol ym maes lechyd a Gofal Cymdeithasol

Cod yr Uned:	K/600/9028
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Gwerth credydau:	5
Oriau dysgu dan arweiniad:	30

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi dysgwyr i ddeall polisi cymdeithasol yng nghyswllt iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd y dysgwyr yn gallu ymchwilio i strwythur y Llywodraeth a phroses llunio polisi, a hefyd i sut mae'r Llywodraeth yn ymateb er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol.

Cyflwyniad i'r uned

Mae'r Deyrnas Unedig yn enghraifft o wlad gyfoethog lle nad yw'r cynnydd o ran cyfoeth yn ystod y 25 mlynedd diwethaf ac ymyriadau'r llywodraeth wedi medru gwyrddroi anghydraddoldebau difrifol o ran incwm, ffyniant a chyfleoedd bywyd. Mae'r rhai sydd ar y cyrion yn byw mewn cymdeithas a nodweddir gan newid ar raddfa sy'n cyflymu a mathau newydd o dlodi ac amddifadedd.

Bydd yr uned hon yn rhoi gwybodaeth a mewnwelediad amhrisiadwy i'r dysgwyr am strwythur y llywodraeth a'r broses o greu polisiau, yn ogystal â rôl polisiau lles sy'n ymwneud â rhai o'r grwpiau agored i niwed mewn cymdeithas. Bydd y dysgwyr yn edrych ar effeithiolrwydd strategaethau cenedlaethol i wrthweithio anghydraddoldeb cymdeithasol a diwallu anghenion grwpiau sydd ar y cyrion.

Mae'r uned yn ceisio ehangu ac adeiladu ar yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth y bydd dysgwyr wedi'u datblygu wrth astudio unedau blaenorol, megis *Uned 2: Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol*, *Uned 7: Persbectifau Cymdeithasegol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol* ac *Uned 19: Persbectifau Cymdeithasegol Cymwysedig ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol*.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Ddeall strwythur y llywodraeth a'r broses o greu polisiâu
- 2 Deall ymatebion y llywodraeth i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb cymdeithasol

Cynnwys yr uned

1 Deall strwythur y llywodraeth a'r broses o greu polisiau

Lefelau'r llywodraeth a'u heffaith ar benderfyniadau polisi: llywodraeth leol, llywodraeth ganolog, holl ystod adrannau'r llywodraeth; Yr Undeb Ewropeaidd

Y famwlad: fel sy'n berthnasol, e.e. Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon

Y broses o lunio polisi: sut caiff cyfreithiau eu llunio; cynyddu ymwybyddiaeth, comisiynu ymchwil, argymhellion, Papur Gwyrdd, Papur Gwyn

2 Deall ymatebion y llywodraeth i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb cymdeithasol

Llywodraeth: plaid wleidyddol, ideoleg wleidyddol; dylanwad yr Undeb Ewropeaidd, carfannau pwysu, y cyfryngau torfol, yr economi

Ymatebion y llywodraeth: sut bu iddynt ddigwydd, pa ddylanwadau allai fod wedi effeithio arnynt

Deddfwriaeth: mentrau perthnasol, e.e. yr Uned Eithrio Cymdeithasol, nodi'r aelwydydd, yr unigolion a'r plant sy'n wynebu'r risg fwyaf yn gynnar; gwella canlyniadau a dyheadau plant sydd mewn gofal; lleihau cyfradd y merched ifanc sy'n beichiogi yn eu harddegau; sicrhau bod pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yn derbyn gwasanaethau effeithiol, gan gefnogi gwaith yr Uned Barch; cyfleoedd cyfartal; nawdd cymdeithasol; cyfiawnder troseddol

Dylanwad carfannau pwysu: newidiadau ym mholisi'r llywodraeth; effaith carfannau pwysu a gweithredu ar y cyd

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 disgrifio strwythur y llywodraeth sy'n berthnasol i'r famwlad [YA3; YA4; MC2; MC4]		
LI2 esbonio'r broses o lunio polisi [YA3; YA4; MC2; MC4]		
LI3 esbonio ymdrechion diweddar gan y Llywodraeth i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol [MC4]	T1 trafod dwy enghraifft ddiweddar o ymdrechion cyfredol y llywodraeth i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol	Rh1 gwerthuso effeithiolrwydd dwy enghraifft ddiweddar o ymdrechion cyfredol y llywodraeth i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol.
LI4 esbonio sut mae carfannau pwyso wedi mynd ati'n ddiweddar i geisio dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch llunio polisi mewn perthynas ag anghydraddoldebau cymdeithasol. [YA3; MC2; MC4]	T2 asesu sut mae carfannau pwyso wedi dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch llunio polisi yn ddiweddar mewn perthynas ag anghydraddoldebau cymdeithasol.	

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwyr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol

Uned 48: Archwilio Datblygiad Personol a Phroffesiynol ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cod yr Uned:	M/600/9029
FfCCH Lefel 3:	BTEC Cenedlaethol
Credydau:	10
Oriau dysgu dan arweiniad:	60 (plws 50 awr o brofiad gwaith)

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw bod y dysgwyr yn deall gwahanol ffyrdd o ddysgu, a sut gellir defnyddio dysgu o brofiadau unigol i wella ansawdd gwybodaeth, sgiliau ac arfer. Bydd y dysgwyr yn gallu edrych ar gysyniadau dysgu a chysylltu'r rhain â'u hoff ddulliau dysgu eu hunain a ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar eu dysgu.

Cyflwyniad i'r uned

Trwy'r uned hon bydd dysgwyr yn ystyried eu datblygiad personol a phroffesiynol yn gyfannol, gan gysylltu gwahanol agweddau ar eu gwaith a'u profiadau personol.

Ar y cychwyn bydd y dysgwyr yn ystyried eu gwybodaeth, eu sgiliau, eu harfer, eu gwerthoedd a'u credoau eu hunain yng nghyswllt gwaith ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Wedyn byddant yn llunio cynllun personol ar gyfer hunan-ddatblygiad yn ystod y rhaglen, fel sy'n briodol ar gyfer eu nodau personol a'u dyheadau gyrfa. Bydd dysgwyr yn adolygu eu cynnydd yn erbyn y cynlluniau hyn ar adegau ar hyd eu datblygiad proffesiynol, gan eu haddasu yn ôl y galw wrth i amgylchiadau newid. Byddant yn datblygu'r gallu i dynnu ar ystod o ffynonellau gwybodaeth, gan gynnwys eu profiad galwedigaethol a phrofiadau perthnasol eraill megis astudiaethau ffurfiol, cyflogaeth a/neu weithgareddau gwirfoddol.

Mae lleiafswm o 50 awr o brofiad gwaith yn ofynnol i gwblhau'r uned hon yn llwyddiannus. Argymhellir bod hyn yn cael ei rannu rhwng dau leoliad gwahanol o leiaf

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Ddeall y broses ddysgu
- 2 Gallu cynllunio ar gyfer eu datblygiad proffesiynol eu hunain a'i fonitro
- 3 Gallu myfyrio ar eu datblygiad eu hunain dros amser.

Cynnwys yr uned

1 Deall y broses ddysgu

Theorïau ynghylch dysgu: damcaniaethwyr perthnasol, e.e. Honey a Mumford, Kolb

Dylanwadau: ar ddysgu, e.e. dysgu a phrofiad blaenorol, angen dysgu penodol, dysgu ffurfiol yn erbyn dysgu anffurfiol, amser, dull o ddysgu, amgylchedd dysgu, mynediad i adnoddau, agwedd a hunanddisgyblaeth, dyheadau a symbyliad, blaenoriaethau, iechedd, cyfrifoldebau, perthnasoedd, eraill yn ôl y galw

Sgiliau ar gyfer dysgu: sgiliau astudio; llythrennedd, rhifedd, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu; sgiliau ymchwil, e.e. arsylwi, cwestiynu, defnyddio'r rhyngwyd; defnyddio adborth; myfyrio

Cefnogaeth ar gyfer dysgu: gan diwtoriaid, cyfoedion, goruchwylwyr, mentoriaid; cyfarfodydd; mwy o hunan-ymwybyddiaeth; sut a ble mae cael hyd i wybodaeth a chefnogaeth am arfer gorau a gwybodaeth

Cyfleoedd dysgu: ffurfiol, anffurfiol; e.e. gweithgareddau yn y dosbarth, profiadau ar leoliad, astudiaethau annibynnol, profiadau bywyd, cyflogaeth, gweithgareddau gwirfoddol

2 Gallu cynllunio ar gyfer eu datblygiad proffesiynol eu hunain a'i fonitro

Adolygu ar ddechrau'r rhaglen: eu gwybodaeth eu hunain, eu sgiliau, eu harfer, eu gwerthoedd, eu credoau a'u dyheadau gyrfa; hunan-ymwybyddiaeth

Gwybodaeth: fel sy'n angenrheidiol ar gyfer datblygiad proffesiynol, e.e. y dysgu ffurfiol ac anffurfiol perthnasol hyd yma, materion cyfoes, dealltwriaeth o theorïau, egwyddorion a chysyniadau, gwybodaeth am yrfaedd posib; casglwyd o amrywiaeth o gyfleoedd dysgu

Sgiliau: cyfathrebu e.e. iaith (llafar, ysgrifenedig, di-eiriau); gweithio gydag eraill, e.e. defnyddwyr gwasanaeth, gweithwyr proffesiynol, cyfoedion; technegol e.e. TG, defnyddio cyfarpar, sgiliau creadigol/crefft; ymchwil, e.e. cynradd, eilaidd, trafod data; personol, e.e. sgiliau trefniadol, cyflwyniad personol

Ymarfer: e.e. parch at sylfaen gwerthoedd gofal, rhyngweithio proffesiynol gydag eraill, gweithio ar y cyd ag eraill, gwaith tîm, dylanwad gwerthoedd a chredoau personol, ymwybyddiaeth o'r angen i ddatblygu sylfaen gwerthoedd personol i gefnogi a hyrwyddo arfer da, ymwybyddiaeth o effaith deddfwriaeth, codau ymarfer a pholisïau ar eu harfer eu hunain, eu cyfrifoldeb a'r cyfyngiadau sydd arnynt

Gwerthoedd a chredoau: gwerthoedd a chredoau personol, sylfaen gwerthoedd gofal iechyd

Dyheadau gyrfa: dewisiadau gyrfa, y dewis a ffafir

Cynllun gweithredu ar gyfer hunan-ddatblygiad: targedau/nodau, tymor byr (hyd at dri mis), tymor hir (isafswm o 10 mis), penodol, mesuradwy, ymarferol, perthnasol, amserol

Nodau personol: o ran gwybodaeth, sgiliau, arfer, gwerthoedd, credoau, dyheadau gyrfa

3 Gallu myfyrio ar eu datblygiad eu hunain dros amser

Monitro a gwerthuso'r cynllun o ran eu datblygiad eu hunain: isafswm o dri nod, cynnydd yn erbyn y targedau a bennwyd

Newidiadau: mewn ymateb i anghenion datblygu parhaus, nodau a myfyrio

Cyd-destunau: lleoliadau profiad gwaith, ymweliadau, amgylchedd astudio, digwyddiadau bywyd, arall, e.e. cyflogaeth

Portffolio datblygiad proffesiynol: llyfr log arfer proffesiynol, wedi'u strwythuro'n briodol ar gyfer asesu'r uned a natur y dystiolaeth, cofnodion wedi'u mynegeo a'u dilysu i ddangos cynnydd personol wrth ddatblygu gwybodaeth, sgiliau, ymarfer a dyheadau gyrfa dros amser, amrywiaeth o gyd-destunau ar gyfer dysgu a datblygu

Tystiolaeth berthnasol: ffurfiol, e.e. asesiadau, arsylwadau, tystiolaeth arsylwi uniongyrchol gan dystion, adroddiadau lleoliadau, adborth gan diwtoriaid a goruchwylwyr, cofnodion sesiynau tiwtorial/gyrfaoedd, tystysgrifau, datganiadau personol, ffurflenni cais neu CVs; anffurfiol, e.e. dyddiadur, adolygiadau cyfoedion, cofnodion adfyfyriol, cofnodion digwyddiadau

Cefnogaeth ar gyfer datblygu: gan diwtoriaid, cyfoedion, goruchwylwyr, mentoriaid; cyfarfodydd; mwy o hunan-ymwybyddiaeth; sut a ble mae cael hyd i wybodaeth a chefnogaeth am arfer gorau a gwybodaeth

Myfyrio ar ddatblygiad personol: cysylltu theori ac ymarfer; cysylltu ymarfer a theori; cyflawni nodau personol o ran gwybodaeth, sgiliau, ymarfer, gwerthoedd, credoau a dyheadau gyrfa; dylanwad gwerthoedd a chredoau personol; effaith eraill ar ddatblygiad esblygol yr hunan

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 egluro beth yw'r prif ddylanwadau ar brosesau dysgu unigolion [MC2; YA1]	T1 asesu effaith y prif ddylanwadau ar eu prosesau dysgu personol eu hunain ar eu dysgu eu hunain	Rh1 gwerthuso sut gall dysgu a datblygiad personol fod o fudd i eraill
LI2 asesu eu gwybodaeth, eu sgiliau, eu hymarfer, eu gwerthoedd, eu credoau a'u dyheadau gyrfa personol eu hunain ar ddechrau'r rhaglen [MC2; MC4; YA1]		
LI3 cynhyrchu cynllun gweithredu ar gyfer hunan-ddatblygiad a chyflawni nodau personol [HR3; GT4; CE3]		
LI4 cynhyrchu tystiolaeth o'u cynnydd eu hunain yn erbyn y cynllun gweithredu dros gyfnod y rhaglen [YA3; YA4; HR2]	T2 asesu sut mae'r cynllun gweithredu wedi eu helpu i gynnal eu datblygiad eu hunain dros gyfnod y rhaglen	Rh2 gwerthuso'u datblygiad eu hunain dros gyfnod y rhaglen.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI5 myfyrion ar eu datblygiad personol a phroffesiynol eu hunain. [YA5; DM1; DM3; DM4; DM5; HR2]	T3 defnyddio tair enghraifft i esbonio'r cysylltiadau rhwng theori ac ymarfer.	

SDMP: Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirnod, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n annatod yn asesu'r uned hon. Trwy gyflawni'r meini prawf, bydd y dysgwyr wedi dangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

Allwedd	YA - ymholwyr annibynnol	DM - dysgwyr myfyriol	HR - hunanreolwyr
	MC - meddylwyr creadigol	GT - gweithwyr tîm	CE - cyfranogwyr effeithiol